# Cyd-ddylunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i Gymru

# Co-design for a Sustainable Farming Scheme for Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



menter a busnes

Paratowyd gan Menter a Busnes

CYNNWYS

1. Crynodeb Gweithredol
2. Y Briff
3. Llinell amser y prosiect
4. Methodoleg
5. Crynodeb o arsylwadau ac adborth cyffredinol
6. Demograffeg Cyfranogwyr
7. Adran A
 7.1 Allgymorth
 7.2 Mynegiant o Ddiddordeb
 7.3 Adolygiad Cynaliadwyedd Fferm
 7.4 Cynllun Cynaliadwyedd Fferm
8. Adran B - Themâu
 8.1 Rheoli Pridd
 8.2 Rheoli Cynefinoedd (Gwytnwch Ecosystem)
 8.3 Cyfleoedd i Ddatblygu'r Fferm
 8.4 Iechyd a Lles Anifeiliaid a Rheoli Da Byw
 8.5 Yr Iaith Gymraeg

ATODIADAU

Atodiad 1 Cwestiynau'r arolwg
Atodiad 2 Nodiadau briffio cyfranogwyr mewn sesiynau un i un
Atodiad 3 Cwestiynau'r sesiynau un i un
Atodiad 4 Nodyn briffio a thrafodaeth ar gyfer cyfranogwyr sesiynau grŵp





# 1. Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn casglu barn, adborth a'r ystyriaethau a amlygwyd wrth ymgysylltu â ffermwyr Cymru i lywio datblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) arfaethedig ar gyfer Cymru.
Bu'r prosiect yn archwilio barn ffermwyr yn ymwneud â phynciau penodol er mwyn llywio datblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy:

a. Allgymorth
b. Rheoli pridd
c. Rheoli cynefinoedd (gwytnwch ecosystem)
ch. Cyfleoedd datblygu fferm
d. Iechyd a lles anifeiliaid a rheoli da byw
dd. Yr Iaith Gymraeg

## Allgymorth

Mae'r prosiect hwn wedi dod i'r casgliad nad yw ffermwyr yn erbyn y cysyniad o weithredu mewn ffordd newydd. Bydd cyfathrebu clir a gweledol yn bwysig wrth lansio cynllun newydd ac mae angen i'r derminoleg a ddefnyddir fod yn glir ac yn addas.
Mae ffermwyr yn fodlon cwblhau'r mynegiant o ddiddordeb (EoI) eu hunain. Mae'n ymddangos bod awydd i rannu data gyda Llywodraeth Cymru, ond bydd yn rhaid amlinellu'r gofynion, pwrpas a chymhelliant neu fudd ariannol yn glir ar gyfer gwneud hynny.

Er mwyn cynnal yr adolygiad cynaliadwyedd fferm, byddai mwyafrif y ffermwr yn ffafrio dewis eu cynghorydd/swyddog. Yn ogystal, byddai darparu rhestr glir o gamau gweithredol gofynnol/dewisol ynghyd â rhesymeg lawn o'r buddion yn helpu ffermwyr i ystyried yr hyn a fyddai'n gweddu orau gyda'u systemau ffermio ac unrhyw effeithiau posibl ar gynhyrchiant a phroffidioldeb. Pwysleisiwyd y byddai gwneud penderfyniadau ar y cyd rhwng y ffermwr a'r cynghorydd yn debygol o arwain at fuddion tymor hwy a pherchnogaeth ar gamau gweithredu. Mynegwyd hefyd, pe byddai rhannu'r data presennol yn hwyluso gweinyddiaeth y cynllun, byddai hynny'n broses a fyddai'n cael ei chroesawu.

Mewn perthynas â'r cynllun cynaliadwyedd fferm, mae'n ymddangos bod awydd i hunanasesu o fewn y cynllun gydag awgrymiadau ar gyfer defnyddio cyfuniad o ddulliau dros y we/apiau a systemau papur. Roedd datblygu llwyfannau RPW ar-lein hefyd yn cael ei ystyried yn ddull rhesymegol.

Mae deall y sylfaen ar gyfer gwobrwyo gweithredoedd o fewn y cynllun yn bwysig i ffermwyr. Dywedodd un ohonynt: "Mae'n hanfodol ein bod yn deall gwerth camau gweithredu presennol - beth yw methodoleg Llywodraeth Cymru ar gyfer diffinio'r sylfaen y gellir gwobrwyo gweithredoedd ohoni'n briodol". Trafodwyd gweithredoedd a chynigion fel cam cyntaf ar gyfer datblygu'r cynllun. Roedd sefydlu cyfraddau talu a goddefiannau hefyd yn ystyriaethau pwysig i ffermwyr.

## Rheoli Pridd

Ar y cyfan, mae ffermwyr yn rhoi ystyriaeth sylweddol i reoli'r pridd, a chydnabuwyd nad oedd rhai o'r arferion yn arferion gorau o ran rheoli'r pridd. Roedd ffermwyr o'r

farn eu bod yn meddu ar y sgiliau cywir i reoli eu pridd ac y byddai parhau gyda'r cymorth ar gyfer samplu pridd a chyflwyno cefnogaeth ar gyfer gwasgaru calch yn ymyriadau effeithiol er mwyn gwella rheolaeth o'r pridd. Nodwyd bod dealltwriaeth o nod a gweledigaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rheoli pridd yn bwysig. Mynegwyd barn glir nad yw cynlluniau blaenorol wedi hwyluso cydweithredu â chymdogion. Mae pa mor ddeniadol yw cymryd rhan mewn cynllun yn ddibynnol ar nifer o ffactorau, ond bydd yr atyniad economaidd yn hollbwysig. Byddai trafodaeth bellach unwaith y bydd mwy o fanylion ar gael am y cynigion a'r gweithredoedd sy'n rhan o'r cynllun yn ddefnyddiol i ffermwyr.

Roedd ffermwyr o'r farn bod ymddiriedaeth yn y swyddog prosiect yn allweddol er mwyn sicrhau llwyddiant y cynllun.

Rheoli Cynefinoedd (Gwytnwch Ecosystem)
Mae ffermwyr o'r farn bod tir yn darparu cynefin a chynhyrchiant, ac roeddent yn arbennig o barod i dderbyn y syniad o ddarparu bwyd a nwyddau amgylcheddol eraill ar y tir, lle bo modd gwneud y ddau mewn modd sy'n ategu ei gilydd.

Er bod y ffaith bod angen rhagor o wybodaeth fanwl ynglŷn â chanlyniadau'r cynllun wedi cael ei nodi, mae ffermwyr yn hyderus eu bod eisoes yn meddu ar y sgiliau gofynnol i reoli cynefinoedd mewn modd ffafriol, neu fod modd datblygu'r sgiliau hynny. Fodd bynnag, nodwyd bod y diffiniad o 'dalu yn ôl canlyniad' yn achosi ansicrwydd. Anogir archwiliad o'r defnydd a wneir o dechnoleg wrth fonitro ac adrodd fel rhan o'r cynllun SFS.

Mae ffermwyr yn teimlo y dylent gael eu gwobrwyo am y gwaith da maen nhw eisoes yn ei wneud i ddiogelu cynefinoedd, nid eu cosbi. Awgrymwyd y dylai cefnogaeth yn y dyfodol ganolbwyntio ar gynorthwyo ffermwyr i gynnal a gwella ansawdd ardaloedd gwarchodedig. Byddai angen cyfathrebu pellach er mwyn datblygu cynllun rhanbarthol i gyd-fynd â Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru gan fod ymwybyddiaeth ffermwyr yn isel iawn.

Cyfleoedd i Ddatblygu'r Fferm
Dylai'r cynllun ddefnyddio ymgynghorwyr credadwy, dibynadwy ac uchel eu parch sydd â chymwysterau a phrofiad addas er mwyn i unrhyw safbwyntiau neu awgrymiadau gael eu cymryd o ddifrif. Er mai ychydig iawn o ffermwyr oedd wedi cynnal dadansoddiad SWOT ysgrifenedig ffurfiol, roedd llawer wedi ystyried gwneud hynny ar gyfer eu busnesau ar sail anffurfiol. Yn gyffredinol, roedd ffermwyr yn gefnogol i'r cynnig o ddefnyddio dull dadansoddi SWOT i ddatblygu strategaeth busnes fferm.

Nid oedd ffermwyr eisiau cael eu cosbi am fethu â chyrraedd targedau busnes. Er bod cytundeb cyffredinol bod gosod nodau a thargedau yn bwysig ac yn hanfodol er mwyn arwain gwelliant busnes, ystyriwyd na ddylid cysylltu taliadau â chyrraedd targedau o'r fath oherwydd dylanwad ffactorau allanol.

Roedd ffermwyr yn teimlo y dylai'r gefnogaeth ganolbwyntio ar wella cynhyrchiant; mae ystod o themâu wedi cael eu nodi, mae ystyriaethau o gynlluniau presennol wedi cael eu trafod, ac roedd hygyrchedd y gefnogaeth ar gyfer ffermydd o bob maint yn cael ei ystyried yn bwysig.



CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

Iechyd a Lles Anifeiliaid a Rheoli Da Byw
Gwaredu clefydau, yn enwedig TB a chlafr defaid, oedd y mater pwysicaf o bell ffordd sy'n gofyn am gefnogaeth gan y Llywodraeth o ran cynllunio iechyd, a'r farn oedd bod cyngor a chyfranogiad Milfeddygol yn nodwedd allweddol ar gyfer cyflawni safon uchel o iechyd anifeiliaid ar ffermydd Cymru.

Trafodwyd cost a budd fel y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch a yw protocolau iechyd anifeiliaid yn cael eu gweithredu ai peidio. Rhannwyd hefyd safbwyntiau bod angen i brosesau monitro DPA a chadw cofnodion fod yn ymarferol ac yn gymharol.

Croesawyd ymyrraeth benodol i'r cynllun sy'n gwobrwyo ffermwyr sy'n bodloni'r safon ofynnol o ran iechyd a lles anifeiliaid. Amlygodd y trafodaethau grŵp bod cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar y fferm yn werthfawr iawn a chredir fod rhwydweithiau cefnogi presennol yn ddefnyddiol ar y cyfan.
Roedd y gydberthynas rhwng iechyd meddwl ffermwyr ac iechyd a lles anifeiliaid hefyd yn bryder.

Yr Iaith Gymraeg
Cwblhawyd yr holl broses o gyd-ddylunio yn ddwyieithog. Effaith y cynllun ar y Gymraeg oedd y brif ystyriaeth gyda rhywfaint o ymatebwyr yn credu y gallai cyffredinolrwydd yr iaith Gymraeg mewn ardaloedd gwledig fod yn fesur o lwyddiant y cynllun. Ystyriwyd bod darpariaeth ddwyieithog y cynllun newydd yn bwysig.

# 2. Y Briff

Pwrpas y prosiect hwn oedd i "ymgysylltu'n uniongyrchol â ffermwyr unigol, rheolwyr tir a rhanddeiliaid perthnasol eraill, tynnu ar eu profiad trwy drafodaethau adeiladol a chasglu eu barn ynglŷn â'r camau gweithredu a'r cynigion".

Mae'r brîff wedi caniatáu ar gyfer deialog adeiladol ac archwilio barn ac arferion presennol y cyfranogwyr ar wahanol themâu sy'n berthnasol i'r cynllun. Oherwydd y cam presennol yn natblygiad y polisi, roedd y trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar gynigion lefel uchel yn hytrach na dyluniad manwl o'r cynllun. Roedd rhai cyfranogwyr yn nodi eu bod yn disgwyl i'r prosiect fod yn gyfle i drafod ac ystyried cynigion a gweithgareddau mwy manwl na'r hyn a ddatblygwyd.

Mae fformat yr adroddiad fel a ganlyn:
- Mae Adran A yn canolbwyntio ar ddatblygu adolygiad cynaliadwyedd fferm, cynllun cynaliadwyedd fferm a mynegiant o ddiddordeb.
- Mae Adran B yn canolbwyntio ar y pynciau a'r camau gweithredu o fewn y cynllun mewn perthynas â rheoli'r pridd, iechyd a lles anifeiliaid, rheoli cynefinoedd (gwytnwch ecosystemau) a datblygu busnes.

# 3. Llinell amser y prosiect

Mae pandemig Covid 19 wedi effeithio ar amserlenni cyflenwi a'r dulliau ymgysylltu arfaethedig a gynigiwyd i ddechrau fel rhan o'r prosiect hwn. Amlinellir y prif ddyddiadau yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1

| GWEITHGAREDD | DYDDIAD |
|---|---|
| Lansio arolwg ar-lein | 10 Mawrth 2020 |
| Dyddiad olaf i ffermwyr gofrestru ac ymateb i'r arolwg ar-lein | 30 Mehefin 2020 |
| Cynnal cyfarfodydd un i un | Gorffennaf a dechrau Awst 2020 |
| Cynnal sesiynau grŵp (gweithdai) | 21 Medi - 16 Hydref 2020 |

# 4. Methodoleg

**Recriwtio** - Y cam cyntaf fel rhan o'r broses recriwtio oedd gofyn i ffermwyr gwblhau'r arolwg. Datblygwyd cynllun cyfathrebu i sicrhau ymgysylltiad cynrychioliadol o'r sector ac roedd yn cynnwys y dulliau recriwtio canlynol:

- Hysbysebu ac ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol, ar y we a deunydd print
- Adroddiadau yn y wasg a newyddion/cyfryngau
- Rhanddeiliaid a dylanwadwyr o'r diwydiant yn hyrwyddo'r cynllun
- Cysylltu trwy neges destun SMS â chronfa ddata ar-lein RPW
- Cyswllt uniongyrchol gan staff a hwyluswyr Menter a Busnes i annog cyfranogiad.

Ceisiodd y prosiect ymgysylltu â holl ffermwyr a rheolwyr tir Cymru trwy'r cynllun cyfathrebu; ni ddefnyddiwyd cronfeydd data unrhyw gynlluniau presennol. Cafwyd rhywfaint o wrthwynebiad gan rai cynrychiolwyr o'r diwydiant oherwydd amseriad y prosiect a materion ehangach o fewn y sector. Gallai mwy o hyrwyddo a chefnogaeth gan randdeiliaid fod wedi cynyddu ymwybyddiaeth o'r prosiect a chyfranogiad.

Er bod Menter a Busnes hapus ei fod wedi ymgysylltu gyda sampl gynrychioladol o ffermwyr a pherchnogion tir o ran oedran, math o fferm, sector, deiliadaeth y fferm, cyswllt gyda chynlluniau Llywodraeth Cymru ayb, mae'n amhosibl bod yn gwbl sicr bod y farn a nodwyd yn cynrychioli pob ffermwr a pherchennog tir yng Nghymru.

**Dewis** – datblygwyd fframwaith i ddewis sampl o gynrychiolwyr o'r rhai a oedd wedi ymgeisio i fod yn rhan o'r trafodaethau un i un a'r gweithdai grŵp, ac i addasu yn ôl demograffeg ffermio yng Nghymru. Nid oedd yn bosibl haenu'n llawn yn ôl y boblogaeth ffermio yng Nghymru oherwydd lefel cymhlethdod y data.

Defnyddiwyd y dull hwn i sicrhau tegwch ac i sicrhau bod ystod o safbwyntiau'n cael eu clywed. Cytunwyd ar y dull dethol a'r weithdrefn gyda Llywodraeth Cymru.





**Arolwg** – cynhaliwyd yr ymarfer hwn drwy ofyn i ffermwyr gwblhau arolwg ar-lein neu dros y ffôn erbyn 30 Mehefin 2020. Cymerodd cyfanswm o 1,941 o ffermwyr ran yn yr arolwg. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau demograffig i'r cyfranogwyr yn y lle cyntaf er mwyn deall pwy oedd yn ymgysylltu â'r prosiect. Yna gofynnwyd cwestiynau pellach yn ymwneud ag agweddau penodol ar ddyluniad y cynllun, a rhoddwyd cyfle i ddarparu sylwadau mewn blychau testun agored. Trafodwyd yr elfennau canlynol o'r cynllun fel rhan o'r arolwg:

- Allgymorth
- Mynegiant o ddiddordeb
- Adolygiad cynaliadwyedd fferm
- Cynllun cynaliadwyedd fferm

**Trafodaethau un i un** - mynegodd 1,025 o ymatebwyr i'r arolwg (53%) ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn trafodaethau un i un. Cynhaliwyd 270 o gyfarfodydd a thrafodwyd y pynciau canlynol:

**Dadansoddiad o nifer y cyfarfodydd fesul pwnc**

RHEOLI'R PRIDD 68

IECHYD A LLES ANIFEILIAID 67

CYFLEOEDD I DDATBLYGU'R FFERM 68

RHEOLI CYNEFINOEDD (Gwytnwch Ecosystem) 67

Oherwydd pandemig Covid 19 a'r rheoliadau cadw pellter cymdeithasol, cynhaliwyd cyfarfodydd un i un yn bennaf dros y ffôn, a rhai dros gyswllt fideo, ac mewn un achos, trwy ohebiaeth ysgrifenedig. Datblygwyd cwestiynau i ddatblygu dealltwriaeth ac i lywio'r sgyrsiau'n ymwneud â'r pynciau dan sylw. Er mwyn sicrhau cysondeb o ran dull ac ansawdd ymatebion, cyflogwyd cronfa gyfyngedig o hwyluswyr profiadol fel rhan o'r ymarfer hwn.

Cymerodd y trafodaethau hyn un awr i'w cwblhau ar gyfartaledd, ac yn ogystal â chanolbwyntio ar y pwnc dan sylw, rhoddwyd cyfle i ymatebwyr roi adborth ar gyd-destun ehangach dyluniad y cynllun. Roedd y cwestiwn olaf ym mhob trafodaeth yn canolbwyntio ar effaith bosibl y cynllun ar yr iaith Gymraeg.

Mae'r nodiadau briffio ar gyfer cyfranogwyr ar gael yn atodiad 2 a'r cwestiynau yn atodiad 3. Mae'n bwysig nodi mai bwriad y nodiadau hyn oedd cynorthwyo'r drafodaeth, ac mae'n bosibl nad ydynt yn adlewyrchu dyluniad terfynol y cynllun.

**Sesiynau grŵp** -mynegodd 1,119 o ymatebwyr i'r arolwg (58%) ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn gweithdy. Oherwydd Covid 19, cynhaliwyd y rhain ar ffurf trafodaeth grŵp rhithiol, a chynhaliwyd 28 sesiwn gyda chyfanswm o 129 cyfranogwr rhwng 21 Medi a 16 Hydref 2020, wedi'u rhannu fel a ganlyn:

Dadansoddiad o nifer y sesiynau grŵp fesul pwnc

| | |
|---|---|
| RHEOLI'R PRIDD | 7 |
| IECHYD A LLES ANIFEILIAID | 7 |
| CYFLEOEDD I DDATBLYGU'R FFERM | 7 |
| RHEOLI CYNEFINOEDD (Gwytnwch Ecosystem) | 7 |

Cynhaliwyd pob sesiwn grŵp ar-lein gan ddefnyddio'r platfform 'Zoom'. Recordiwyd y cyfarfodydd ac roedd cyfranogwyr yn gallu ymuno a chyfrannu trwy fideo neu sain.

Roedd pob sesiwn yn uchafswm o 90 munud o hyd a hwyluswyd pob thema gan yr un hwylusydd i sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu. Ar gyfer pob thema, cynhaliwyd y sesiynau yn ystod y dydd gydag un sesiwn ychwanegol gyda'r nos. Cynhaliwyd sesiynau naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg gan ddibynnu ar ddewis y cyfranogwyr.

Cytunwyd ymlaen llaw gyda Llywodraeth Cymru ar y cyd-destun a'r cwestiynau a ofynnwyd yn ystod y sesiynau grŵp fel ffordd o gynnal trafodaeth bellach ynglŷn ag agweddau penodol o'r themâu. Derbyniodd y cyfranogwyr nodyn briffio a'r cwestiynau i'w trafod fel rhan o'r sesiynau grŵp ymlaen llaw. Roedd y rhain yn adeiladu ar yr adborth a gafwyd yn ystod y cyfarfodydd un i un, ac fe'u defnyddiwyd gan yr hwyluswyr i lunio'r sgwrs ynglŷn â phob pwnc. Mae'n bwysig nodi bod y rhain yn gymorth ar gyfer llywio'r drafodaeth ac mae'n bosibl na fyddant yn adlewyrchu dyluniad terfynol y cynllun. Mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad 4.

Gosodwyd targedau ar gyfer ymgysylltu yn unol â Thabl 2:

| Tabl 2 | Targed | Cyflawnwyd |
|---|---|---|
| Nifer yr arolygon ar-lein a gwblhawyd | | 1,941 |
| Nifer y sesiynau un i un a gynhaliwyd | 270 | 270 |
| Nifer y gweithdai | 14 | 28 |





# 5. Crynodeb o arsylwadau ac adborth cyffredinol

Cynhaliwyd y gwaith ymgysylltu hwn yn ystod cyfnod clo'r pandemig Covid19, ac er ei fod yn bosibl bod yr hyn a oedd yn digwydd ar y pryd wedi dylanwadu ar farn, gwnaed ymdrech benodol i ehangu pwyntiau trafod ac i annog ystyriaethau o safbwynt tymor hwy.

Ceir teimlad gwirioneddol ymysg ffermwyr y dylai'r cynllun newydd gydnabod y berthynas rhwng amaethyddiaeth gynhyrchiol a chynaliadwyedd yr amgylchedd. Roedd ffermwyr yn teimlo bod yr angen i sicrhau cydbwysedd yn hollbwysig, ac maent yn credu bod cyfle i wneud hynny erbyn hyn. Trafodwyd er y gallai cynhyrchiant gael ei wobrwyo gan rymoedd y farchnad, roedd gallu ffermwyr i sicrhau allbynnau amgylcheddol yn gyd-ddibynnol, gan fod amaethyddiaeth broffidiol yn gallu cynnig mwy o nwyddau cyhoeddus. Roedd y safbwyntiau hyn yn amlwg iawn yn yr ymatebion i'r arolwg a'r trafodaethau un i un fel ei gilydd.

Roedd nifer o'r ymatebion i'r arolwg yn pwysleisio ar bwysigrwydd ffermydd teuluol a system decach nad yw'n gwobrwyo ffermydd mwy o faint sy'n llai cynhyrchiol a pherchnogion tir nad ydynt yn ffermio'n weithredol.
Trwy gydol y prosiect hwn, cafwyd barn gref gan gyfranogwyr y dylai'r cynllun gefnogi ffermwyr y genhedlaeth nesaf, naill ai drwy gefnogi newydd ddyfodiaid neu ddyfodiaid ifanc, neu hwyluso'r broses ymddeol i'r genhedlaeth hŷn. Cyfeiriwyd hefyd at sicrhau nad yw'r cynllun yn rhoi ffermydd teuluol llai o dan anfantais, a chodwyd pryderon hefyd ynglŷn â'r rhai sy'n ffermio tir ymylol yn hyn o beth.

Awgrymwyd y dylid gosod uchafswm ar daliadau, ac y dylai'r cynllun fod yn seiliedig ar ganlyniadau gwaith modelu manwl fel ffordd o ddarparu mwy o sicrwydd a hyder yn yr hyn sy'n cael ei gynnig. Roedd cyfranogwyr a fu'n rhan o'r prosiect hwn hefyd yn awyddus i ddyluniad y cynllun fod yn ymdrech ar y cyd rhwng ffermwyr a Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r prosiect hwn, mae ffermwyr wedi awgrymu sefydlu grŵp ffermwyr i weithio gyda swyddogion y Llywodraeth a darparu mewnbwn ar bob cam allweddol o'r dyluniad i wella cyfranogiad y sector a lleihau'r amheuaeth sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig hyd yma. Nodwyd hefyd fod cyfathrebu ar gynnydd a gweithgaredd gyda'r sector ehangach yn bwysig er mwyn galluogi ffermwyr i gynllunio at y dyfodol gydag elfen o sicrwydd.

Roedd cyfranogwyr yn mynegi bod angen i'r iaith a ddefnyddir fod yn berthnasol ac nid yn ieithwedd polisi. Roedd cynnal tryloywder ym mhopeth a wneir er mwyn i ffermwyr allu deall y rhesymeg hefyd yn farn bwysig os mae'r cynllun am gael ei greu mewn dull partneriaeth. Trwy gydol y broses, mae ffermwyr wedi mynegi diddordeb mewn cynnal sgyrsiau pellach unwaith y bydd gwybodaeth am yr hyn y mae'r cynllun yn ei gynnig ar gael.

Trafodwyd rôl swyddog prosiect neu gynghorydd yn ystod amrywiaeth o gyfleoedd trafod. Ystyriwyd bod cymhwysedd, ymddiriedaeth, niwtraliaeth a'r gallu i gytuno ar y cyd ar gamau gweithredu a chanlyniadau yn nodweddion hanfodol er mwyn i'r rôl hon fod yn effeithiol. Pwysleisiwyd fod darpariaeth ddwyieithog yn bwysig yn hyn o beth hefyd.

Nodwyd fod parhau i gynnig a datblygu mecanweithiau presennol ar gyfer cefnogi ffermwyr yng Nghymru hefyd yn bwysig. Trafodwyd RPW ar-lein, Cyswllt Ffermio a phrosiectau o fewn y diwydiant fel stoc+ HCC a menter Gwaredu BVD Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru fel rhai sydd â nodweddion cadarnhaol i'w datblygu yng nghyd-destun y cynllun newydd.

Bu iechyd meddwl yn rhan o drafodaethau trwy gydol y broses hon, a nodwyd nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at lefel o bryder mewn perthynas â chymorth fferm yn y dyfodol. Nid oedd yn ymddangos bod ffermwyr a gymerodd ran yn y broses gyd-ddylunio hon yn erbyn newid, ond mae'r ansicrwydd presennol ynglŷn ag effaith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig ar fusnesau ffermio unigol yn peri pryder.

Mae ystyriaethau manwl ar gyfer pob thema (rheoli'r pridd, rheoli cynefinoedd [gwytnwch ecosystemau], cyfleoedd i ddatblygu'r fferm ac iechyd a lles anifeiliaid a rheoli da byw) yn cael eu trafod yn Adran B yn yr adroddiad hwn, ac mae pob pennod yn cynnwys trosolwg manwl o'r trafodaethau a gynhaliwyd yn ystod sesiynau un i un a sesiynau grŵp.

# 6. Demograffeg Cyfranogwyr


Cynhaliwyd yr ymarfer hwn trwy ofyn i ffermwyr gwblhau arolwg ar-lein neu dros y ffôn erbyn 30 Mehefin 2020. Cymerodd cyfanswm o 1,941 o ffermwyr ran yn yr arolwg.

Er mwyn helpu i ddeall pwy oedd yn ymgysylltu â'r prosiect, gofynnwyd cyfres o gwestiynau'n ymwneud â demograffeg i ffermwyr wrth iddynt gofrestru.

Rhannwyd oedrannau'r cyfranogwyr fel a ganlyn:

6.1 Oedran Cyfranogwyr yr Arolwg

Ffig 1







CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU


6.2 Math o Fferm y Cyfranogwyr

Ffig 2




6.3 Sector Cyfranogwyr yr Arolwg

Ffig 3




Roedd 66% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn ffermio daliadau cymysg sydd â dwy fenter neu fwy. Roedd yr ymatebwyr a oedd wedi nodi 'arall' (68 ymatebwr) yn disgrifio eu sector fel coedwigaeth/amaeth-goedwigaeth, gosod tir pori, rheoli cadwraeth a chadw ceffylau.

## 6.4 Deiliadaeth, derbynwyr BPS a Glastir, tir comin

Tabl 3

| | Ie (%) | Na (%) | Cyfuniad o dir rhent ac yn berchen ar dir (%) |
|---|---|---|---|
| Ffermwr Tenant | 11% | 55% | 34% |
| Derbynnydd BPS | 94% | 6% | - |
| Derbynnydd Glastir | 39% | 61% | - |
| Hawliau i bori ar dir comin | 23% | 77% | - |

# 7. Adran A

## 7.1 Allgymorth

Cynigiwyd o fewn adroddiad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir y byddai modd cynnal rhaglen Allgymorth cyn i'r ymgeisydd ddechrau ar y broses o ddatgan diddordeb. Byddai'r rhaglen allgymorth yn canolbwyntio ar ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i ddenu diddordeb yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac i annog ffermwyr i fod eisiau ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru a chynlluniau eraill.

Y nod ar gyfer archwilio'r pwnc hwn yn y prosiect felly oedd ystyried agweddau penodol ar allgymorth, a sut y gellid ei wneud mewn ffordd ystyrlon gyda ffermwyr i annog cyfranogiad.

Archwiliwyd y pwnc trwy gwestiynau penodol yn yr arolwg, a rhoddwyd cyfle hefyd i ddarparu sylwadau pellach mewn blychau testun rhydd, a thrwy'r sesiynau un i un.

Yn ystod y trafodaethau gyda ffermwyr fel rhan o'r broses gyd-ddylunio, cafwyd thema gyffredin yn nodi'r awydd i weithio fel partneriaeth. Er y cydnabyddir na fydd pob cynllun yn addas i bob ffermwr, mae "annog ffermwyr i fod eisiau ymgysylltu" yn adlewyrchu rhywfaint o adborth o brofiadau negyddol gyda Llywodraeth Cymru mewn cynlluniau presennol.

*Enw'r Cynllun*

Gwnaed sylwadau cadarnhaol am enw'r cynllun, ac mae cynnwys 'ffermio' yn nodwedd bwysig. Derbyniwyd nifer fach o awgrymiadau yn awgrymu teitl sy'n canolbwyntio mwy ar reoli a chadwraeth tir. Y prif adborth ynglŷn â dewis enw gwahanol oedd pwysleisio mwy ar y dyfodol, a chafodd "Ffermio ar gyfer y dyfodol" ei awgrymu fwy nag unwaith.

Mae enw'r cynllun eisoes wedi dod yn gyfarwydd yn y sector. Pe bai Llywodraeth Cymru yn penderfynu newid yr enw, byddai'n ddoeth gwerthuso'r agweddau tuag at yr enw presennol a'r angen i adolygu ar hyn o bryd.

*Sut mae ffermwyr yn teimlo ynglŷn â gweithredu mewn ffordd newydd, a sut all Llywodraeth Cymru gefnogi hyn?*

Y farn gyffredinol oedd nad yw ffermwyr yn erbyn y cysyniad o weithredu mewn ffordd newydd, ond rhannwyd profiadau negyddol o gynlluniau'r gorffennol, yn enwedig Glastir.

Dywedwyd mai syniad yw'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ei ffurf bresennol, ac nad y hynny'n galluogi ffermwyr i gynllunio'n hyderus ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hir. Soniwyd y gallai darparu tryloywder ar bob agwedd, gan gynnwys canlyniadau'r modelu sy'n berthnasol i fathau o ffermydd a sectorau, gynnig ffordd o leddfu gorbryder a phryderon presennol.






Gwnaed sylwadau hefyd ar gynlluniau presennol (a blaenorol) yn ffafrio daliadau mwy (taliadau'n seiliedig ar arwynebedd), daliadau gyda thir mynydd (Glastir) a mentrau llaeth (FBG/SPG). Ceir pryder cyffredinol bod angen tegwch o fewn y cynllun newydd sy'n gwobrwyo ymdrechion ffermydd teuluol, yn enwedig ar dir ymylol. Soniwyd eto am bwysigrwydd modelu mewn perthynas â'r mater hwn yn ogystal ag ystyried gosod uchafswm ar y taliadau.

Cafwyd barn hefyd mai dim ond 'ffermwyr gweithredol' a ddylai dderbyn cefnogaeth - mae ffermwyr yn gweld y cynllun newydd fel ffordd o fynd i'r afael â'r mater hwn. Dywedodd rhai y dylid adolygu'r diffiniad presennol o 'ffermwr gweithredol' a rhoddwyd enghreifftiau o ffermwyr a oedd wedi cael eu diffinio'n ffermwyr gweithredol ond nad oeddent yn "ffermio'r tir".

*Dewisiadau ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau allgymorth*

Ffig 4




Fel y gwelir yn Ffigwr 4, roedd yn well gan ymatebwyr gyfathrebu gweledol trwy amrywiaeth o ddulliau ar-lein/wyneb i wyneb, ar ffurf grŵp ac un i un.

Gofynnodd rhai ymatebwyr hefyd a fyddai modd darparu gwybodaeth dros e-bost a chopi caled er mwyn cael pwynt cyfeirio ar gyfer gofynion a rheolau'r cynllun. Nodwyd mewn trafodaeth yn ystod sesiynau un i un y byddai ceisio egluro'r newid o'r presgripsiynau a'r rheolau presennol y mae ffermwyr yn gyfarwydd â nhw tuag at y system o daliadau'n seiliedig ar ganlyniadau a gynigir o fewn y cynllun, yn her benodol.

*A ddylid trafod gwahanol sefyllfaoedd tenantiaeth mewn astudiaethau achos o reolaeth amgylcheddol/newid mewn busnes?*


O'r drafodaeth un i un gyda ffermwyr, cafwyd teimlad nad yw tir wedi'i gynnwys mewn cynlluniau blaenorol mewn rhai achosion oherwydd nad yw tymor y denantiaeth yn ddigon hir neu oherwydd ystyriaethau mwy cymhleth o ran y ffermwr gweithredol.

Byddai ystyried gwahanol sefyllfaoedd o ran tenantiaeth a thrafod unrhyw rwystrau canfyddedig neu gyffredin rhag cynnwys tir rhent fel rhan o astudiaeth achos yn ddefnyddiol. Fel y soniwyd eisoes, dylid hefyd rhoi ystyriaeth i'r diffiniad o 'ffermwr gweithredol' a phwy ddylai gael eu gwobrwyo gan y cynllun, gyda chanllawiau penodol ar gyfer sefyllfaoedd penodol rhwng y landlord a'r tenant, a threfniadau ffermio amgen (ffermio cyfran, ffermio ar gontract ayb).

*Beth yw barn ffermwyr ynglŷn â'r derminoleg?*

Ceisiodd yr arolwg ganfod barn ynglŷn â'r derminoleg.

Ffig 5




Cafwyd ymatebion cymysg yn y term 'allgymorth', er bod chwarter y ffermwyr o'r farn ei fod yn addas, nododd bron i ddwy ran o dair y byddent yn 'ymgyfarwyddo ag ef'. Yn yr ymatebion i'r arolwg, cafwyd barn bendant nad oedd geirfa o'r fath yn helpu i egluro unrhyw gyd-destun ac nad yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredinol gan ffermwyr. Cafwyd barn hefyd bod y term allgymorth yn gysylltiedig â thlodi (allgymorth cymunedol) a thelathrebu. Mae'r gair Cymraeg "Allgymorth" hefyd yn awgrymu rhywbeth negyddol, gan ei fod yn debyg i'r gair "Alltud".

Awgrymwyd geiriau sy'n cynrychioli rhannu gwybodaeth, y camau cyntaf wrth sefydlu partneriaeth, darparu arweiniad, cefnogi'r sector ac ymgysylltu fel dewisiadau eraill. Ystyriwyd bod y term allgymorth yn fan cychwyn negyddol i gychwyn partneriaeth rhwng y Llywodraeth a ffermwyr Cymru wrth ddarparu gwybodaeth ac eglurder yng nghyfnod recriwtio'r cynllun.

*A ddylid annog mwy nag un partner busnes / aelod o'r teulu i fynychu'r sesiynau allgymorth - h.y. cenedlaethau iau a hŷn - i annog cynllunio tymor hwy/olyniaeth?*

Gofynnwyd y cwestiwn hwn yn uniongyrchol fel rhan o'r arolwg "Lle mae sawl partner busnes a/neu aelod o'r teulu yn rhan o'r busnes fferm, a ddylem annog mwy nag un person i gymryd rhan?".

Cytunodd mwyafrif (86%) y rhai a holwyd y dylid annog cyfranogiad mwy nag un person.





Ni ellid nodweddu'r 14% a ymatebodd 'Na' i'r cwestiwn hwn o ran grŵp oedran, math o fferm neu sector neu os ydynt yn derbyn taliadau BPS ar hyn o bryd. Gallai'r ymateb fod wedi cael ei ddylanwadu gan ffactorau teuluol allanol a/neu achosion lle mae olyniaeth wedi digwydd gyda chenedlaethau hŷn yn camu'n ôl neu'n cymryd llai o rôl weithredol neu wneud penderfyniadau, ond yn dal i fod yn rhan o'r busnes ffermio.

Byddai annog mwy nag un person i gymryd rhan yn rhywbeth i'w groesawu; ond dylid cydnabod efallai na fyddai'n rhesymol nac yn berthnasol i bob busnes fferm.

Roedd sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd hefyd yn amlygu'r angen i sicrhau bod dyluniad y cynllun yn annog ac yn gwneud darpariaeth i hwyluso mynediad y genhedlaeth nesaf o ffermwyr. Mae'r camau a awgrymir yn cynnwys gwell cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc yn ogystal â chefnogaeth i'r genhedlaeth hŷn i gamu'n nes at ymddeoliad rhannol neu lawn.

*Sut fyddai pobl yn teimlo pe bai presenoldeb yn orfodol?*

Mae trefniadau cynlluniau presennol wedi ei gwneud yn orfodol i bobl fynychu cyfarfod neu ddigwyddiad ffisegol. Mae Covid 19 wedi galluogi'r dasg o dreialu gwahanol ddulliau o ymgysylltu a gwahanol amseroedd, ac mae rhai ffermwyr wedi gwneud sylwadau ynglŷn ag effeithiolrwydd digwyddiadau ar y we. Mynegwyd hefyd fod ystyriaethau ynghylch iechyd meddwl, lles ac anabledd o ran presenoldeb corfforol mewn digwyddiad. Anogwyd cynnwys digwyddiadau gweminar fel rhan o'r gweithgaredd ymgysylltu.

Bu'r ffermwyr yn trafod yn ystod cyfarfodydd un i un y byddant yn mynychu digwyddiadau os oes cymhelliant ariannol i wneud hynny - naill ai cyllid ychwanegol neu welliannau o ran effeithlonrwydd. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r elfen orfodol o fynychu'r digwyddiadau hyn yn annog neu'n rhwystro ffermwyr sy'n anoddach eu cyrraedd, neu'r rhai sy'n dueddol o ymgysylltu llai gyda mentrau sy'n cael eu harwain gan Lywodraeth Cymru.

## 7.2 Mynegiant o Ddiddordeb (EoI)

Cyn yr Adolygiad Fferm, byddai ffermwyr yn cyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb (EoI). Byddai disgwyl i ffermwyr ddarparu gwybodaeth megis:

- cynllun busnes a nodau,
- maint a math y fferm,
- manylion y busnes fferm,
- trefniadau tenantiaeth,
- staffio ac adnoddau,
- sgiliau ar y fferm
- risgiau a chyfleoedd amgylcheddol.

Nod y mynegiant o ddiddordeb yw annog ffermwyr i ddechrau ystyried sut mae materion cynaliadwyedd yn berthnasol iddyn nhw a'u busnesau fferm.


Archwiliwyd agweddau ar fynegiant o ddiddordeb fel rhan o'r arolwg i ddeall sut y byddai ffermwyr yn teimlo am ymgymryd â'r broses hon eu hunain.

Trafodwyd bod terminoleg, cymhlethdod a biwrocratiaeth yn ffactorau cyffredin sy'n gwneud i ffermwyr fod angen cefnogaeth trydydd parti i gwblhau dogfennaeth bresennol, yn ogystal â'r pryder ynglŷn â gwneud camgymeriad.

*Sut mae unigolion yn teimlo ynglŷn â gallu cwblhau'r mynegiant o ddiddordeb ar eu pen eu hunain?*

Gofynnwyd i gyfranogwyr yr arolwg am eu barn ynglŷn â chwblhau'r mynegiant o ddiddordeb ar eu pen eu hunain.

Ffig 6




Nododd 59% o'r ffermwyr yn yr arolwg eu bod yn credu ei bod yn bwysig eu bod yn gallu cwblhau'r mynegiant o ddiddordeb ar-lein ar eu pen eu hunain gyda 38% arall yn credu ei fod yn bwysig, ond y byddai angen cefnogaeth arnynt cyn ei gyflwyno. Nid oedd y gweddill, 3%, yn credu ei fod yn bwysig cwblhau'r mynegiant o ddiddordeb ar eu pen eu hunain.



CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

Byddai hyn yn awgrymu bod ffermwyr yn barod i gwblhau'r mynegiant o ddiddordeb ar eu pen eu hunain, ac y byddai cyflwyno ar-lein yn addas ar gyfer mwyafrif y cyfranogwyr.


Bydd rhagor o fanylion ynglŷn â'r wybodaeth ofynnol yn ystod y cyfnod mynegiant o ddiddordeb yn pennu faint o gefnogaeth fyddai ei angen ar ffermwyr cyn cyflwyno'r cais.

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn awgrymu y byddai cynnig cefnogaeth gymharol yn ystod y cam Mynegi Diddordeb hefyd yn helpu i reoli disgwyliadau ffermwyr am y cynllun, ac y gallai helpu i annog perthynas bositif rhwng y Llywodraeth a'r ffermwyr yn ystod cyfnod o newid ac addasu.

*Sut mae ffermwyr yn teimlo ynglŷn â darparu gwahanol fathau o wybodaeth ar gyfer y mynegiant o ddiddordeb?*

Gofynnwyd i gyfranogwyr yr arolwg "Pa wybodaeth fyddech chi'n barod i'w rhannu â Llywodraeth Cymru?" a gofynnwyd iddynt ddewis un neu fwy o restr.

Ffig 7




Byddai dros hanner yr ymatebwyr yn barod i rannu cynllun busnes, manylion staffio ac adnoddau, sgiliau ar y fferm a data amgylcheddol. Er y byddai traean yn rhannu gwybodaeth ariannol, cafwyd sylwadau ynghylch manylion y wybodaeth ariannol sy'n ofynnol a'r pwrpas.

Mae gwybodaeth arall y byddai ffermwyr yn barod i'w rhannu yn cynnwys data amgylcheddol ac iechyd anifeiliaid. Nododd nifer o ymatebwyr fod angen eglurder arnynt ynghylch y manylion sy'n ofynnol, y pwrpas a'r wobr ariannol er mwyn gallu penderfynu ar eu hymateb.

Ni fyddai un o bob deg yn barod i rannu unrhyw ran o'r wybodaeth a restrwyd gyda Llywodraeth Cymru.

Er ei bod yn ymddangos bod parodrwydd i rannu data gyda Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid amlinellu'r union ofynion, pwrpas a chymhelliant ariannol ar gyfer gwneud hynny er mwyn i ffermwyr wneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar eu hamgylchiadau unigol.

Mynegwyd pryder yn ystod trafodaethau un i un o ran beth fyddai'n digwydd i'r wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw am fusnesau ffermio yng Nghymru ar hyn o bryd ac effeithiolrwydd casglu data er mwyn lleihau biwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â'r cynllun.

Mae'r pryderon hyn yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru fod yn glir ynghylch amcan a phwrpas casglu data a sut mae'n cyd-fynd â'r data a gedwir ar hyn o bryd.


*A oes rhwystrau i gymryd rhan yn y broses o Fynegi Diddordeb (EoI)?*

Nid oedd yr adborth cyffredinol a gafwyd fel rhan o'r arolwg ac yn ystod y trafodaethau un i un yn awgrymu bod rhwystrau penodol rhag ymgysylltu gyda'r broses EoI. Cafwyd sylwadau dro ar ôl tro yn ymwneud â'r angen i ddarparu gwybodaeth fwy manwl am y cynllun ac eglurdeb o ran pwrpas a defnydd y data a ddarperir yn ystod y cyfnod EoI i gyfateb â thaliadau posibl.

*Beth yw barn ffermwyr ynglŷn â'r derminoleg?*

Gofynnwyd yn ystod yr arolwg am farn ynglŷn â'r derminoleg a gynigiwyd ar gyfer y cynllun.

Ffig 8




Gofynnodd yr arolwg i ffermwyr am eu barn ynglŷn â'r term 'Mynegiant o Ddiddordeb', ac er bod 97% o'r farn ei fod yn addas neu'n derm y byddent yn ymgyfarwyddo ag ef, nid oedd 3% yn credu ei fod yn addas.
Gofynnwyd cwestiwn atodol i'r rhai nad oeddent yn credu bod y term yn addas i awgrymu gair gwahanol. Er bod rhai wedi awgrymu termau gwahanol megis 'cais', 'adolygiad', 'casglu data' ac 'ymarfer canfod ffeithiau', manteisiodd rhai ar y cyfle i ymhelaethu ynglŷn â pham nad yw'n derm addas.

Gwnaed sylwadau ychwanegol mewn perthynas â defnydd blaenorol y term, mae'r rhain yn cynnwys:
- Mae diddordeb yn gamarweiniol pan mae'n hanfodol
- Os mae'n rhaid i ffermydd gofrestru i ennill cefnogaeth ariannol ar ôl i'r Cynllun Taliad Sylfaenol ddod i ben, mae'n rhaid i'r teitl fod yn fwy cadarn na 'diddordeb'





- Mae mynegiant o ddiddordeb yn awgrymu tebygolrwydd isel o gael eich derbyn i'r lefel nesaf
- Dylid cynnig cyfle i bawb
- Yn awgrymu mecanwaith sgorio pwyntiau
- Yn gysylltiedig â llenwi gormodedd o ffurflenni, a bod angen ymgynghorydd
- Mae'r broses a amlinellir yn rhy feichus o ran gweinyddiaeth ac yn gostus
- Bydd LIC yn creu hunllef fiwrocrataidd
- Atgofion gwael o ganlyniad i Glastir

Y safbwyntiau negyddol sy'n gysylltiedig ag EoI fyddai bod awgrym yn seiliedig ar brofiad blaenorol nad yw'r cynllun yn hygyrch i bob fferm a'i fod yn ddechrau ar broses sy'n weinyddol drwm.

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr arolwg yn awgrymu bod ffermwyr yn fwy cyfarwydd â'r term 'cais'; mae'r system Cynllun Taliadau Gwledig (BPS) presennol yn defnyddio'r term lle gwneir cais am ganlyniad diriaethol. Ar yr amod bod y cynllun yn hygyrch i holl ffermwyr Cymru, awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyfeirio at y cam hwn fel cam ymgeisio'r broses.

## 7.3 Adolygiad Cynaliadwyedd Fferm


Ar ôl cyflwyno'r Mynegiant o Ddiddordeb, cynigir y bydd ffermwyr naill ai'n dewis cynghorydd, neu bydd cynghorydd yn cael ei ddewis ar eu rhan, a byddant yn cynnal yr Adolygiad gyda'i gilydd.

Gofynnwyd barn ffermwyr ar y broses Adolygu trwy'r arolwg a'r sesiynau un i un.

*A yw ffermwyr eisiau gallu dewis y cynghorydd ar gyfer yr Adolygiad?*

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr fel rhan o'r arolwg ar-lein "A ddylech chi gael caniatâd i ddewis eich swyddog o restr gymeradwy?"

Ffig 9



Hoffai 65% allu dewis eu cynghorydd/swyddog gyda dim ond 3% o'r farn na ddylai fod yn bosibl dewis oddi ar restr gymeradwy, ac nid oedd ots gan y gweddill.
Cafwyd nifer o sylwadau gan ymatebwyr ynglŷn â phwysigrwydd sicrhau bod gan gynghorwyr ddealltwriaeth a phrofiad cadarn o'r sector amaeth a'u bod yn ddigon cymwys i gynghori.

*A oes rhwystrau rhag ymgysylltu â'r broses Adolygu?*

Roedd sylwadau cyffredinol gan ffermwyr am y cynllun yn pwysleisio'r angen i allu dangos ac egluro'r rhesymeg ar gyfer arfer gorau. Cafwyd sylwadau hefyd gan ffermwyr ynglŷn â phwysigrwydd sicrhau bod gan y cynghorwyr ddealltwriaeth o systemau ffermio a'u bod wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn i'r cynlluniau fod yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng amaethyddiaeth gynhyrchiol a nodau cynaliadwyedd y cynllun.

Trafodwyd darparu rhestr glir o gamau gorfodol/dewisol gyda rhesymeg lawn o fuddion i ffermwyr cyn ymweliad cynghorydd fel ffordd o helpu ffermwyr i ystyried beth sy'n gweddu orau i'w systemau ffermio ac unrhyw effeithiau posibl ar gynhyrchiant a phroffidioldeb. Mynegwyd hefyd y bydd gwneud penderfyniadau ar y cyd rhwng y ffermwr a'r cynghorydd yn debygol o arwain at fuddion tymor hwy a pherchnogaeth ar gamau gweithredu yn hytrach na bod yr ymgynghorydd yn ffurfio cynllun i'r ffermwr gytuno arno fel ffordd o gael gafael ar gyllid y cynllun.

Os mae'r term 'cynghorydd' am gael ei ddefnyddio, dylai safon, gwybodaeth a chymwysterau'r sawl sy'n cynnal yr adolygiad adlewyrchu ei gymhwysedd a'i allu i gynghori ffermwyr. Gan ddibynnu ar lefel y manylder a chymhlethdod y drafodaeth yn ystod y cam adolygu, gallai Swyddog y Cynllun fod yn deitl mwy priodol. Roedd hyn yn wir gyda chynllun Tir Gofal a chyfeiriwyd ato gan rai cyfranogwyr. Cyfeiriodd rhai hefyd at y cynghorydd fel ymgynghorydd ac roeddent yn cysylltu'r rôl â chost uchel.

*A ddylai'r drafodaeth adolygu gynnwys sawl aelod o'r bartneriaeth deuluol - i ddal profiad y genhedlaeth hŷn, yn ogystal â syniadau newydd y genhedlaeth iau?*

Yn yr un modd â'r ymateb i'r cwestiwn yn ymwneud ag annog mwy nag un partner gymryd rhan mewn digwyddiadau allgymorth, roedd rhai o'r farn y dylid annog hyn. Byddai angen i Lywodraeth Cymru fod yn ystyriol o ddeinameg y bartneriaeth mewn rhai achosion a phwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau busnes.

Amlygodd sylwadau cyffredinol yr angen i gefnogi ac annog y genhedlaeth nesaf o ffermwyr. Awgrymwyd y byddai cymhelliant i bartneriaethau neu drefniadau masnachu sy'n cynnwys un genhedlaeth neu fwy yn ffordd dda o hwyluso trafodaethau o'r fath.





*Beth yw'r agweddau a'r canfyddiadau presennol tuag at asesiadau cynaliadwyedd o fewn y sector amaeth yng Nghymru, a sut y dylid ystyried y rhain wrth ddatblygu'r Adolygiad a'r Cynllun?*

Cyfeiriwyd at symleiddio a llai o fiwrocratiaeth mewn ymateb i amrywiaeth o gwestiynau fel rhan o'r arolwg a gynhaliwyd yn y prosiect hwn. Nid yw'n ymddangos bod canfyddiadau negyddol ymysg y rhai sydd eisoes yn cwblhau asesiadau o'r fath gan eu bod yn aml yn rhan o berthynas fasnachol gyda manwerthwr/prosesydd, ac mae cymhelliant amlwg ar gyfer eu cwblhau.

Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn mynegi barn y dylid mabwysiadu'r un egwyddor o fewn y cynllun wrth ddarparu eglurdeb ynglŷn â pham bod angen i ffermwyr gwblhau asesiadau cynaliadwyedd a beth yw'r fantais ariannol o wneud hynny.

Gan fod hwn yn ddull newydd, roedd sylwadau cyffredinol yn nodi'r angen i adolygu a dysgu o gynlluniau blaenorol a symleiddio'r prosesau lle bo hynny'n bosibl gan fod hynny'n debygol o arwain at well cyfranogiad. Mae caniatáu hyblygrwydd o fewn yr adolygiad a'r cynllun ar gyfer newidiadau i amgylchiadau'r fferm a'r systemau hefyd yn ffactorau pwysig i'w hystyried.

*A yw ffermwyr eisoes yn cwblhau asesiadau?*

Dim ond 4% o'r ffermwyr a arolygwyd a nododd nad oeddent yn cwblhau unrhyw adnoddau, ymarferion sicrwydd neu asesiadau. Nid oedd yr ymateb hwn yn fwy amlwg o fewn unrhyw fath o fferm neu sector penodol, fodd bynnag, roedd 60% o'r rhai a oedd yn nodi nad oeddent yn cwblhau unrhyw adnoddau, ymarferion sicrwydd nac asesiadau yn nodi nad oeddent yn derbyn y Cynllun Taliad Sylfaenol.

*Faint o asesiadau mae ffermwyr yn eu cwblhau?*

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr "Pa adnoddau, cynlluniau sicrwydd neu asesiadau ydych chi eisoes yn eu cwblhau?" yn seiliedig ar restr benodol, gan grwpio asesiadau yn ôl math.

| Math o asesiad | Nifer y cyfranogwyr sy'n cwblhau | Canran y cyfranogwyr sy'n cwblhau |
|---|---|---|
| Cynllun Sicrwydd Fferm | 1,286 | 66% |
| Adnodd Cyfrifo Ôl-troed Carbon | 175 | 9% |
| Adnodd meincnodi | 469 | 24% |
| Rheoliadau neu Gynlluniau'r Llywodraeth | 1,665 | 86% |
| Gofynion cytundebol gan fanwerthwyr neu broseswyr | 431 | 22% |

Mae 40% o'r ffermwyr a ymatebodd eisoes yn cwblhau 2 fath o asesiad neu fwy.

*Y math o asesiadau y mae ffermwyr yn eu cwblhau*

Gofynnwyd hefyd i ffermwyr nodi rhagor o fanylion am yr hyn a wneir ar hyn o bryd.

Cynlluniau Sicrwydd Fferm:

- Cynlluniau Sicrwydd Fferm da byw, llaeth a chnydau.
- Ardystiad Organig a Chymdeithas y Pridd.
- Codau RSPCA Freedom Food a Lion Eggs.
- Cymryd rhan mewn cynlluniau iechyd diadell a buches (Johne's, Maedi Visna ac ati).

Adnodd Cyfrifo Ôl-troed Carbon:

Nodwyd bod rhaglenni ôl troed Carbon Ag Re Calc ac Alltech yn cael eu defnyddio, ond roedd yn ymddangos bod y mwyafrif o ffermwyr yn yr arolwg a oedd yn mesur ôl troed carbon yn cael eu harwain a'u gwobrwyo gan fanwerthwyr.

Adnodd meincnodi:

- Farming Connect Measure to Manage and discussion group participation
- Aberystwyth University Farm Business Survey
- Cost of Production models

Rheoliadau a Chynlluniau'r Llywodraeth:

- Cynllun Taliad Sylfaenol a gofynion cysylltiedig
- Glastir a chynlluniau eraill gan gynnwys ffermio organig
- Cydymffurfiaeth NVZ
- BCMS / EID Cymru
- Cynlluniau RDP eraill a ddarperir gan Lywodraeth Cymru

Gofynion cytundebol gan fanwerthwyr neu broseswyr:


- Sicrwydd fferm/lles a defnydd o wrthfiotigau
- Gwybodaeth am gostau cynhyrchu
- Cynllunio rheoli maetholion a thail
- Cofnodi llaeth a monitro hylendid





*Sut mae ffermwyr yn teimlo ynglŷn â rhannu data rhwng Llywodraeth Cymru a chynlluniau sicrwydd neu drydydd parti arall?*

Ffig 10




Dywedodd 83% o'r cyfranogwyr y byddent yn barod i rannu data.


Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd "na" i nodi eu rheswm pam. Gellir rhannu'r ymatebion yn bedair thema:

- Byddai angen rhagor o fanylion ynglŷn â'r wybodaeth a geisir gan Lywodraeth Cymru a'i defnydd. Gofynnwyd cwestiynau hefyd am berthnasedd y data sydd eisoes yn cael ei gadw gan Lywodraeth Cymru.
- Sensitifrwydd masnachol; rhannu gwybodaeth ariannol a chynlluniau busnes heb bwrpas clir.
- Rhwymedigaeth gytundebol i beidio â rhannu gwybodaeth benodol trwy gytundebau peidio â datgelu gyda phrosesydd/manwerthwyr.
- Roedd canfyddiad hefyd y bydd hyn yn arwain at fwy o waith papur i ffermwyr a baich gweinyddol diangen i Lywodraeth Cymru er mwyn darparu'r cynllun.

Pe bai rhannu data yn hwyluso gweinyddiaeth y cynllun ar gyfer Llywodraeth Cymru a ffermwyr fel ei gilydd, byddai hynny'n cael ei groesawu. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r rhesymau uchod, mae angen mwy o eglurdeb o ran y data gofynnol a phwrpas casglu'r data; a dylid rhoi ystyriaeth fanwl i'r gofynion o safbwynt gwybodaeth fasnachol sensitif a chytundebol.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr "ar raddfa 1 - 6, i ba raddau y mae'r wybodaeth o'r asesiadau uchod yn dylanwadu ar eich penderfyniadau ffermio? (1 = defnyddir yr holl wybodaeth a roddaf trwy asesiadau i lywio fy mhenderfyniadau ffermio. 6 = ni ddefnyddir unrhyw ran o'r wybodaeth a roddaf trwy asesiadau i lywio fy mhenderfyniadau ffermio)"

Ffig 11




Nid oes patrwm clir o ran y graddau y mae asesiadau o'r fath yn dylanwadu ar benderfyniadau ffermio. Mae hyn yn cyd-fynd â'r safbwyntiau'n ymwneud â phwrpas ac amcanion cynnal adolygiad cynaliadwyedd fferm a drafodwyd eisoes.

Roedd cyfranogwyr o'r farn bod yn rhaid cyfathrebu pwrpas yr adolygiad yn glir. Dylai nodi cyfleoedd a fydd yn cael eu gwobrwyo drwy gymryd rhan yn y cynllun fod yn un o'r amcanion allweddol a fydd yna'n arwain at benderfyniadau busnes yn seiliedig ar amgylchiadau a dymuniad pob fferm yn unigol.



CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

## 7.4 Cynllun Cynaliadwyedd Fferm


Ar ôl cwblhau'r Adolygiad, byddai'r ymgeisydd a'r ymgynghorydd yn cytuno ar set o gamau gweithredu. Byddai'r camau hyn yn ffurfio cynnwys y Contract i'w lofnodi gan yr ymgeisydd a Llywodraeth Cymru. Byddai'r Cynllun/Contract hefyd yn cynnwys manylion am sut y bydd pob gweithred yn cael ei fonitro ar gyfer cydymffurfiaeth/llwyddiant trwy gydol tymor y contract .

Casglwyd barn ffermwyr ar y Cynllun Cynaliadwyedd Fferm trwy'r arolwg.

*Beth yw'r safbwyntiau ar y posibilrwydd o hunanasesu fel rhan o'r Cynllun?*

Roedd yr arolwg yn gofyn am farn ynglŷn ag addasrwydd hunanasesu.

Ffig 12




Mae'n ymddangos bod parodrwydd i hunanasesu o fewn y cynllun. Awgrymwyd hefyd y byddai hyn yn cael ei groesawu pe byddai'n lleihau unrhyw faich gweinyddol cysylltiedig ac yn defnyddio technoleg sydd wedi'i datblygu'n briodol i gynorthwyo gyda'r gwaith monitro.

*Beth yw'r farn ar gyflwyno data ar-lein neu drwy ap?*

Gofynnwyd cwestiwn yn yr arolwg i gasglu barn ynghylch cyflwyno data yn electronig. Mae Tabl 4 yn dangos dadansoddiad o'r ymatebion.

Tabl 4

**"Gallai fformat yr hunanasesiad fod trwy ffurflen ar-lein neu ap ffôn clyfar. Sut ydych chi'n teimlo am gyflwyno eich data yn y dull hwn? (ticiwch fwy nag un opsiwn os yw'n berthnasol)"**

| Opsiwn a ddewiswyd | Nifer a ddewisodd yr opsiwn hwn | Canran a ddewisodd yr opsiwn |
|---|---|---|
| Rwy'n credu bod hwn yn syniad da a byddwn yn teimlo'n hyderus wrth gyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol | 760 | 39% |
| Rwy'n credu bod hwn yn syniad da ond byddai angen hyfforddiant arnaf cyn y gallwn ddefnyddio'r system | 753 | 39% |
| Rwy'n credu bod hwn yn syniad da ond nid yw fy nghyswllt band eang yn ddigon da | 263 | 14% |
| Ni fyddwn yn gallu defnyddio'r system hon | 224 | 12% |
| Dylai fod mwy nag un opsiwn o adrodd ar ddata | 293 | 15% |

Yn yr arolwg, gofynnwyd i ymatebwyr nodi eu barn ynghylch eu hagweddau tuag at raglenni ar y we neu ar ffonau symudol fel dull o hunanasesu, ac roedd modd iddynt ddewis un neu fwy o'r datganiadau uchod.

Yn gyffredinol, byddai'r dull hwn o fonitro'n cael ei groesawu ar yr amod bod hyfforddiant addas ar gael i ddefnyddio'r system. Er y derbyniwyd sylwadau'n ymwneud ag anawsterau yn ôl cenhedlaeth o ddefnyddio system o'r fath, nid oedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr amrywiaeth o ymatebion yn ôl grŵp oedran.

Byddai materion yn ymwneud â diffyg cysylltedd a band eang dibynadwy yn rhwystro'r cynllun rhag defnyddio system fonitro ar y we neu ap ffôn symudol yn unig. Roedd opsiynau eraill a awgrymwyd i ategu at system ar y we neu ap ffôn symudol yn cynnwys templed monitro ar bapur, yn ogystal ag archwiliadau fferm wyneb i wyneb. Awgrymwyd y byddai sefydlu rhwydwaith i arwain a darparu gwybodaeth ar y broses gydag agwedd sensitif tuag at gywiro camgymeriadau, ynghyd â datblygu llwyfannau RPW ar-lein yn ddull rhesymegol.





*Sut y dylid cyfleu'r berthynas rhwng taliadau a chyflawni canlyniadau?*

Trafodwyd mai diffinio gweithredoedd a chynigion fyddai'r cam cyntaf wrth nodi'r hyn y mae disgwyl i ffermwyr ei gyflawni o fewn y cynllun. Fel y trafodwyd yn flaenorol, roedd ymatebwyr o'r farn y gallai cyfathrebu gweledol o arfer da a hunanasesu weithio ar yr amod bod proses deg i ystyried ffactorau y tu hwnt i reolaeth a hyblygrwydd y ffermwyr (cyfeiriwyd at ddyddiadau caeedig fel rhwystr o fewn cynlluniau cyfredol) i gyflawni'r canlyniad a ddymunir.

Nododd ffermwyr hefyd y byddai angen cadarnhau cyfraddau talu a chyfathrebu goddefiannau ar gyfer gostyngiadau mewn taliadau er mwyn ystyried addasrwydd y cynllun ar gyfer busnesau fferm unigol.

# 8. Adran B

Mae'r adran hon yn archwilio safbwyntiau a nodwyd yn ystod y sesiynau un i un a'r sesiynau grŵp ar y themâu canlynol:

- Rheoli Pridd
- Rheoli Cynefinoedd (Gwytnwch Ecosystem)
- Cyfleoedd i Ddatblygu'r Fferm
- Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Ystyriaethau'r Iaith Gymraeg

## 8.1 Rheoli Pridd

Bu'r rhan yma o'r prosiect yn ceisio barn 68 o ffermwyr ar sail un i un ynglŷn â rheoli pridd a maetholion. Bu'n archwilio'r canlynol:

- dulliau presennol o reoli priddoedd a'r camau gweithredu a gyflwynwyd gan ffermwyr i wella dulliau rheoli;
- eu barn am gynlluniau presennol a chynlluniau'r gorffennol yng nghyd-destun rheoli pridd/maetholion; a
- barn ynglŷn â sut y gall cynllun at y dyfodol annog mwy o ffermwyr i sicrhau bod priddoedd yn rhan ganolog o'u proses o wneud penderfyniadau.

Edrychwyd yn fanylach ar agweddau penodol ar reoli pridd a maetholion yn ystod saith trafodaeth rithwir mewn grwpiau. Cynhaliwyd y sesiynau hyn ar ôl y trafodaethau un i un.

Trosolwg cyffredinol o'r trafodaethau un i un a'r trafodaethau grŵp

1. **Yn gyffredinol, mae ffermwyr yn rhoi llawer iawn o ystyriaeth i briddoedd** ac yn ystyried nifer o ffactorau cyn newid rheolaeth eu priddoedd, gan gynnwys canlyniadau profion/dadansoddiad o'r pridd, cyflwr gweledol, arwyddion o iechyd/ffrwythlondeb y pridd (e.e. cynnyrch y cnwd/glaswellt), amodau hinsoddol, a budd economaidd.
2. Cafwyd **cydnabyddiaeth nad yw rhai arferion** (yn amlach na'i pheidio yn gysylltiedig â systemau llaeth) **yn enghreifftiau o arfer gorau** o ran rheoli'r pridd, megis tir moel dros y gaeaf a photsio o ganlyniad i gadw da byw y tu allan dros y gaeaf.
3. Mae ffermwyr o'r farn eu bod yn **meddu ar y sgiliau cywir** ar gyfer rheoli eu priddoedd, ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd priddoedd iach ar gyfer cynhyrchiant yn ogystal â ffactorau amgylcheddol eraill.
4. Roedd nifer o ffermwyr yn teimlo y byddai parhau â'r cymorth gyda **samplu'r pridd a chyflwyno cymorth ar gyfer ychwanegu calch** yn ymyriadau effeithiol o ran gwella'r broses o reoli pridd.
5. Mae **dealltwriaeth o nod a gweledigaeth Llywodraeth Cymru** o ran rheoli'r pridd hefyd yn bwysig ac mae angen cyfathrebu ac egluro hynny fel rhan o'r cynllun newydd. Rhannwyd profiadau negyddol am y dulliau o fewn Glastir, a oedd wedi achosi pryder a straen i rai ffermwyr. Ni ddylid tanbrisio pwysigrwydd cyd-ddylunio a phartneriaeth rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant ar gyfer y cynllun SFS.



CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

6. **Nid yw cynlluniau blaenorol wedi hwyluso cydweithio rhwng cymdogion**; er mwyn sicrhau dull tuag at reoli'r pridd ar draws y dirwedd gyfan o fewn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, dylid annog dulliau i annog cydweithredu o'r fath.
7. **Mae atyniad ymuno â chynllun yn dibynnu ar nifer o ffactorau,** ond bydd yr apêl economaidd yn hollbwysig. Bydd hyfywedd ariannol ffermydd yn amrywio rhwng sectorau a'u rhanbarth daearyddol/math o fferm. Bydd hyn, yn ei dro, yn dylanwadu ar faint o awydd sydd i gymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
8. **Barnwyd fod swyddog prosiect y gellir ymddiried ynddo** i alluogi deialog rhwng Llywodraeth Cymru a'r ffermwyr yn allweddol er mwyn sicrhau llwyddiant y cynllun.
9. **Gallai trafodaeth bellach fod yn ddefnyddiol** unwaith y bydd mwy o fanylion am gynigion a gweithredoedd y cynllun ar gael.

Archwiliwyd yr agweddau canlynol ar reoli pridd:

*Faint o ystyriaeth sy'n cael ei roi i briddoedd ar hyn o bryd?*

Roedd ehangder y camau a gymerwyd gan ffermwyr i geisio gwella rheolaeth o bridd/maetholion yn dangos yn amlwg eu bod yn rhoi cryn dipyn o ystyriaeth i briddoedd. Cafwyd nifer o ddatganiadau ynglŷn â phwysigrwydd y pridd a'u bod yn gofalu am eu priddoedd, ond bod lle i wella (e.e. "Pridd yw'r ased mwyaf gwerthfawr sydd gen i, felly rydw i'n hyderus bod gennym ni system dda yma ar y fferm. Nid wyf yn mynd i adael i'm hased pwysicaf ddirywio. Er gwaethaf hyn, rwy'n cydnabod nad yw rheoli pridd yn ofalus bob amser yn digwydd ar ffermydd Cymru").

Yn fras, roedd y mwyafrif wedi buddsoddi (rhai ohonynt yn sylweddol) mewn mesurau i wella cydbwysedd maethol eu priddoedd, ond i eraill, roedd llai o dystiolaeth o weithredu (nid oedd hyn yn gynrychioladol o unrhyw fath penodol o fferm na sector). Roedd bron pob cyfranogwr wedi cynnal profion/dadansoddiad pridd safonol (pH, P, a K), er na ofynnwyd pa gyfran o bob fferm a brofwyd (soniwyd am gynllun rheoli maetholion fferm gyfan sawl gwaith). Yn sgil y cyngor a dderbyniwyd yn dilyn profion, roedd llawer o ffermwyr wedi defnyddio calch i unioni lefel pH isel yn y pridd, ac roedd hynny wedi eu galluogi i ddefnyddio maetholion yn fwy effeithlon (gan leihau faint o wrtaith a wasgarwyd o bosibl), gan gyfateb â chynnydd mewn cynnyrch. Roedd eraill wedi chwilio am fesurau i gynyddu mynegeion P a K isel, e.e. roedd nifer fechan wedi gwasgaru bio solidau neu gompost dros y pum mlynedd diwethaf neu wedi newid y math o wrtaith a wasgarwyd. Roedd nifer gymharol fach wedi cynnal dadansoddiad manwl o'u priddoedd, megis ar gyfer lefelau elfennau hybrin, a gallai hynny fod wedi eu cynorthwyo i unioni diffygion mewn da byw.

Roedd ymgymryd â mesurau i wella strwythur ffisegol y pridd ac felly ymdreiddiad dŵr yn llai amlwg. Fodd bynnag, roedd nifer yn cyfeirio at gamau gweithredu a oedd yn bwriadu lleihau cywasgiad a/neu wella draenio (awyru, chwalu'r haen uchaf, codi tyweirch, draenio gyda thyllau tyrchod ac ati). Cyfeiriodd nifer at adfer draeniau diffygiol mewn caeau fel mesur yr oeddent wedi'i gwblhau i geisio osgoi'r tir rhag bod yn ddwrlawn.

Roedd nifer o ffermydd yn cylchdroi cnydau fel seibiant o systemau glaswellt ungnwd; yn aml fel rhan o gynlluniau amaeth-amgylchedd blaenorol neu bresennol (e.e. cylchdroi glaswellt - swêds - cnydau cyflawn - glaswellt). Roedd y rhesymau a nodwyd yn cynnwys lleihau'r baich o ran chwyn, plâu a chlefydau. Dylai hyn yn y pen draw helpu i gynyddu cynnyrch, yn ogystal â chynnig arbedion ariannol posibl ar gostau bwyd anifeiliaid a brynir. Amlygwyd ychydig o enghreifftiau penodol gan ymatebwyr.

Mewn achosion lle'r oedd caeau'n cael eu hail-hadu, roedd hi'n ddiddorol nodi bod rhai ffermwyr wedi symud oddi wrth aredig a dulliau traddodiadol o drin y tir i systemau gyda chyn lleied o drin â phosibl (min-till) (e.e. drilio uniongyrchol) neu beidio â thrin o gwbl (zero-till) (gwasgaru hadau ar y wyneb). Nid oedd y rheswm/rhesymau penodol am hyn bob amser yn cael eu hegluro, er bod rhai wedi nodi eu bod yn lleihau costau sefydlu a/neu erydiad pridd (a cholli carbon a deunydd organig).

Nododd ymatebwyr yn aml eu bod wedi newid eu trefniadau pori, gan nodi'r symudiad tuag at ddull cylchdro yn hytrach na stocio sefydlog. Dylai hyn arwain at wneud gwell defnydd o laswellt, yn ogystal â dosbarthu maetholion yn fwy cytbwys ar draws caeau; gan arwain at wella cynhyrchiant yn y pen draw. Nododd un ymatebwr sut y dylai pori cylchdro (gan ganiatáu cyfnodau gorffwys rhwng pori) annog y gwreiddiau i ddatblygu'n well, helpu i awyru'r pridd a helpu i ddal a storio carbon. Gwnaed sylwadau yn benodol am yr angen i bori caeau "pan fo'r amodau'n addas" yn unig.

*Beth mae cyfranogwyr yn ei ddeall o'r term 'rheoli pridd'?*

Fel y nodwyd uchod, roedd nifer fawr o ymatebwyr yn amlwg yn ystyried eu priddoedd wrth wneud penderfyniadau rheolaeth, gyda'r mwyafrif helaeth wedi cymryd camau i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ffrwythlondeb a/neu gyflwr ffisegol y pridd, ond roedd y camau gweithredu'n cael eu cyfyngu ar brydiau oherwydd costau.

Cafwyd llai o drafodaeth ynglŷn â rôl bioleg y pridd, fel pwnc penodol o leiaf, ond mae'n bosibl bod hyn wedi cael ei gyfeirio ato mewn mannau eraill wrth i ymatebwyr drafod gwreiddiau planhigion ac ati. Roedd rhai, fodd bynnag, yn enwedig rhai o'r ffermwyr iau, yn pwysleisio pwysigrwydd priddoedd "am oes"; cafwyd nifer o ddatganiadau eraill tebyg hefyd. Yn ddiddorol, gwnaed sylwadau gan un unigolyn yn benodol a oedd yn nodi bod y dull "N: P: K" a ddefnyddir fel sylfaen ar gyfer cyngor ffrwythlondeb pridd gan weithwyr proffesiynol yn hen ffasiwn ac yn rhy gul ei ffocws gan nad oedd yn ystyried biota'r pridd, sy'n cael ei ystyried yn un o gyfansoddion allweddol y meddylfryd "amaethyddiaeth adfywiol" yr oedd yr ymatebwr yn ei argymell.

Nodwyd mesurau i osgoi niweidio priddoedd (yn enwedig yn ystod cyfnodau gwlypach) sawl gwaith (e.e. trwy roi cerrig i greu llawr caled mewn pyrth a mannau bwydo, ac osgoi traffig a gwasgaru slyri yn ystod y gaeaf), ynghyd â nifer o bwyntiau eraill a godwyd yn gynharach sy'n berthnasol i reoli'r pridd (e.e. manteision caniatáu cyfnodau gorffwys rhwng pori, gwella pH a ffrwythlondeb y pridd, cyflwyno system gylchdroi cnydau, lleihau cywasgiad, defnyddio dulliau o drin y tir cyn lleied â phosibl er mwyn sefydlu cnydau ayb).





Roedd yn ddiddorol nodi bod nifer o ffermwyr yn anghytuno gyda'r symudiad tuag at aeafu da byw yn yr awyr agored (fel y gwelir ymysg buchesi godro yn benodol, ond hefyd mewn rhai systemau gwartheg sugno, i arbed ar gostau isadeiledd a llafur sy'n gysylltiedig â chadw anifeiliaid dan do) - ystyriwyd fod Cymru'n rhy wlyb yn aml ar gyfer arferion o'r fath ac y byddai'r "difrod i strwythur y pridd" yn anadferadwy. Fel yr amlygwyd gan fwy nag un ymatebwr, mae'n bosibl bod mesurau o'r fath wedi cael eu cymell yn anfwriadol trwy gynlluniau amaeth-amgylchedd blaenorol, ac y dylid "penderfynu yn fwy gofalus ar addasrwydd safleoedd ar gyfer arferion o'r fath".

Yn yr un modd, roedd cynnydd yn y nifer o ffermydd llaeth gyda nifer fawr iawn o anifeiliaid yn bryder i lawer yng nghyd-destun rheoli'r pridd, yn ogystal â'r ffaith eu bod yn cynhyrchu llawer iawn o slyri heb gapasiti storio neu fanc tir angenrheidiol er mwyn storio a gwasgaru mewn modd sy'n amgylcheddol-gyfrifol. Nododd un ymatebwr y dylai Llywodraeth Cymru "ddarparu arweiniad ar ba ddefnydd tir sy'n briodol ar gyfer rheolaeth dda o'r pridd".

Cafwyd barn gref ynglŷn â'r difrod posibl i briddoedd o ganlyniad i dyfu indrawn "am enillion da heb ystyried y niwed i'r pridd"; ystyriwyd hyn fel "fandaliaeth o'r pridd". Cyfeiriodd pedwar ymatebwr at yr angen i ddefnyddio mesurau llawer mwy trylwyr ar gyfer tyfu indrawn - roedd rhai'n dadlau y dylid ei atal bron yn gyfan gwbl, ac eraill yn nodi y dylid annog ffermwyr i osgoi'r tir moel sy'n cael ei adael dros y gaeaf ar ôl cynaeafu indrawn (trwy gyfuniad o gymhelliant a chosbau llym) gan ei fod yn cyfrannu at ddŵr ffo ac ychwanegu silt i gyrsiau dŵr.

I grynhoi, roedd yn amlwg o'r ymatebion a dderbyniwyd bod ffermwyr yn cydnabod gwerth (a phwysigrwydd) rheoli'r pridd yn effeithiol o safbwynt cynhyrchiant a'r amgylchedd.

*Faint o gynllunio sydd y tu ôl i bob gweithred a wneir ar briddoedd, e.e. gwasgaru gwrtaith?*

Mae gwrtaith yn un o'r costau mwyaf sylweddol ar y rhan fwyaf o ffermydd, felly mae defnyddio gwrtaith yn ofalus yn bwysig o safbwynt y busnes. Roedd gwasgaru gwrtaith yn aml yn seiliedig ar brofiad yn y lle cyntaf, yn enwedig i ffermwyr hŷn.

Barnwyd fod profiad yn angenrheidiol er mwyn gwneud penderfyniadau sy'n berthnasol i'r fferm benodol, oherwydd bod amrywiaeth yn y priddoedd, hinsawdd, uchder ayb yn dylanwadu ar ymateb/effeithiolrwydd y gwrtaith. Fodd bynnag, fel y soniwyd yn gynharach, roedd bron pob ymatebwr wedi profi statws maethol eu priddoedd (ac mewn nifer fach o achosion, wedi profi lefelau elfennau hybrin hefyd). Roedd canlyniadau'r dadansoddiadau hyn yn amlwg wedi dylanwadu ar eu harferion o ran gwasgaru gwrtaith - roedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi gweithredu ar y cyngor a roddwyd. Er enghraifft, roedd rhai'n nodi sut yr oeddent wedi newid faint o wrtaith a'r math a ddefnyddiwyd er mwyn cywiro diffygion ac i arbed gor-wasgaru mewn ardaloedd eraill; eu bod yn targedu eu defnydd o slyri a thail buarth ar dir silwair (yn ogystal ag adnoddau organig eraill (e.e. tail ieir a bio solidau); bod gwahanol gnydau angen gwrtaith ar wahanol gyfraddau, ac ati.

Mae'n bwysig nodi efallai nad yw hyn yn gynrychioliadol o'r sector ffermio ehangach, ond cafodd hyn ei nodi gan ffermwyr sy'n barod i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn barod i nodi eu bod yn defnyddio agronomegwyr proffesiynol i helpu i wneud penderfyniadau a dehongli canlyniadau dadansoddiadau pridd. Roedd nifer yr ymatebwyr yn nodi eu bod yn defnyddio cyn lleied o wrtaith â phosibl (boed hynny o ganlyniad i resymau economaidd a/neu amgylcheddol) yn amlwg, a'u bod yn defnyddio systemau eang, mewnbwn isel yn nodweddiadol.

Roedd eraill yn ceisio lleihau'r angen i roi gwrtaith trwy gynnwys mwy o godlysiau mewn gwyndonnydd - roedd hyn yn arbennig o gyffredin ar ffermydd organig, yn ôl y disgwyl, ond hefyd ar ffermydd confensiynol. Ymhlith y rhesymau eraill a nodwyd dros gynnwys codlysiau roedd buddion i iechyd anifeiliaid a chyfraddau twf.

Gwnaed nifer o sylwadau eraill ynghylch sut roeddent yn cynllunio gwasgaru gwrtaith.

- Nodwyd sawl gwaith fod y tywydd a'r amser o'r flwyddyn yn ffactorau pwysig iawn wrth gynllunio gwasgaru gwrtaith (nodwyd tymheredd y pridd, rhagolygon glaw, a lleithder y pridd). Hefyd, pan fo'r tywydd yn ymddangos yn rhy gynnes a heulog, roedd rhai ffermwyr yn nodi eu bod wedi newid o ddefnyddio gwrteithiau'n seiliedig ar wrea i ddefnyddio gwrteithiau'n seiliedig ar amoniwm nitrad (i leihau colledion nitrogen trwy anweddau amonia).
- Rhai o'r ffactorau dylanwadol eraill oedd dwysedd stocio a chyfanswm y cnwd (glaswellt fel arfer) sydd ei angen ar y da byw, ynghyd â chyfraddau twf glaswellt - h.y. roedd ymdrech benodol yn cael ei gwneud mewn sawl achos i geisio cyfateb y proffiliau cyflenwad a galw wrth benderfynu ar drefniadau gwasgaru gwrtaith.
- Roedd gwyndonnydd ifanc hefyd yn cael blaenoriaeth o ran gwasgaru gwrtaith gan eu bod yn fwy ymatebol na gwyndonnydd hŷn.
- Mae'n ddiddorol nodi mai un ymatebwr yn unig a nododd ei fod yn defnyddio RB209 i helpu gyda phenderfyniadau'n ymwneud â gwasgaru gwrtaith (er y byddai disgwyl y byddai cyngor proffesiynol a roddir gan agronomegwyr, yn ogystal ag argymhellion a wnaed mewn adroddiadau a grëir yn dilyn dadansoddiadau pridd yn seiliedig ar RB209).
- Cyfeiriwyd sawl gwaith at wybodaeth a ddysgwyd mewn addysg flaenorol, ac yn dilyn ymgysylltiad gyda chyhoeddiadau, deunyddiau ar-lein, podlediadau, cyfryngau cymdeithasol, a mynychu digwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth fel y cynigir gan Cyswllt Ffermio (grwpiau trafod ayb). Roedd cyfnewid gwybodaeth ffurfiol (proffesiynol) ac anffurfiol yn amlwg yn dylanwadu ar benderfyniadau.

I grynhoi, mae'r ymatebion a gasglwyd yn dangos bod penderfyniadau ar wasgaru gwrtaith yn seiliedig ar nifer o ffactorau, ac yn aml mae penderfyniadau'n cael eu gwneud fesul cae yn hytrach na gwasgaru'n fwy cyffredinol.

Yn fwy eang, mae'r drafodaeth ynglŷn â rheoli'r pridd, y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno er mwyn gwella ansawdd y pridd, ynghyd â'r awydd amlwg i osgoi difrodi'r pridd, yn dangos bod llawer o ystyriaeth yn cael ei roi i sut y gall gweithredoedd effeithio ar briddoedd.

Roedd penderfyniadau ynghylch a ddylid ail-hadu ai peidio yn dibynnu'n bennaf ar gynnyrch - gyda chaeau sy'n tanberfformio yn cael eu targedu ar gyfer hail-hadu. Roedd rhai yn nodi eu bod yn amcangyfrif faint o'r gwndwn sy'n cynnwys rhywogaethau





glaswellt mwy cynhyrchiol (e.e. rhygwellt) mewn perthynas â'r rhywogaethau llai cynhyrchiol neu o ansawdd is. Yn ôl y disgwyl, roedd presenoldeb chwyn annymunol (e.e. rhedyn, dail tafol a brwyn) yn ffactor pwysig wrth benderfynu a ddylid ail-hadu ai peidio. Roedd yn amlwg bod llawer o ymatebwyr yn gweld gwerth ail-hadu, ond dim ond lle'r oedd y perfformiad presennol yn is na'r lefel ddymunol.

Mae'r dull o ail-hadu eisoes wedi cael ei drafod, ynghyd â'r diddordeb mewn symud oddi wrth aredig tuag at systemau o drin y tir cyn lleied â phosibl (sy'n ddibynnol fodd bynnag ar argaeledd glyffosad, fel y nodwyd gan nifer o ymatebwyr). Nododd mwy nag un ymatebwr fuddion amgylcheddol gwneud hynny.

*Pa sgiliau sy'n ddefnyddiol i gynorthwyo gyda rheoli'r pridd? A oes angen dysgu sgiliau newydd?*

Nid oedd yn amlwg bod unrhyw bryderon penodol ynglŷn â diffyg sgiliau neu wybodaeth a oedd yn atal ymatebwyr rhag gwneud y penderfyniadau gorau yn eu barn nhw o ran rheoli'r pridd.

Dim ond llond llaw o ymatebwyr a nododd ddim byd heblaw am eu profiad eu hunain fel sail i'w penderfyniadau - ffermwyr hŷn yn bennaf. Gallai hyn fod yn rhwystr i newid, fel y nodwyd gan un ymatebydd, "Mae gennym bobl ifanc addysgedig yn dod drwodd ac yn gallu gweld y cyfleoedd i wella ansawdd tir. Mae'r cenedlaethau hŷn yn tueddu i ffermio fel cenedlaethau blaenorol. Gall Llywodraeth Cymru helpu i symud y diwydiant yn ei flaen gyda'i gilydd gyda'r un syniadau a chefnogi'r bobl ifanc sy'n dechrau ar eu taith. Rhan o'r her yw cael y genhedlaeth hŷn i ymgysylltu â chynllun ar gyfer y dyfodol ac mae hyn yn rhywbeth y gallai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef".

Dywedodd un ymatebwr y byddai cymorth ychwanegol i ddehongli canlyniadau dadansoddiadau pridd wedi bod yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, fel y dywedwyd yn gynharach, roedd ffermwyr yn barod i ofyn am gyngor proffesiynol gan agronomegydd neu ymgynghorydd i wella'r broses o wneud penderfyniadau pan oeddent yn teimlo angen cymorth. Roedd llawer hefyd wedi manteisio ar gynllunio rheoli maetholion a gynigiwyd trwy raglen Cyswllt Ffermio (a ddylai fod wedi gwella dealltwriaeth), ac wedi chwilio am wybodaeth berthnasol o ystod o ffynonellau eraill.

Gallai trafodaeth bellach fod yn ddefnyddiol ar y pwynt hwn unwaith y bydd mwy o fanylion am gynigion a gweithredoedd y cynllun ar gael.

*Beth yw'r profiadau o gynlluniau eraill? e.e., Glastir, Ardystiad Organig neu eraill.*

Roedd mwyafrif y cyfranogwyr wedi bod yn rhan o gynlluniau amaeth-amgylchedd (roedd nifer wedi bod yn rhan o sawl cynllun). Glastir Sylfaenol/Glastir Uwch oedd y rhain yn bennaf, a'u rhagflaenwyr (Tir Cynnal / Gofal). Roedd nifer is wedi bod yn gysylltiedig â Glastir - Rheoli coetir. Roedd nifer wedi cymryd rhan yng nghynllun Grantiau Bach Glastir i gynorthwyo gyda chostau gwella seilwaith.

Roedd llond llaw o ymatebwyr wedi bachu ar y cyfle i gofrestru ar gynlluniau mwy lleol, megis trwy eu hawdurdodau lleol neu "grwpiau gweithredu" lleol. Roedd ffermwyr Organig wedi'u hardystio gyda nifer o wahanol gyrff.

*Beth sy'n gweithio'n dda neu beth a weithiodd yn dda mewn cynlluniau presennol/ blaenorol?*

Roedd yn amlwg bod aelodaeth o gynllun amaeth-amgylchedd wedi helpu busnesau'r ffermwyr a gymerodd ran yn y trafodaethau un i un i fod yn hyfyw yn ariannol. Dywedodd llawer ohonynt fod cynlluniau o'r fath wedi caniatáu iddynt wneud gwaith a fyddai fel arall yn annhebygol o fod wedi'i wneud.

Roedd mesurau a oedd yn cynnig canlyniadau cadarnhaol a oedd o fudd i'r fenter ac i'r amgylchedd yn amlwg yn boblogaidd gyda nifer o'r ymatebwyr. Ymhlith yr enghreifftiau a restrwyd roedd:

- Ffensio nentydd yn ddwbl (da byw iachach a buddion i fywyd gwyllt ac ansawdd dŵr),
- Plannu coed a gwrychoedd, ac ailadeiladu waliau (gwella bioddiogelwch / iechyd anifeiliaid a chreu cynefinoedd / gwerth esthetig),
- "Tacluso" ffensys a phyrth (llai o fwd ac erydiad / gwerth esthetig),
- Cyflwyno cylchdro cnydau yn hytrach na glaswelltir parhaol (lleihau baich chwyn / plâu a chreu cynefinoedd),
- Profi'r pridd (arbedion posibl o ran gwrtaith / defnyddio maetholion yn fwy effeithlon).

Roedd yn amlwg bod nifer o ymatebwyr yn amlwg wedi cymryd pleser mawr o'r effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd ar ôl ymuno â chynlluniau o'r fath (ar fywyd gwyllt, yn arbennig). Roedd yn ymddangos bod ymatebwyr wedi gwerthfawrogi cyllid ar gyfer gwaith cyfalaf yn benodol.

Nododd nifer fod sicrhau aelodaeth o gynlluniau yn syml ar y cyfan, ac yn golygu bod angen addasu eu system yn hytrach na newid ar raddfa gyfan. Mewn rhai achosion, mae'n ymddangos bod cynlluniau o'r fath efallai wedi hwyluso bwriadau oedd gan rai ffermwyr eisoes, e.e. i ostwng cyfraddau stocio ("Mae Glastir wedi gweithio'n dda ar fy fferm - wedi cydweddu'n dda â'n newid i systemau organig e.e. gan ostwng y gyfradd stocio da byw … ").

Soniodd aelodau cynlluniau am sut yr oeddent yn helpu i "gynnal cydbwysedd", gan eu bod yn caniatáu i ffermwyr wneud "gwell defnydd o ardaloedd nad ydynt yn gynhyrchiol i wneud y mwyaf o fioamrywiaeth a buddion amgylcheddol." Nododd un arall "… roedd yn caniatáu imi reoli fy fferm mewn ffordd sy'n fwy ystyriol o'r amgylchedd/cadwraeth, yn hytrach nag ar gynhyrchu 100%".

Roedd aelodaeth o gynlluniau hefyd yn rhoi hyder i rai cyfranogwyr roi cynnig ar arferion newydd (e.e. gwasgaru slyri ar daflwybr isel a chyflwyno systemau cylchdro) gan fod rhywfaint o'r risg (ariannol) yn cael ei gynnwys yn y cynllun - roedd nifer yn nodi mai dyma'r cymhelliant yr oedd arnynt ei angen i fabwysiadu dull newydd.

Un o'r buddion eraill o fod yn aelodau o gynlluniau oedd bod cyfranogwyr yn gallu gweld cyflogaeth leol yn cael ei chreu e.e. i dalu costau ffensio ac adeiladu waliau cerrig ("nid ydym ni'n cadw'r taliadau am gyfnod hir"). Roedd gwerth cymdeithasol a diwylliannol a oedd yn deillio o hyn (cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a helpu i gynnal yr iaith Gymraeg) yn amlwg yn cael ei werthfawrogi gan yr ymatebwyr.



CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

*Beth yw'r heriau a wynebwyd mewn cynlluniau presennol/blaenorol*

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn beirniadu'r ffordd yr oedd rhai o'r cynlluniau cyllid diweddar wedi cael eu llunio; er enghraifft, roedd y Grant Busnes i Fermydd (FBG) yn darparu hyd at 40% o'r costau cyfalaf a allai fynd tuag at wella rheolaeth o bridd a maetholion (e.e. peiriannau awyru, systemau gwasgaru slyri ar lefel isel, driliau hadau, ayb.). Roedd rhai'n nodi bod hyn yn annog gwariant diangen ar beiriannau ("gwallgofrwydd llwyr i annog gwariant"), ac yn hytrach, y byddai wedi bod yn well talu contractwyr i wneud gwaith o'r fath ar ffermydd a/neu greu cynllun i hwyluso'r broses o rannu peiriannau rhwng ffermydd, pan fo ffermydd yn rhy fychan i gyfiawnhau prynu peiriannau o'r fath ("[roedd y cynllun] yn chwarae i ddwylo rhai o'r ffermydd mwy").

Neges glir o ystod eang o gwestiynau oedd bod y mwyafrif o ffermwyr yn barod i dderbyn cyngor o ystod eang o ffynonellau - gan weithwyr proffesiynol cyflogedig, llenyddiaeth, a chyfoedion; fodd bynnag, maen nhw hefyd eisiau rhoi mewnbwn o ran penderfyniadau sy'n effeithio ar eu ffermydd eu hunain (e.e. "Rhannu syniadau a thrafod gyda ffermwyr eraill. Nid wyf yn hoffi pan fo rhywun yn ceisio dweud wrthych chi beth i'w wneud ar eich fferm eich hun - does neb yn adnabod y fferm yn well na'r ffermwr ei hun. Dydw i ddim yn or-hoff o ddigwyddiadau/cyfarfodydd lle mae pobl yn siarad atoch chi"). Er i'r farn hon gael ei mynegi mewn trafodaethau un i un, cafodd hefyd ei hailadrodd yn ystod sesiynau grŵp.

Mae'n werth nodi bod poeni ynglŷn â chael cosb am "beidio â gwneud rhywbeth yn iawn" wedi cael ei nodi fel ffactor sy'n effeithio ar iechyd meddwl cyfranogwyr - adroddwyd ar hyn sawl gwaith. Roedd yn amlwg bod y pryder nad oeddent wedi cwrdd â holl ofynion y cynllun (o ran manylebau'r gwaith a/neu ddyddiad cwblhau) yn achosi straen a gorbryder i rai; yn enwedig lle'r oeddent yn nodi nad oeddent yn gallu fforddio cosb ariannol. Roedd yn ymddangos bod llawer yn dibynnu ar y berthynas gyda'r swyddog Glastir o ran pa mor barod y byddai ef/hi i wrando ar unrhyw eglurhad; ond ar y cyfan, roedd yn ymddangos bod natur ragnodol Glastir yn benodol yn golygu nad oedd llawer o le am gamgymeriadau. Gallai hyn fod wedi lleihau hyder yn y cynllun a'r parodrwydd i gymryd rhan. Ar y llaw arall, trafodwyd y gallu i drafod a diwygio cynlluniau yng nghynllun Tir Gofal yn llawer mwy cadarnhaol.

Barnwyd hefyd nad oedd nifer o'r mesurau'n ddefnydd da o gyllid gan nad oedd digon o gefnogaeth ddilynol ar eu cyfer. Er enghraifft, nododd yn ymatebwr ei fod wedi derbyn cyllid ar gyfer plannu coed, ond nid ar gyfer eu cynnal a'u cadw wedi hynny, gan olygu nad oedd y coed wedi llwyddo i sefydlu ac nad oedd unrhyw fuddion amgylcheddol (nac economaidd).

Nododd rhai o'r ymatebwyr fod y cynllun wedi arwain at ganlyniadau anfwriadol gyda chnydau pori'r gaeaf yn cael eu tyfu mewn ardaloedd anaddas (llethrau serth), gan arwain at erydiad pridd.

Roedd yn amlwg bod ffermwyr o'r farn na ddylai aelodaeth o gynlluniau o'r fath ddod ar draul lleihau gallu cynhyrchiol eu ffermydd, neu o leiaf bod cyfaddawd ar ryw adeg. Mae enghraifft yn cynnwys "colli tir cynhyrchiol" gyda'r gofyniad o greu gwrychoedd

3m o led, a arweiniodd, mewn rhai achosion, at fethu â sefydlu gwrychoedd o gwbl, lle byddai ffermwyr wedi creu gwrychoedd 2m o led. Nid oedd amheuaeth fod colli capasiti cynhyrchiol yn mynd yn groes i'r graen i nifer o ffermwyr, ac mae angen ystyried hyn wrth ddylunio cynlluniau at y dyfodol. At hynny, roedd nifer yn nodi bod y gyfradd dalu am "incwm a gollwyd" yn aml yn annigonol i dalu am y swm gwirioneddol a gollwyd trwy orfod cadw llai o stoc er enghraifft.

Soniodd nifer o ffermydd am dderbyn taliadau hwyr am waith a oedd wedi ei gwblhau, a bod hynny'n annymunol (un ai bod hynny wedi digwydd iddyn nhw neu i gymdogion/aelodau o'r teulu). Roedd hyn hefyd yn ychwanegu at y straen/pryder a brofwyd gan rai fel aelodau o gynlluniau.

*Sut gafodd nodau'r cynlluniau hynny eu cyfathrebu - da/drwg?*

Nid oedd y ffaith bod Glastir mor rhagnodol i'w weld yn apelio i lawer o'r ffermwyr. Roedd hyn yn golygu nad oedd llawer o hyblygrwydd i addasu cynlluniau, ac nid oedd y rhesymeg dros gamau gweithredu penodol bob amser yn glir - nid oedd hyn yn cael ei egluro i ffermwyr, ac roedd ymdeimlad mai ychydig iawn o gyfleoedd oedd i ffermwyr ddefnyddio eu gwybodaeth. Gall amrywioldeb y tywydd, y farchnad ac ati atal ffermwyr rhag cefnogi cynllun sy'n cyfyngu ar eu hyblygrwydd ("Cylchdroi cnydau Glastir (sy'n cyd-fynd â'r cynllun) - roedd y cynllun 5 mlynedd ar gyfer y dyfodol yn cyfyngu'r ffermwr"). Nododd ymatebwyr eraill nad oeddent yn hoff o'r "rhestr" o fesurau du/gwyn, gydag ychydig iawn o gyfle i ddylanwadu ar staff y cynllun.

Thema allweddol a oedd yn codi dro ar ôl tro drwy gydol yr ymatebion oedd pwysigrwydd diogelu priddoedd i gynyddu cynhyrchiant ("sicrhau'r potensial gorau posibl" ayb). Roedd cyfranogwyr yn cydnabod y byddai camreoli priddoedd yn arwain at ganlyniadau negyddol i'w busnes o safbwynt cynhyrchu. Ystyriwyd hefyd nad oedd priddoedd yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd cyn Glastir, gyda nifer yn nodi bod ffocws cynlluniau megis Tir Gofal yn canolbwyntio'n helaeth ar fioamrywiaeth/cadwraeth.

Roedd cyfranogwyr yn teimlo ei bod yn hanfodol bod yr amcanion a'r rhesymau dros gyflwyno mesurau penodol yn cael eu cyfathrebu'n glir mewn cynlluniau at y dyfodol, fel bod penderfyniad deallus yn cael ei wneud o ran pam y byddai mesurau'n gweithio neu'n methu ar ffermydd penodol. Awgrymwyd y byddai hyn yn cynyddu'r apêl i gyfranogwyr, yn eu galluogi i gael cyfle i ychwanegu eu barn/syniadau, ac yn galluogi partneriaeth wirioneddol i ddatblygu - rhywbeth yr oedd nifer wedi nodi sy'n angenrheidiol.

*Gweithio gyda chymdogion*

Nid oedd llawer o gyfle i drafod y pwnc yma yng nghyd-destun priddoedd. Mae'n debygol y byddai unrhyw gydweithio gyda chymdogion wedi digwydd ar sail anffurfiol, felly mae'n bosibl nad oedd yn cael ei ystyried yn werth ei grybwyll. Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi gweithio gyda chymdogion - roedden nhw'n nodi nad oedd cyfle/cymhelliant i wneud hynny. O'r rhai a oedd wedi cydweithio, roedd hynny'n bennaf fel rhan o gytundeb Glastir Tir Comin.

Gallai ymatebwyr fod wedi sôn am gyfleoedd i rannu peiriannau perthnasol gyda chymdogion (e.e. offer awyru'r pridd, offer gwasgaru slyri dan bwysedd isel). Er bod nifer ohonynt yn rhedeg menter âr, nid oeddent yn ffermydd tir âr yn unig, felly nid oedd





cyfleoedd i gydweithio gyda ffermydd da byw (e.e. cytundeb cyfnewid "gwellt am dail" fel y gwelir mewn nifer o ardaloedd yn Lloegr) ar gael mor eang. Rhywbeth mwy perthnasol o bosibl fyddai gwasgaru slyri neu dail oddi ar ffermydd lle nad oes digon o le i'w storio neu gyda mynegai P a K rhy uchel yn y pridd; er, dim ond unwaith y soniwyd am hyn (ac mae'r arfer bellach wedi dod i ben oherwydd materion trwyddedu).

Roedd llawer o ymatebwyr yn gweld gwerth mynychu grwpiau trafod a digwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth rhwng cymheiriaid i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau. Nododd nifer eu bod yn trafod opsiynau rheoli gyda chymdogion yn rheolaidd, gan rannu profiadau da/drwg, ac ati. Fodd bynnag, nododd un ymatebwr "Rwy'n ei chael hi'n anodd fel rhan o grŵp o ffermwyr ar dir comin i reoli'r cytundeb Glastir Uwch. Mae'n gallu arwain at anghytuno rhwng ffermwyr nad ydynt, o bosibl, yn rheoli'r porfeydd/niferoedd y stoc yn briodol - rwy'n credu y dylai LlC fod yn rheoli'r math yma o gontract yn hytrach na gadael i'r grwpiau ffermwyr wneud hynny heb y strwythurau neu'r systemau priodol mewn lle".

Cafwyd trafodaeth bellach yn ystod y cyfarfodydd grŵp ynglŷn â chydweithio gyda chymdogion. Bu'r ffermwyr a fu'n cymryd rhan yn trafod y canlynol: **"Sut all y cynllun annog ffermwyr cyfagos i gydweithio i reoli priddoedd?"**

Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn yn ystod y sesiynau grŵp. Roedd rhai'n gweld budd sylweddol o gydweithio gyda ffermwyr eraill o'r un anian i rannu arfer dda ayb. Fodd bynnag, roedd rhai yn cydnabod bod cael cymdogion i weithio gyda'i gilydd weithiau'n fwy o her.

Mynegwyd amheuaeth o ran y gallu i gyflawni dull tirwedd gyfan mewn perthynas â'r pridd, gan fod pridd mor unigryw i bob cae, a hyd yn oed mewn gwahanol ardaloedd o un cae.

Cyfeiriwyd at rannu peiriannau fel un opsiwn a allai gael ei ystyried fel rhan o'r cynllun newydd. Gellid prynu offer fel aradr isbridd ac offer awyru a allai helpu gyda chywasgiad pridd fel rhan o grŵp, gan rannu'r costau.

**Camau gweithredu**

Nododd nifer ei bod yn anodd iawn gwneud sylwadau ar y cynllun newydd oherwydd y diffyg gwybodaeth/manylion ar hyn o bryd.

*Eisoes yn gwneud gweithgareddau*

Mae'n amlwg fod cyfranogwyr yn y trafodaethau un i un yn cymryd sawl cam i geisio gwella rheolaeth o bridd a maetholion. Mae profi pridd, yn benodol, yn gyffredin iawn, ac mae'r canlyniadau'n helpu i lywio penderfyniadau rheoli maetholion. Nododd llawer eu bod bellach wedi cyflwyno system o gylchdroi cnydau (mewn nifer o achosion, mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i gymryd rhan mewn cynllun amaeth-amgylchedd) a allai fod yn gwella ffrwythlondeb y pridd ac yn lleihau baich plâu/chwyn.

Er o bosibl nad yw'n gwbl glir o'r ymatebion yn ystod trafodaethau un i un, mae'n ymddangos bod thema gyffredin o ran nifer y ffermydd sy'n datblygu systemau i reoli'r borfa'n fwy effeithiol (cyflwyno systemau pori cylchdro ayb). Mae'n ymddangos bod y symudiad tuag at drin llai ar y tir (ac felly lleihau erydiad a cholledion carbon o'r pridd) ar gynnydd, wedi'i hwyluso gan ffermwyr yn prynu peiriannau perthnasol (e.e. driliau uniongyrchol) gyda chymorth grantiau megis y Grant Busnes i Ffermydd.

*Hawdd i ddechrau ymgymryd*

Mae mesurau sy'n cynnig enillion canfyddedig i'r fferm ac i'r amgylchedd yn debygol o ennyn cefnogaeth yn gynnar ac yn eithaf rhwydd ymysg cyfranogwyr a dylid blaenoriaethu'r rhain. Yng nghyd-destun rheoli priddoedd a maetholion, gallai hyn fod yn haws nag ar gyfer mesurau eraill (e.e. ceisio annog ffermwyr i adael ardal ar y fferm er mwyn creu cynefin): roedd yn amlwg bod ffermwyr a fu'n cymryd rhan yn yr ymarfer hwn yn gwerthfawrogi'r pridd fel ased allweddol ar eu ffermydd, felly mae'n debygol y bydd mesurau i ddiogelu a gwella gweithgaredd y pridd (e.e. lleihau cywasgiad) yn derbyn cefnogaeth.

Yn yr un modd, mae rheoli maetholion yn well yn debygol o sicrhau budd amgylcheddol wrth wella cynnyrch a/neu arbed costau maetholion - unwaith eto, roedd ymatebwyr yn awyddus iawn i ddysgu sut i wneud gwell defnydd o'u tail/slyri, gan eu galluogi i dargedu eu defnydd o wrtaith er enghraifft. Yn yr un modd, gallai gwella'r borfa fod yn ddrws cymharol hawdd i'w agor mewn llawer o achosion. Yn sgil y safbwyntiau hyn, gellir dod i'r casgliad y byddai'r cyfranogwyr yn croesawu mesurau o'r fath mewn cynlluniau at y dyfodol.

*Ddim yn hawdd ymgymryd*

Mae'n amlwg y gall cost gweithredu mesurau arfer gorau fod yn rhwystr mawr i newid. Nododd nifer gymharol fawr o ymatebwyr fod angen cyllid grant/cymhelliant ar gyfer gwasgaru calch, gan y byddai'n arwain at fuddion o safbwynt economaidd (o ran gwella cynhyrchiant) ac amgylcheddol (defnyddio maetholion yn fwy effeithiol, colli llai o faetholion i gyrsiau dŵr).

Er bod mwyafrif y cyfranogwyr wedi defnyddio calch yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae hyn yn debygol o fod ar gyfran o'u caeau yn unig, er y gallai profion pridd fod wedi amlygu diffygion ar draws nifer o gaeau (neu hyd yn oed y fferm gyfan). Roedd yn ymddangos bod costau prynu calch ymlaen llaw o'i gymharu â'r ad-daliad tymor hwy yn atal rhai rhag cyflwyno mesur yr oeddent yn gwybod y byddai'n fuddiol i'w priddoedd ("mae nifer o ffermwyr yn methu â'i fforddio, er bod canlyniadau eu profion pridd yn dangos faint sydd ei angen").

Yn yr un modd, yng nghyd-destun capasiti storio slyri ychwanegol i alluogi ffermwyr i wneud gwell defnydd o'r maetholion mae'n ei gynnwys, mynegodd un ymatebwr farn a oedd yn cael ei adleisio gan eraill, sef "mae cyflawni'r holl ofynion o ran seilwaith yn gostus iawn, ac mae'n ymddangos bod diffyg dealltwriaeth ynglŷn â pha mor fach yw elw ffermydd - efallai ein bod yn gyfoethog o ran asedau, ond mae arian parod yn brin er mwyn buddsoddi mewn systemau slyri. Efallai bod angen cyflwyno rheolau yn raddol iawn a chymorth ariannol ar gyfer gwella seilwaith slyri".

Cafwyd cydnabyddiaeth eang gan ffermwyr fod plannu cnydau gorchudd fel nad yw caeau'n cael eu gadael yn foel dros y gaeaf (e.e. ar ôl cnydau indrawn neu datws) yn diogelu priddoedd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i ffermwyr (neu'r contractwyr sy'n gwneud y gwaith ar eu rhan) fuddsoddi mewn peiriannau addas, sy'n debygol o fod yn gostus yn y tymor byr (ee gall indrawn gael ei blannu ar y cyd â glaswellt erbyn hyn, yn hytrach na cheisio sefydlu cnwd o laswellt ar ôl cynaeafu).





Wrth i nifer yr anifeiliaid gynyddu ar ffermydd (oherwydd enillion ymylol), gallai rhai ffermwyr gael eu gadael gydag opsiynau annymunol yn unig. Fel y nododd un ffermwr (a chafwyd datganiadau tebyg gan eraill): "bydau peidio â gaeafu gwartheg yn yr awyr agored o fudd i strwythur y pridd - byddem yn awyddus i beidio â gwneud hyn, ond rydym ni wedi gorfod gwneud ar adegau oherwydd amgylchiadau penodol. Byddai angen mwy o adeiladau neu ardaloedd dan do i gyflawni hyn". Os bydd elw o'r farchnad yn dioddef ar ôl Brexit, gallai hynny arwain at heriau pellach.

*Angen newidiadau sylweddol i'r systemau neu uwchsgilio er mwyn ymgymryd*

Amlygwyd y broblem o gytundebau tenantiaeth tymor byr gan nifer o ymatebwyr. Barnwyd y gallai hyn arwain at arfer gwael o ran rheoli pridd, yn enwedig lle nad yw'r tenant yn derbyn y Taliad Sylfaenol (ac felly gallai roi llai o sylw i ofynion traws-gydymffurfiaeth neu ddiogelu'r pridd).

Ystyriwyd y byddai ail-strwythuro tenantiaethau fel bod y perchennog a'r tenant yn elwa fel ei gilydd yn angenrheidiol mewn cynlluniau at y dyfodol. Nododd un ymatebydd o gefndir garddwriaethol y gallai cynlluniau yn y dyfodol gynnwys "datganiad cyflwr ar gyfer fferm a fyddai'n golygu ymrwymiad i "beidio â dirywio'r pridd ymhellach", er y gallai hyn fod yn gam yn rhy bell ar hyn o bryd." Fe wnaethon nhw nodi eu bod wedi gweld "perchnogion tir sydd â thenantiaid sy'n tyfu salad yn ystyried hyn oherwydd natur ddwys tyfu cnydau salad. Gallai fod yn anodd ei weithredu." Er na wnaethant ymhelaethu, nododd un arall ei fod yn poeni y byddent yn colli taliadau Glastir oherwydd gweithredoedd y landlord; ac roedd cyfranogwyr eraill yn nodi nad oeddent yn gallu ymuno â chynlluniau am eu bod ar denantiaethau tymor byr. I grynhoi, mae heriau'n parhau er mwyn llunio cynllun sy'n hygyrch i nifer o denantiaid.

Roedd rhai ffermwyr llaeth yn nodi, er eu bod yn gwneud pob ymdrech i wneud y defnydd gorau o slyri, y byddai modd gwella hynny ymhellach pe byddent yn profi statws maetholion y slyri ymlaen llaw. Mae'n bosibl bod angen rhywfaint o uwchsgilio/hyfforddiant er mwyn dehongli'r canlyniadau (yn debyg i'r hyn a wneir ar gyfer profi priddoedd).

O ran ffermwyr da byw, nifer fechan o ymatebwyr yn unig a nododd eu bod yn mesur cynhyrchiant glaswellt, ac yn gwneud penderfyniadau'n ymwneud â gwasgaru maetholion yn seiliedig ar y canlyniadau hyn er mwyn gallu cyfateb y cyflenwad a'r galw a'r amrywioldeb ym mhroffil y galw am laswellt dros y flwyddyn. Yn ddamcaniaethol, gallai gwneud gwell defnydd o'r borfa arwain at gyfuniad o: leihau'r angen am brynu dwysfwyd, gwasgaru maetholion yn fwy effeithiol, galluogi ffermwyr i gynyddu eu capasiti o ran nifer yr anifeiliaid, ac yn y pen draw, arwain at fusnesau mwy proffidiol. Dylid nodi hefyd y gallai cost amgylcheddol fod yn gysylltiedig â hyn, e.e. os mae ffocws ar sicrhau'r cynnyrch glaswellt gorau yn arwain at ddefnyddio mwy o wrtaith, neu os mae cynhyrchu silwair yn gynt er mwyn gwella'r ansawdd yn lleihau'r gorchudd ar gyfer bywyd gwyllt. Mae angen ystyried y rhain yn erbyn buddion amgylcheddol o brynu llai o fwydydd a dyfir mewn ardaloedd eraill (e.e. dwysfwyd gyda soia).

Nododd rhai ffermwyr y buddion a welsant wrth newid eu system bori oddi wrth system stocio sefydlog i bori cylchdro, a chaniatáu cyfnodau gorffwys er mwyn i'r glaswellt adfer rhwng pob cyfnod pori, gan gynyddu cynnyrch heb ddefnyddio gwrtaith ychwanegol.

Er mwyn gwella rheolaeth glaswelltir, mae'n debygol y bydd angen rhywfaint o weithgaredd trosglwyddo gwybodaeth mewn llawer o achosion (mae gwasanaethau eisoes yn cael eu cynnig trwy Cyswllt Ffermio); yn yr un modd felly ar gyfer annog pori cylchdro, er bod hyn yn debygol iawn o gael ei rwystro mewn llawer o achosion gan ofynion isadeiledd (cyflenwad dŵr drwy bibellau mewn caeau, ac ati), a llafur o bosibl (mae angen llawer llai o lafur wrth ddefnyddio system stocio sefydlog nodweddiadol).

Ni soniodd yr un o'r ymatebwyr am feddalwedd/rhaglenni cynlluniau rheoli maetholion penodol a all gynorthwyo gyda gwneud penderfyniadau. Roedd ffermwyr a gymerodd ran mewn trafodaethau un i un yn amlwg heb glywed am y rhaglenni hyn a/neu'n anghyfarwydd â nhw. Gallai rhaglenni o'r fath helpu ffermwyr i wneud penderfyniadau mwy gwybodus, ond byddai angen hyfforddiant er mwyn eu defnyddio (nododd un ymatebwr y byddai'n hoffi defnyddio cynllun o ryw fath i'w helpu i wneud penderfyniadau).

*Camau gweithredu sy'n cael eu cyflawni orau drwy weithio ar y cyd gyda chymdogion*

Nid oedd hyn yn arbennig o amlwg yn yr ymatebion a dderbyniwyd i'r cwestiynau a ofynnwyd yn y trafodaethau un i un. Soniwyd yn ystod sesiynau grŵp y gallai rhannu peiriannau fod yn un opsiwn posibl i'w ystyried fel rhan o'r cynllun newydd. Byddai modd prynu offer megis aradr isbridd ac offer awyru fel grŵp er mwyn helpu gyda chywasgiad er enghraifft.

**Bu'r sesiynau grŵp yn trafod camau gweithredu a chymell newidiadau mewn rhagor o fanylder.**
Gofynnwyd i gyfranogwyr y grŵp drafod a mynegi eu barn ar y datganiad a'r cwestiwn canlynol: "Mae rheoli'r pridd yn elfen allweddol o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Bydd lefelau isafswm yn berthnasol ar gyfer rheoli'r pridd. Fodd bynnag, o dan y cynllun newydd, y gobaith yw y bydd ffermwyr yn teimlo cymhelliant i ymgymryd â gweithgareddau a fydd yn cynnal ac yn gwella iechyd, bioleg a strwythur y pridd. **Sut y dylid cymell ffermwyr i gymryd camau gweithredu ac i newid arferion rheoli er mwyn rheoli pridd yn well?"**
Yn ystod y sesiynau grŵp, roedd yn amlwg bod ffermwyr yn credu y dylai cymhelliant fod ar gael i gyflawni gweithgareddau i wella rheolaeth o'r pridd drwy'r cynllun newydd. Soniodd sawl ffermwr am ryw fath o daliad sylfaenol ar gyfer yr isafswm safonau, gydag opsiynau i dderbyn taliadau 'bonws' am gamau gweithredu delfrydol penodol a fyddai'n gwella rheolaeth o'r pridd, yn enwedig pan fo mesurau o'r fath yn costio arian i'r ffermwr. Roedd mwyafrif y ffermwyr a fynychodd y trafodaethau grŵp o'r farn eu bod eisoes yn ymgymryd ag arfer da o ran rheoli pridd, ac yn teimlo y dylid gwobrwyo hyn o fewn y cynllun newydd.

Trafodwyd fod gwybodaeth a chyngor ynglŷn â sut i wella iechyd a bioleg y pridd yn allweddol er mwyn cynorthwyo ffermwyr i newid eu harferion. Soniodd sawl ffermwr eu bod eisoes wedi newid eu harferion yn dilyn cyngor a dderbyniwyd drwy Cyswllt Ffermio, er enghraifft. Yng nghyd-destun y cynllun newydd, nodwyd y dylid darparu'r cyngor hwn ar lefel leol ac ar ffurf grŵp mewn rhai achosion. Dywedodd un ffermwr: "Byddai egluro buddion rheoli pridd yn dda yn well na'i fod yn cael ei orfodi arnom".



CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

Mynegwyd pwysigrwydd parhau gyda gwasanaeth tebyg i Cyswllt Ffermio. Credwyd y byddai llawer mwy o ffermwyr yn treulio mwy o amser ar reoli'r pridd pe byddant yn derbyn addysg bellach ynglŷn â buddion economaidd ac amgylcheddol gwneud hynny. Roedd y sylwadau yn hyn o beth yn cynnwys: "Amlygu buddion cadarnhaol gwasgaru calch, yn hytrach na thalu amdano" ac "os mai cynyddu deunydd organig yw eich targed, gwnewch hynny'n gyraeddadwy i'r ffermwr cyffredin".

Cytunwyd yn eang ar yr egwyddor o brofi'r pridd yn rheolaidd, a dylid annog hyn fel rhan o'r cynllun newydd. Awgrymwyd y dylid gwneud mwy o waith ymchwil ac arbrofi gyda phorfeydd aml-rywogaeth sy'n gwreiddio ar wahanol ddyfnderoedd, a phe byddai hynny i'w weld yn llwyddiannus, dylid cymell ffermwyr i ddefnyddio'r cymysgeddau hadau yn unol â hynny.

Cafwyd ystod o safbwyntiau wrth drafod gaeafu da byw yn yr awyr agored, gyda'r mwyafrif yn cydnabod ei fod yn addas mewn rhai ardaloedd ond nid mewn ardaloedd eraill. Nid oedd ffermwyr am ei ddiystyru'n llwyr, ond soniwyd y dylid cynnal dadansoddiad risg o ryw fath.

Cydnabuwyd fod tyfu indrawn yn cael effaith niweidiol ar erydiad pridd, fodd bynnag, ystyriwyd fod plannu rhywogaethau sy'n tyfi'n gynt, ac arbrofion yn ymwneud â thanhau'r cnwd yn opsiynau i'w hystyried ac i gynnig cymhelliant ar eu cyfer.

Roedd amaeth-goedwigaeth yn fater eithaf dadleuol, gyda chyfranogwyr yn y trafodaethau grŵp wedi'u rhannu'n eithaf cyfartal o ran y rhai a oedd yn ei ystyried fel opsiwn a'r rhai nad oeddent yn ei ystyried. Soniwyd y byddai modd rhannu gwybodaeth bellach ynglŷn â manteision amaeth-goedwigaeth. Roedd sawl un o'r ffermwyr a fu'n cymryd rhan yn mynegi y byddent yn fwy na pharod i blannu mwy o goed ar ardaloedd llai cynhyrchiol o'r fferm, ond roeddent yn amharod i wneud hynny ar eu tiroedd gwell. Dywedodd un "pe byddem yn cael gwybod bod angen i mi blannu 200 o goed newydd ar unrhyw ran o'r fferm, byddai modd gwneud hynny'n rhwydd, ond nid pe byddai rhywun yn dweud wrtha i ble byddai'n rhaid i'r coed hynny gael eu plannu". Mynegodd un arall farn debyg: "Gallai'r mwyafrif o ffermwyr blannu mwy o goed ar eu fferm yn hawdd bob blwyddyn, pe byddent yn cael penderfynu ble i wneud hynny".

Nid oedd effaith chwynladdwyr a phlaladdwyr yn cael ei ystyried yn niweidiol iawn i iechyd y pridd ar y rhan fwyaf o ffermydd glaswelltir gan mai ychydig iawn ohonynt sy'n cael eu defnyddio yn y lle cyntaf. Cydnabuwyd yn ystod trafodaethau fod chwynladdwyr a phlaladdwyr yn cael eu defnyddio'n fwy helaeth ar dir âr, a'r flaenoriaeth yw sicrhau cnwd hyfyw; byddai angen i unrhyw gymhelliant ystyried effaith defnyddio llai ohonynt ar hyfywedd y cnwd.

Cafodd y statws "ffermwr gweithredol" ei godi yn ystod trafodaethau, a nodwyd nad yw'n ofynnol i ffermwyr sy'n gosod eu tir ddangos llawer o weithgaredd yn aml iawn dan y system gefnogi bresennol. "Maent yn tueddu i adael i'r tir ddisgyn yn is na'r lefelau a ddymunir o ran maetholion a pH, a dylai'r cynllun newydd ystyried mynd i'r afael â'r mater".

Soniodd sawl ffermwr hefyd am y diffyg hyblygrwydd gyda chynllun Glastir i ganiatáu ar gyfer y tywydd ac ati, sy'n effeithio ar arferion rheoli. Ceir barn y dylai'r cynllun newydd fod yn hyblyg i ddelio â materion o'r fath wrth gymell newid.

## Cyfathrebu a Therminoleg

Mae'n amlwg y byddai'n llawer gwell gan gyfranogwyr i unrhyw gynllun at y dyfodol fod yn bartneriaeth wirioneddol, yn hytrach na chynllun rhagnodol. Nodwyd hefyd y byddai angen i gynlluniau / mesurau fod yn ymarferol ac yn hawdd i'w gweithredu. Cyfeiriodd nifer at gael mynediad at "berson ymarferol arbenigol" i helpu egluro buddion mabwysiadu dulliau penodol o reoli pridd a maetholion mewn modd ystyrlon.

Cafodd yr angen am bartneriaeth wirioneddol, a thrafodaeth ei fynegi wrth drafod cyfrifoldeb ffermwyr o weithredoedd penodol e.e "Rwy'n teimlo nad yw'r iaith a ddefnyddir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn gywir - mae'r cyfeiriad at "ein tir" yn awgrymu bod pawb yn berchen ar y tir, ond mae'r tir ar fy fferm i'n rhan o fy musnes, ac felly'n gyfrifoldeb i mi. Rwy'n credu y byddai "eich tir" yn ffordd fwy addas o'i eirio. Rydw i eisiau cydweithio'n llawn gyda Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, ar ddiwedd y dydd, fy nghyfrifoldeb i yw rheoli'r tir."

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd yn amlwg bod ffermwyr eisiau trafodaeth ynghylch y rhesymeg dros gyflwyno mesurau penodol, yn hytrach na'u bod yn teimlo bod rhywun yn dweud wrthynt beth i'w wneud (e.e. "Eglurwch y rheolau - beth yw'r rhesymeg a'r rheswm dros bob presgripsiwn i helpu pobl i ddeall"). Byddai hyn yn galluogi cynnal sgwrs ddwy ffordd, sy'n amlwg yn cael ei ystyried yn angenrheidiol.

Roedd yn amlwg iawn bod y berthynas gyda swyddogion y cynllun yn dylanwadu'n sylweddol ar ba mor gadarnhaol yr oedd cynlluniau'n cael eu hystyried gan gyfranogwyr. Nododd rhai bod cyfathrebu â staff ymysg y pethau mwyaf cadarnhaol (e.e. "Roedd llawer o'm dealltwriaeth yn seiliedig ar y berthynas gyda'm swyddog lleol, a oedd yn wych. Mae'r math hwn o gefnogaeth yn agwedd allweddol ar ddarparu llwyddiannus") neu brofiadau negyddol (e.e. "Dim cyfathrebu! Dim ond gadael negeseuon e-bost. Neb yn barod i siarad â ni") o fod yn rhan o gynllun. Mae'n werth nodi - roedd y sylwadau mwy negyddol yn gysylltiedig yn bennaf â Glastir, er bod ychydig o sylwadau'n llai negyddol (e.e. "Rwy'n credu bod Glastir wedi gwneud eu gorau i gyfathrebu trwy drafod a darllen y deunyddiau a gawsom - mae cyfrifoldeb ar y ffermwr i ddysgu hefyd").

Roedd yn amlwg bod ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r gwahanol ffyrdd o ddysgu / cyfathrebu, gan fod gwahanol bobl yn ffafrio gwahanol ddulliau. Fel yr esboniwyd yn gynharach, roedd ffermwyr yn gofyn am gyngor drwy nifer o wahanol ffyrdd ("mae cyfuniad o ddulliau newydd (digidol) a thraddodiadol yn gweithio er mwyn cwmpasu pob oedran a chefndir"). Soniwyd am ddigwyddiadau a drefnwyd trwy raglen Cyswllt Ffermio mewn cyd-destun cadarnhaol ar y cyfan. Roedd materion â chysylltedd digidol gwael yn aml yn rhwystr i wybodaeth.

Nodwyd hefyd bod diffyg staff sy'n siarad Cymraeg, a allai wneud trafodaethau yn sylweddol haws i lawer o fusnesau fferm. Byddai llawer o'r trafodaethau'n cynnwys pwyntiau a allai fod yn gymhleth - byddai gallu sgwrsio dros bwyntiau o'r fath yn eu mamiaith yn debygol o wneud llawer o ffermwyr yn fwy cyfforddus, a gallai arwain at drafodaeth fwy gonest, addysgiadol a chytbwys.





*Beth sy'n bwysig ar gyfer cynllunio adnoddau cynllunio rheoli maetholion (NMP) a chynllunio rheoli tail (MMP)?*

Yn ystod y trafodaethau un i un, nid oedd y term 'Cynllun Rheoli Maetholion' i'w weld yn anghyfarwydd i'r ffermwr. Roedd nifer o'r cyfranogwyr yn cyfeirio at y cynlluniau, a phob un yn nodi sut yr oeddent wedi cael eu defnyddio fel sylfaen i benderfyniadau ynglŷn â gwasgaru gwrtaith a slyri/tail. Efallai nad yw hyn yn adlewyrchu'r diwydiant yn ei gyfanrwydd, ond mae'n gynrychioliadol o'r ffermwyr hynny a gymerodd ran yn y broses gyd-ddylunio.

Efallai mai'r her fwyaf fydd sicrhau bod y ffermwyr yn gweithredu ar eu cynlluniau rheoli maetholion a'u cynlluniau rheoli tail, yn hytrach na deall beth mae'r cynlluniau yma'n eu golygu. Fodd bynnag, nawr bod ffermwyr i'w gweld yn llawer mwy cyfarwydd gyda chynlluniau rheoli maetholion, efallai y bydd mwy o barodrwydd i weithredu ar y cyngor a roddir - cafwyd ymdeimlad o rwystredigaeth fod cynlluniau rheoli maetholion yn rhyw fath o "ymarfer dibwys", yn llai defnyddiol, ac am gost sylweddol (e.e. "[gwneud y] cynllun NMP yn gysylltiedig â'r rhaglen ddigidol - byddai hyn yn well na chynllun ar bapur - mae angen dull mwy ymarferol"). Roedd hyn yng nghyd-destun fod cynlluniau rheoli maetholion yn ddogfennau papur ac yn cael eu paratoi mewn rhai achosion ar gyfer cynlluniau grant sydd wedi mynnu bod angen cynllun o'r fath. Gallai datblygu fformat lle mae'r cynllun rheoli maetholion yn rhoi cyngor i ffermwyr, ond hefyd yn caniatáu ar gyfer croesgyfeirio digidol gyda gwasgaru maetholion ac amser gwasgaru fod yn ddefnyddiol.

Ni holwyd cyfranogwyr yn benodol am "gynllunio adnoddau", ond mae'n ymddangos y bydd y term yma'n llawer llai cyfarwydd iddynt. Er eu bod yn cydnabod bod eu pridd yn adnodd (nododd nifer hynny yn eu hymatebion), byddai'r term "cynllunio adnoddau" yn debygol o edrych yn amwys, ac yn debyg i "jargon". Dylid cefnogi'r defnydd o iaith syml lle bynnag y bo modd - dylid galw pridd yn bridd, a thail yn dail. Mae'r farn hon yn atseinio'r awydd gan gyfranogwyr i sicrhau bod iaith a therminoleg glir yn cael eu defnyddio fel rhan o'r cynllun.

Ceisiodd y sesiynau grŵp annog trafodaeth bellach ynglŷn â Chynllunio Rheoli Maetholion. Bu'r cyfranogwyr yn trafod y canlynol: "Anogir arfer gorau yn y cynllun drwy Gynllunio Rheoli Maetholion (NMP) a Chynllunio Rheoli Tail (MMP). **Pa mor effeithiol allai'r cynlluniau hyn fod o ran gwella rheolaeth o'r pridd ar holl ffermydd Cymru yn eich barn chi?"**
Roedd y rhan fwyaf o'r ffermwyr yn cytuno yn ystod y sesiynau grŵp y gallai Cynllunio Rheoli Maetholion a Thail wella dulliau o reoli'r pridd. Roedd y mwyafrif a gymerodd ran yn y sesiynau grŵp eisoes wedi cwblhau Cynllun Rheoli Maetholion ac yn ymwybodol o fanteision cadarnhaol targedu'r maetholion a ddefnyddir. Dywedodd un: "mae gallu defnyddio'r adborth a geir yn yr NMP yn hanfodol". Dywedodd rhai nad oeddent yn deall y cynllun cyfan yn llawn, ac y byddent wedi elwa o drafodaethau dilynol efallai ymhen 12 mis gyda'r unigolyn a oedd wedi creu'r cynllun ar eu rhan.

Cytunwyd yn gyffredinol bod Cynllunio Rheoli Maetholion yn arfer da, ond mynegwyd barn na ddylid ei wneud yn orfodol i greu cynllun o'r fath i fod yn rhan o'r cynllun. Awgrym arall oedd y gallai ffermwyr gael eu gwobrwyo pe bai ganddynt gynllun a'u bod yn ei ddilyn. Dywedodd nifer o gyfranogwyr y byddai'n rhesymol gofyn i ffermwyr ddangos eu

bod yn dilyn y cynllun rheoli maetholion, ac y byddai modd defnyddio technoleg i wneud hynny. Soniodd dau ffermwr am y system adrodd a ddefnyddiwyd fel rhan o'r Cynllun Cymorth i Newydd Ddyfodiaid fel enghraifft o'r hyn y gellid ei ddefnyddio: "Gallai fod yn bosibl adrodd ar system debyg i'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ddefnyddir gyda'r Cynllun i Newydd Ddyfodiaid". Mae tri Dangosydd Perfformiad Allweddol yn cael eu dewis o gategorïau penodol ac mae angen adrodd arnynt ar ffurf tystiolaeth, lluniau a chofnodion ayb.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pherthnasedd NMP ar bob fferm a phob system ffermio. Roedd un o'r enghreifftiau a roddwyd yn ymwneud â fferm fynydd: "ni fyddai unrhyw ddiben creu cynllun rheoli maetholion gan na fyddai modd newid/cywiro unrhyw beth".

### Sectorau a Materion Rhanbarthol

Oherwydd maint bychan y sampl yn y grŵp, nid yw'n rhwydd gweld a oedd tueddiadau rhwng sectorau, fodd bynnag, cafwyd rhai sylwadau perthnasol o ran rheoli'r pridd a maetholion. Er enghraifft, nododd nifer o ffermwyr llaeth fod storio a defnyddio slyri yn broblem sylweddol iddyn nhw - roedd rhai'n amlwg yn cael eu cyfyngu oherwydd capasiti, gan olygu nad oeddent yn gallu sicrhau'r gwerth gorau posibl drwy wasgaru ar yr adegau gorau er mwyn cadw'r gwerth maethol - roeddent i'w gweld yn cydnabod hyn.

Ychydig o drafodaeth a gafwyd ynglŷn â buddion rheoli glaswellt yn effeithiol, ond pan oedd yn cael ei grybwyll, cyfranogwyr o'r sector llaeth oedd yn gwneud hynny'n bennaf. Bydd hyn yn rhannol o leiaf oherwydd bod gwartheg llaeth yn cael eu trin a'u trafod yn amlach na gwartheg bîff neu ddefaid, gan olygu bod mesur a defnyddio'r borfa'n haws yn gyffredinol.

Roedd ffermwyr o'r sectorau garddwriaethol a thir âr yn wynebu'r broblem ddadleuol o gaeau moel dros y gaeaf (er bod hyn hefyd yn berthnasol i'r ffermwyr llaeth hynny sy'n tyfu indrawn). Nid oedd hyn yn arbennig o amlwg o'r ymatebion, ond mae'r sectorau hyn hefyd yn fwy tebygol o wynebu problemau gyda chywasgiad pridd oherwydd y defnydd o beiriannau mwy.

Nododd nifer o ffermwyr bîff/defaid, yn enwedig y rhai o natur fwy ucheldir, mai ychydig iawn o fewnbynnau gwrtaith yr oeddent yn eu defnyddio. Gallai hyn olygu o bosibl y bydd priddoedd yn brin o P a K (yn ogystal â chalch), felly bydd profi'r pridd yn aml yn annog defnyddio mwy o fewnbynnau yn hytrach na llai. Mae hefyd yn golygu bod llai o gwmpas (ac angen) i "unioni" rheolaeth neu ddiffyg rheolaeth maetholion ar ffermydd o'r fath yn hytrach na ffermydd o natur fwy dwys.

Mae ychydig o grwpiau cyflenwyr llaeth/cyrff achredu bellach nodi'r angen i ddefnyddio cynllun rheoli maetholion (fel yr amlygwyd gan un ymatebwr) - pe byddai gofyniad o'r fath yn cynyddu, cafwyd barn y byddai ffermwyr yn ddieithriad yn gweld mwy o atyniad ar gyfer mabwysiadu cynllun o'r fath fel rhan o unrhyw gynllun at y dyfodol.



CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

Roedd yn amlwg o nifer o'r ymatebion bod pwysigrwydd cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd blaenorol yn dylanwadu i wahanol raddau ar hyfywedd ffermydd, gan ddibynnu ar y sector - roedd ffermwyr bîff/defaid ar yr ucheldir yn nodi eu pwysigrwydd yn benodol, ond roedd ffermydd o natur fwy dwys/cynhyrchiol yn aml yn ei chael yn anodd gweld bod y gyfradd dalu'n cyfateb (heb sôn am ragori ar) unrhyw "golledion incwm", er, roedd grantiau cyfalaf bron iawn bob amser yn cael eu nodi mewn ffordd gadarnhaol ar draws pob math o fferm.

Mae ymatebion fel rhan o'r prosiect hwn wedi nodi bod yr atyniad ar gyfer ymuno â chynllun yn ddibynnol ar nifer o ffactorau, ond yr apêl economaidd fydd y ffactor pwysicaf. Mae'r sector a rhanbarth daearyddol/math o fferm yn dylanwadu ar hyfywedd ariannol ffermydd. Yn ei dro, bydd hyn yn dylanwadu ar ba mor ddeniadol fydd unrhyw gynllun newydd.

### Ystyriaethau ar gyfer rofi pridd

Gofynnwyd i gyfranogwyr mewn sesiynau grŵp am eu barn ynglŷn â phrofi'r pridd fel rhan o'r cynllun. Y datganiad a'r cwestiwn canlynol oedd sylfaen y drafodaeth: "Mae'r cynllun yn ystyried trefn brofi flynyddol ar gyfer priddoedd i olrhain y newidiadau mewn maetholion pridd, gwytnwch ecosystemau a nodweddion ffisegol y pridd. Mae Llywodraeth Cymru yn agored i ddulliau a all gynnwys asesiadau gweledol, profion ar y fferm, anfon samplau at labordai, technoleg synwyryddion o bell ac eraill. **Beth ddylai Llywodraeth Cymru ei ystyried wrth ddatblygu trefn flynyddol ar gyfer profion?"**
Cafwyd consensws cyffredinol fod cynnal profion bob blwyddyn yn rhy aml. Roedd mwyafrif y ffermwyr yn cytuno bo profi'r pridd bob 3 blynedd yn ddigon aml gan ei fod yn cymryd amser i gywiro lefelau pH. Fodd bynnag, gallai profi rhan o'r fferm bob blwyddyn fod yn ddefnyddiol; roedd mwyafrif y ffermwyr yn ystyried hyn yn arfer da a gallai gael ei ystyried yn rhan o'r cynllun.

Cytunodd sawl ffermwr y byddai asesiad gweledol blynyddol o strwythur y pridd yn ddefnyddiol - i gadw llygad am gywasgiad ac ati. Soniwyd am yr hen lyfryn Asesu Pridd ar gyfer traws-gydymffurfio fel ffordd o asesu pridd am ddifrod ac ati'n flynyddol. Trafodwyd technoleg hefyd fel ffordd o adrodd ar iechyd a ffrwythlondeb y pridd, a nododd llawer o ffermwyr y byddai angen i unrhyw gynllun newydd fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i ffermwyr anfon y wybodaeth ofynnol o'u ffonau clyfar.

Cytunwyd bod gwobrwyo neu gymell ffermwyr am welliannau i iechyd y pridd yn syniad da. Fodd bynnag, trafodwyd hefyd y bydd llawer o ffermydd yng Nghymru lle na fyddai hyn yn bosibl. Ni ddylid cosbi ffermwyr nad ydynt yn gallu gwella iechyd y pridd fel rhan o'r cynllun newydd. Y consensws oedd ei bod hi'n anodd gosod targedau ar gyfer gwella deunydd organig y pridd neu'r pH, er enghraifft, mewn nifer o ardaloedd oherwydd rhesymau topograffeg/hinsawdd/cynefinoedd.

Bu trafodaeth bellach wedyn yn canolbwyntio ar brofion labordy, gyda'r datganiad a'r cwestiwn canlynol yn sylfaen i'r drafodaeth: "Mae'r cynllun hefyd yn ystyried dadansoddiad labordy proffesiynol er mwyn sicrhau ansawdd a graddnodi'r profion ar y fferm. Gallai hyn fod ar ddechrau'r contract ac wrth adnewyddu, neu oddeutu bob 5 mlynedd". Amlinellir isod gwmpas posibl ar gyfer y profion, gan gynnwys rhai, ond nid pob un o'r rhain:

- crynodiadau macro faetholion - nitradau, ffosffadau, potasiwm ayb.
- crynodiadau micro faetholion – copr, sinc, molybdenwm ayb
- pH
- cyfradd ymdreiddiad
- deunydd organig pridd (carbon)
- bioamrywiaeth – bacteria, ffwng, organebau bach a mawr, cyfrif pryfed genwair
- cywasgu / ymwrthedd offer mesur treiddiad
- pyllau prawf ar gyfer gwerthuso strata pridd

"Beth yw eich barn ar yr uchod?"

Roedd y mwyafrif yn cytuno yn ystod y sesiynau grŵp y byddai'n ddefnyddiol cynnal profion mwy manwl bob hyn a hyn, gan gynnwys y micro-faetholion ayb. Cydnabuwyd y byddai hyn yn ddrud i'w gyflawni ar bob fferm a fyddai'n cymryd rhan, felly mae'n bosibl y byddai sampl o'r caeau ar ddechrau'r contract ac ar y diwedd yn gyfaddawd.
Trafodwyd y byddai profion ar y fferm cael eu cyfyngu i asesu cywasgiad a pH, a byddai'r holl brofion eraill yn cael eu gwneud yn y labordy, byddai angen sicrhau nad yw ymdrechion yn cael eu dyblygu.

Ystyriwyd bod cael dadansoddiad manwl ar ddechrau'r cynllun yn feincnod y gellid adeiladu arno. Gallai profi ar ddechrau'r cynllun a gofyn am welliannau erbyn blwyddyn 5 fod yn ffordd o gymell, ond ni fyddai'n bosibl i bob fferm. Byddai angen i'r cynllun ystyried y rhwystrau ar rai ffermydd rhag gwella'r pridd. Trafodwyd rheoliadau AEA yn y cyd-destun hwn hefyd.

Datblygu Archif Genedlaethol ar Iechyd Pridd

Trafodwyd y pwnc hwn hefyd yn ystod sesiynau grŵp yn ôl y datganiad a'r cwestiwn canlynol: "Gallai'r cynllun ddefnyddio canlyniadau profi a dadansoddi pridd i ddatblygu archif genedlaethol ar iechyd pridd, sy'n cynrychioli allbwn sylweddol. Bydd datblygu archif genedlaethol ar iechyd pridd yn helpu i gynllunio camau'r cynllun yn y dyfodol ac yn darparu tystiolaeth o lwyddiant, e.e. ar gyfer nodau cenedlaethol i ddal a storio carbon yn y pridd. Byddai hefyd yn ffynhonnell ddata ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygu academaidd i gefnogi ffermio yng Nghymru".

"Beth yw eich barn am greu a chyfrannu at archif o'r fath?"

Byddai'r holl ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y sesiynau grŵp yn hapus i gyfrannu at archif o ganlyniadau pridd, ac nid oedd ganddynt unrhyw broblemau â gwneud hynny. Roedd nifer yn awgrymu neu'n cytuno y byddai'n ddefnyddiol iawn gallu cael mynediad at y data hwn drwy borth ar-lein neu ap. Soniodd un ffermwr am y cyfle i fapio pob fferm o ran math o bridd ac ati, gan ddefnyddio technoleg LIDAR o bosibl a allai ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol iawn i ffermwyr ac i'r Llywodraeth.





## 8.2 Rheoli Cynefinoedd (Gwytnwch Ecosystem)

Gofynnodd y prosiect am farn 68 o ffermwyr ynglŷn â chynefinoedd a'u rheolaeth ar sail trafodaethau un i un. Yn dilyn y trafodaethau un i un, cafwyd trafodaeth fanylach ynglŷn ag agweddau penodol ar reoli cynefinoedd a gwytnwch ecosystemau a gytunwyd ymlaen llaw gyda Llywodraeth Cymru yn ystod 7 sesiwn grŵp. Nod yr elfen rheoli cynefinoedd (gwytnwch ecosystem) oedd archwilio'r canlynol:

- dulliau rheoli presennol, y camau gweithredu a gyflawnir gan ffermwyr i well rheolaeth;
- eu barn ynglŷn â chynlluniau presennol a chynlluniau'r gorffennol o ran cadwraeth a rheoli cynefinoedd; a
- barn ynglŷn â sut y gallai cynllun yn y dyfodol helpu i amddiffyn a gwella bioamrywiaeth ar ffermydd.

Trosolwg cyffredinol o'r trafodaethau un i un a'r trafodaethau grŵp


1. **Mae tir yn darparu cynefinoedd a chynhyrchiant.** Roedd gwahaniaeth pendant rhwng y ffermwyr o ran y ffordd yr oeddent yn meddwl am eu tir; roedd y mwyafrif yn ystyried y tir 'fel un', yn darparu cynefin yn ogystal â chynhyrchiant.
2. Roedd ffermwyr yn arbennig o **barod i dderbyn y syniad o gynhyrchu bwyd a nwyddau amgylcheddol eraill ar y tir, lle gellir gwneud hyn mewn ffordd ategol,** yn hytrach na'r naill neu'r llall. Mae'r ymatebion yn dangos y byddai ffermwyr yn croesawu cyfleoedd o'r fath.
3. **Mae angen gwybodaeth fanylach ar ganlyniadau'r cynllun.** Nid oedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y gallent ymateb yn adeiladol i ymyriadau cynllun yn y dyfodol ar hyn o bryd gan nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth. Er eu bod yn cytuno â'r cysyniad o newid, byddai angen gwybodaeth fanwl ar agweddau ymarferol yr ymyrraeth sy'n berthnasol i'w systemau ffermio eu hunain. Roedd y dyhead i Lywodraeth Cymru weithio gyda ffermwyr yn hytrach na dweud wrthynt beth i'w wneud yn amlwg.
4. **Mae ffermwyr yn hyderus eu bod eisoes yn meddu ar sgiliau neu y gallant ddatblygu'r sgiliau gofynnol** i reoli cynefinoedd yn effeithiol yn ddibynnol ar dderbyn arweiniad a chyfarwyddyd clir.
5. **Mae'r diffiniad o 'dalu yn ôl deilliannau' yn peri ansicrwydd** yn enwedig o'i gymharu â 'thalu yn ôl canlyniad', sy'n fwy penodol. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch sut y byddai taliad o'r fath yn gweithio'n ymarferol, yn enwedig gan fod deilliannau cynefinoedd yn gallu cymryd sawl blwyddyn i ddod i'r amlwg.
6. **Anogir defnyddio technoleg ar gyfer monitro ac adrodd fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy**, ond mae angen sicrhau darpariaeth ar gyfer systemau traddodiadol lle bo mynediad a'r defnydd o dechnoleg yn gyfyngedig.
7. **Mae ffermwyr yn teimlo y dylent gael eu gwobrwyo am y gwaith da maen nhw eisoes yn ei wneud i ddiogelu cynefinoedd**, nid eu cosbi. Cafwyd beirniadaeth o Gynllun Glastir, ynghyd â theimlad y dylai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy edrych ar y gwersi a ddysgwyd fel rhan o gynlluniau blaenorol. Mae angen i'r cyllid o fewn y cynllun newydd fod yn ddigonol neu ni fydd llawer o ffermwyr yn cofrestru.

8. Awgrymwyd y gallai cefnogaeth at y dyfodol ganolbwyntio ar **gynorthwyo ffermwyr i gynnal a gwella ansawdd ardaloedd gwarchodedig, nid eu cosbi** (naill ai drwy gosbau ariannol uniongyrchol neu drwy ddisgwyl i ffermwyr amsugno costau lleihad mewn cynhyrchiant a mwy o waith rheoli).
9. Byddai angen cyfathrebu pellach er mwyn **datblygu cynllun rhanbarthol** i gyd-fynd â Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru gan fod ymwybyddiaeth ffermwyr yn isel iawn. Dim ond 9% o'r ymatebwyr oedd yn gyfarwydd â manylion y Datganiadau Ardal hynny.

**Dulliau presennol**

Roedd gwahaniaeth pendant rhwng y ffermwyr o ran y ffordd yr oeddent yn meddwl am eu tir - roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn ystyried y tir 'fel un', yn darparu cynefin yn ogystal â chynhyrchiant. Mynegwyd y safbwyntiau hyn yn bennaf gan ffermydd bîff/defaid gyda mewnbwn isel; tra bod lleiafrif o'r systemau mwy dwys, sef llaeth, tir âr a garddwriaeth gan fwyaf, yn cyfleu meddylfryd ychydig yn wahanol, lle'r oedd darnau o dir yn cael eu hystyried yn bennaf ar gyfer cynhyrchiant neu gynefin, ac nid y ddau beth gyda'i gilydd o reidrwydd. Rhaid pwysleisio serch hynny mai barn y lleiafrif oedd hyn ar y cyfan. Yn wir, fel y gwelir yn Ffigwr 13, roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn y drafodaeth un i un yn ystyried bod eu cynefin yn "ased gwerthfawr" o safbwynt personol ac yn ehangach i gymdeithas (sgôr 5).

Ffig 13





Gofynnwyd i ffermwyr pa mor dda yr oeddent yn meddwl eu bod yn rheoli eu 'tir cynhyrchiol'. Mae cyd-destun yn bwysig yma, ac efallai bod diffyg cyd-destun yn y cwestiwn - gallai fod wedi cael ei ddehongli'n wahanol iawn gan ymatebwyr - o safbwynt cynhyrchiant yn unig (lle mae'r cynnyrch yn bwysicach na phopeth arall), i ystyriaeth fwy cyfannol, lle mae bioamrywiaeth a nwyddau amgylcheddol hefyd yn cael eu hystyried. Roedd amwysedd o'r fath yn amlwg yn yr atebion a gafwyd yn ddiweddarach. Fodd bynnag, rhoddodd mwyafrif y ffermwyr sgôr o 3 a 4 i'w hunain, lle'r oedd 5 yn cyfateb i "reoli'n dda".




CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

Ffig 14




Fodd bynnag, nododd nifer helaeth o'r cyfranogwyr eu bod yn ystyried bywyd gwyllt wrth benderfynu sut i reoli eu tir cynhyrchiol - dim ond canran fechan iawn a roddodd y ddau sgôr isaf (1 = "dim o gwbl"), ond roedd bron i chwarter yr ymatebwyr wedi ei nodi fel eu "prif ystyriaeth" (sgôr o 5).

Ffig 15




O ran eu canfyddiad o effeithiau eu tir cynhyrchiol ar yr amgylchedd o'u cwmpas, cafwyd ymateb cymysg, a oedd yn aml yn ddibynnol ar y math o fferm. Er enghraifft, nododd nifer o ffermydd bîff/defaid eu bod yn defnyddio ychydig iawn o wrtaith, a'u bod yn gweithredu system eang gyda mewnbynnau isel, felly roedd yr effeithiau'n cael eu hystyried yn isel neu'n ddibwys.

Roedd yn amlwg bod rhai o'r ymatebwyr yn ymfalchïo yn y fioamrywiaeth a'r bywyd gwyllt a oedd yn bresennol ar eu fferm, gan gyfeirio atynt sawl gwaith yn ystod y trafodaethau. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn bod eu heffeithiau'n gadarnhaol - bod eu system ffermio yn atgyfnerthu/gwella'r amgylchedd, yn hytrach na thynnu oddi arni.

Darparodd ymatebwyr restr helaeth iawn o fesurau y maent wedi'u gweithredu sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth. Roedd y rhain yn cynnwys: "cadw tir yn daclus", tyfu porfeydd cymysg, tyfu cnydau mewn cylchdro, tyfu cnydau sy'n darparu gorchudd gaeaf (e.e. swêds), adeiladu blychau adar ac ystlumod, torri gwrychoedd mewn cylchdro, lleihau'r defnydd o chwynladdwr trwy ddefnyddio "weed wiper" a thopwyr, plygu gwrych, defnyddio mwy o feillion, defnyddio ychydig iawn o wrtaith os o gwbl, torri caeau ar ôl i'r planhigion flodeuo, plannu coed a gwrychoedd (gyda ffensys dwbl), ail-adeiladu waliau, cynyddu niferoedd pryfed/chwilod y dom, creu pyllau, ffensio cyrsiau dŵr a phori ar ddwysedd addas ar adegau penodol i wella'r amrywiaeth o flodau. Mae'n ymddangos bod nifer o'r mesurau hyn wedi cael eu cyflwyno fel rhan o gynlluniau amaeth-amgylchedd presennol neu flaenorol, ond roedd nifer o'r mesurau eraill yn amlwg wedi cael eu gwneud yn annibynnol.

Nododd rhai ymatebwyr hefyd "mae'n bwysig bod camau gweithredu hanesyddol yr ydym ni wedi'u cyflawni dros y 30 mlynedd diwethaf yn cael eu gwerthfawrogi a'u cyfrif fel rhan o'r system newydd - nid sychu'r llechen yn lân a dechrau eto". Roedd hyn yn cynnwys costau cynnal a chadw ar gyfer ffensys dwbl, waliau cerrig, ac ati.

Allan o 68 a gymerodd ran mewn trafodaethau un i un, roedd llai na hanner dwsin o ymatebwyr yn fwy parod i feddwl/cydnabod bod eu systemau'n effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd o'u cwmpas, gan nodi'r defnydd o fewnbynnau'n benodol. Er hynny, roedd ymatebwyr yn bennaf o'r farn bod y rhain yn cael effaith "niwtral", a oedd yn "cydbwyso". Ar ben hynny, roedden nhw hefyd o bryd i'w gilydd yn gweld cyfle i'r tir ddarparu cynhyrchiant a chynefinoedd law yn llaw (e.e. "Pori cylchdro - mae pob cae ar gam gwahanol o dwf, porfeydd o uchder gwahanol, blodau, gorchudd tir ar gyfer mamaliaid bychain ayb. Yn fwy o sgil gynnyrch system gynhyrchiol, ond yn creu brithwaith serch hynny").

Nid oedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod tir cynefin a thir cynhyrchiol yn annibynnol ar ei gilydd, er ei bod yn amlwg bod ymatebwyr yn rheoli eu tir yn bennaf ar gyfer cynhyrchu, ac "mae'r tir yn frith o ardaloedd llai cynhyrchiol ar fferm sy'n gweithredu'n economaidd"; e.e. "rydym ni'n defnyddio porfeydd wedi'u gwella a rhygwellt mewn caeau, ond unwaith eto, mae'r caeau wedi'u hamgylchynu gyda choridorau bywyd gwyllt - rhwydwaith o goridorau bywyd gwyllt yn rhedeg drwy'r fferm - mae'r caeau yn berchen i mi, er mwyn i mi allu cynhyrchu fy nghynnyrch, ond mae'r ffiniau a'r coridorau yno er mwyn i'r bywyd gwyllt ffynnu. Fy mhrif gynefinoedd yw fy ngwrychoedd"). I lawer, roedd hyn yn caniatáu iddynt sicrhau cydbwysedd ar eu ffermydd ar y cyfan (e.e. "Mae tir cynhyrchiol yn fy ngalluogi i gael cynefinoedd dynodedig ar (dir anghynhyrchiol).")

Ar y cyfan, roedd y berthynas gadarnhaol rhwng ffermio a'r amgylchedd yn gysyniad a oedd yn cael ei gyfleu'n gryf iawn yn ystod trafodaethau. Roedd ffermio yn amlwg yn cael ei ystyried yn ffordd o ddarparu nwyddau cyhoeddus, gyda nifer o gamau gweithredu'n cael eu gwneud ar ffermydd yn benodol er budd yr amgylchedd.

O ran edrych tua'r dyfodol a chynlluniau arfaethedig, nid oedd gwrthwynebiad cyffredinol i gyflawni mesurau cadarnhaol pellach i wella darpariaeth cynefinoedd, pe bai'r cynllun yn apelio. Fel sy'n cael ei egluro mewn man arall, roedd hyn yn aml, ond nid bob amser, yn ymwneud â'r taliadau a fyddai ar gael mewn perthynas â'r gwaith oedd dan sylw. Yn hytrach na diffyg diddordeb, barnwyd y gallai diffyg arian fod yn rhwystr mewn





gwirionedd; e.e. nododd un ymatebwr y byddai angen "cyllid llawn (100%) ar gyfer rhai o'r ymyriadau hyn, e.e. mae grantiau 70% wedi ein dal yn ôl rhag cyflwyno gwaith ecolegol cadarnhaol iawn. Ni allwch wagio eich cyfrif banc er mwyn gwneud rhywbeth nad yw'n sicrhau unrhyw arian. Rydw i'n barod i ildio tir er mwyn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol (am nifer o ddegawdau o bosibl), ond yn gyfnewid am hynny, mae'n rhaid i'r ymyrraeth fod wedi cael ei ariannu'n llawn)".

Fodd bynnag, nododd llawer o ymatebwyr nad oedd digon o fanylion am y cynllun newydd ar hyn o bryd i ddarparu adborth/sylw manwl - roedd y cyfweliadau felly'n ymwneud yn bennaf â chasglu barn fwy cyffredinol am gynefinoedd a rheoli ffermydd.

*Sut mae'r cysylltiad rhwng ecosystem a gwytnwch fferm yn cael ei ystyried?*

Dim ond nifer fach o ymatebwyr a amlygodd yn uniongyrchol y cyswllt rhwng gwell cynefin/bioamrywiaeth a gwytnwch cyffredinol eu ffermydd; e.e. gwerth gwahanol ddyfnderoedd gwreiddio drwy dyfu porfeydd llawn bioamrywiaeth er mwyn cynyddu cynnyrch ac ymdreiddiad dŵr, ychwanegu deunydd organig at briddoedd i wella gwytnwch yn ystod cyfnodau o sychder a thywydd gwlyb.

O ran gwytnwch economaidd, nododd nifer o ymatebwyr y byddai ffermwyr yn ymateb yn gadarnhaol pan fo cynlluniau'n gwneud synnwyr busnes. Roedd hyn yn amlwg yn y cwestiwn a ofynnwyd ynglŷn â'r mathau o ymyriadau sydd eu hangen i addasu arferion ffermio i sicrhau mwy o ganlyniadau amgylcheddol - roedd 75% o'r ymatebion yn rhestru "gwobr ariannol", ac roedd yr ail ateb fwyaf poblogaidd yn ymwneud ag arbedion costau. Fel y nodwyd gan un ymatebwr, mae'r pwysau i ad-dalu benthyciadau, yn enwedig i ffermwyr sy'n dechrau ar eu taith, yn un o'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar y ffordd y maen nhw'n rheoli eu ffermydd, ac mae cynnyrch yn gysylltiedig yn agos iawn gydag elw ar y rhan fwyaf o ffermydd. Felly, yn aml, ni fydd mesurau a allai gyfyngu ar gynnyrch yn apelio, heblaw bod cyfraddau talu'n cael eu hystyried yn fwy na digonol.

Nododd rhai ymatebwyr fod bioamrywiaeth wedi eu cynorthwyo gyda'i menter arallgyfeirio - roedden nhw'n ystyried ei fod yn "ychwanegu gwerth". Roedd ychydig wedi cymryd camau i hybu nifer y rhywogaethau peillwyr mewn ymgais i helpu gwytnwch ecosystem. Roedd "clytwaith o ffermydd bach a chanolig" hefyd yn cael ei ystyried yn ddangosydd ar gyfer gwytnwch yn hytrach na nifer llai o ffermydd mwy, ac "mae angen eu cymell".

*Beth ellir ei wneud i roi hwb i boblogaethau gwyllt sy'n bwyta plâu, megis adar, ystlumod neu bryfed megis y fuwch goch gota?*

Nid oedd hyn yn amlwg iawn yn yr ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau a holwyd yn ystod y cyfweliadau un i un, a chafodd y pwnc ei drafod yn fwy penodol gyda chyfranogwyr yn y sesiynau grŵp.

Soniodd un ymatebwr yn ystod trafodaethau un i un yn benodol ei fod wedi adeiladu blychau tylluanod, a allai gynorthwyo i reoli cnofilod fferm (soniodd eraill am flychau adar, er nad oeddent yn nodi ar gyfer pa rywogaeth). Soniodd tri ymatebwr arall yn benodol am flychau ystlumod yr oeddent wedi'u hadeiladu.

Fel rhan o'r sesiynau grŵp, rhoddwyd ystyriaeth i'r datganiad a'r cwestiynau isod:

"Mae ysglyfaethwyr naturiol ar gyfer llawer o'r plâu sy'n effeithio ar gynhyrchiant amaethyddol (e.e. buwch goch gota, wenoliaid, tylluanod ac ystlumod), ond yn anffodus mae niferoedd rhai o'r rhywogaethau hyn wedi gostwng yn raddol dros y degawdau."

- Pa arferion y gellid eu defnyddio ar y fferm i hybu'r poblogaethau hyn, a pha arferion allai fod angen eu lleihau neu eu lliniaru er mwyn osgoi niwed pellach iddynt?
- Sut allech chi gyflawni hyn yn ymarferol?
- Pa gamau gweithredu penodol ydych wedi'u gweld yn gweithio, neu a hoffech eu gweld yn cael eu cyflwyno i hybu'r poblogaethau hyn?

Bu'r drafodaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:

**Creu a Chynnal a Chadw Cynefinoedd ar gyfer Ysglyfaethwyr Naturiol**

Mynegwyd barn gyffredinol, os gellir darparu ffynhonnell fwyd a lle i fyw, y byddant yn ffynnu: "Mae'n ymwneud â darparu'r cynefin, nid targedu rhywogaethau unigol". Mae darparu cynefin yn golygu nad yw ffermwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwthio i ddefnyddio pob modfedd o'r tir i gynhyrchu cymaint â phosibl. Nodwyd ei bod hi'n bwysig i beidio â gadael y sylfaen economaidd ar gyfer cynhyrchu bwyd i'r farchnad yn unig. Mae angen cyllid digonol a hael hyd yn oed i annog ffermwyr i greu/cynnal a chadw cynefinoedd o ansawdd uchel iawn (e.e. dolydd gwair traddodiadol yn cael eu cynaeafu'n hwyr, pyllau, gwrychoedd tal) ar ffermydd ("anelu at greu ardaloedd gwych ar bob fferm"), wedi'u gosod o fewn daliadau mwy cynhyrchiol. "Mae angen iddo fod yn ddigon o gymhelliant i sefydlu a chadw'r cynefinoedd hyn ar eich tir, nid yn daliad am 'golli incwm' yn unig".

Pwysleisiwyd pwysigrwydd gwrychoedd a rheoli gwrychoedd ynghyd â phwysigrwydd cynefinoedd cymysg/mosaig/tirweddau. Daeth un cyfranogwr i'r casgliad bod creu cynefinoedd (glannau chwilod, pyllau ac ati) yn cymryd amser, arian a thir, ac nid yw'n gwarantu canlyniadau cadarnhaol. Mae angen taliadau ar gyfer 'ymchwil' arbrofol, heb unrhyw warant o ganlyniadau neu barhad.

Rhaid i'r cynefinoedd sy'n cael eu creu fod yn gysylltiedig â'r tebygolrwydd y bydd y rhywogaeth y mae'r cynefin yn cael ei greu ar ei gyfer yn byw ac yn ffynnu yn y cynefin (uchder, tirwedd o amgylch, ffynonellau bwyd cyfagos, cystadleuaeth ayb). "Nid oes unrhyw ddiben adeiladu blwch ar gyfer tylluan wen ar hen Luest, ni fyddant yn symud i mewn, byddai'n well ei osod yn rhywle ymhellach i lawr y dyffryn". Roedd yr ymyriadau tebyg i focsys nythu o dan Tir Gofal a Glastir yn cael eu hystyried yn "ymarferion dibwys a drud" yn hytrach na gwelliannau ymarferol gan rai - ychydig iawn o ffermwyr oedd yn nodi bod y rhywogaethau dymunol neu a dargedwyd wedi dod i fyw yno, gyda rhai'n nodi bod mwy o frain wedi dod yno i fyw, gan arwain at effeithiau negyddol. Dywedodd rhai bod blychau nythu yn ffordd dda o godi ymwybyddiaeth, hyd yn oed os nad oeddent o fudd ymarferol.

**Agwedd tuag at ysglyfaethwyr naturiol**

Nid oedd pob 'ysglyfaethwr naturiol' yn cael ei ystyried yn bositif gan fod rhai ysglyfaethwyr yn effeithio'n negyddol ar rywogaethau a systemau amaethyddol eraill, yn enwedig pan fyddant mewn safle rhy ddominyddol ar y dirwedd neu'r gadwyn fwyd, neu os ystyrir fod gormodedd ohonynt. Nodwyd yn gyson fod moch daear yn ffitio i'r categori hwn (lleihad mewn niferoedd draenogod, adar sy'n nythu ar y ddaear, TB buchol, cnydau tatws) ac fe amlygwyd yr angen dybryd i fynd i'r afael â strategaethau TB buchol.

Mynegwyd amheuaeth ynghylch pwysigrwydd 'ysglyfaethwyr naturiol' mewn systemau pori da byw eang, yn ogystal â phryder y byddai'r lle sydd ei angen i greu cynefinoedd gyda digon o ysglyfaethwyr buddiol mewn systemau âr yn effeithio ar gynhyrchiant.

Amlygwyd gwrthdaro â blaenoriaethau eraill hefyd (e.e. mae gorchuddio storfeydd slyri/tail at ddibenion ansawdd dŵr yn lleihau nifer y pryfed ar iardiau fferm, ac felly'n lleihau ffynhonnell bwysig o fwyd ar gyfer wenoliaid ac ystlumod. Nodwyd hefyd fod gwaredu stoc marw oddi ar y fferm hefyd yn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer rhywogaethau a fyddai'n draddodiadol yn elwa o fwydo ar y carcasau, o bryfed i adar ysglyfaethus, i famaliaid).

Nodwyd fod pwysau ar ffiniau (o ganlyniad i ddiffyg cynnal a chadw) ar dir nad yw'n cael ei ffermio (yn enwedig tir cyhoeddus (e.e. ystâd goedwigaeth CNC) a bod yr ysglyfaethu cysylltiedig ar fywyd gwyllt a da byw o ganlyniad i ffermio ar y ffin gyda thir o'r fath yn achosi pryder.

Daeth trafodaeth grŵp i'r casgliad na all ffermwyr reoli'r effeithiau oddi ar y fferm ar rywogaethau mudol yn benodol sy'n effeithio ar daliadau 'ar sail canlyniadau' sy'n gysylltiedig â phresenoldeb/cynnydd rhywogaethau.

**Hybu Poblogaethau Ysglyfaethwyr Naturiol**

Mynegwyd amheuaeth a phryder yn ystod sesiynau grŵp ynglŷn ag ail-gyflwyno rhywogaethau, yn enwedig o ran ysglyfaethwyr. Roedd hyn yn bennaf oherwydd effaith canlyniadau anfwriadol megis: "Ydyn ni'n siŵr na fydd bele'r coed yn dechrau lladd gwiwerod coch unwaith y byddant wedi lleihau poblogaeth gwiwerod llwyd a bod niferoedd bele'r coed yn cynyddu? Beth am ysglyfaethu nythod adar?"

Byddai ffermwyr yn disgwyl i unrhyw ail-gyflwyno rhywogaethau gael ei wneud "yn seiliedig ar dystiolaeth, yn ymatebol, yn dilyn ymgynghoriad llawn, wedi'i fonitro'r eithriadol o dda, a gyda strategaeth ymadael glir a gweithredadwy" o leiaf. Roedd disgwyliad hefyd y dylid cynnig mecanweithiau iawndal a thaliadau cadarn, pendant a hirdymor am unrhyw golledion o ganlyniad i ail-gyflwyno (e.e. bele'r coed a dofednod, eryrod ac ŵyn).

Bwriad y drafodaeth oedd canolbwyntio ar gyflwyno adar, ystlumod ac ati a gofyn am farn ynglŷn ag ysglyfaethu rhywogaethau plâu yn naturiol. Roedd y sgyrsiau hefyd yn naturiol yn trafod cyflwyno cigysyddion mawr. Cafwyd gwrthwynebiad clir i ail-gyflwyno ysglyfaethwyr mawr - dim ond un grŵp a awgrymodd "bod lle i drafod bob amser", ond nid oedd y grŵp yn nodi p'un a fyddent yn ystyried cyflwyno ysglyfaethwyr mawr fel rhywbeth cadarnhaol neu negyddol. Awgrymwyd ei fod yn amlwg y byddai ysglyfaethwyr mawr yn bwyta da byw ac anifeiliaid anwes, ac na fyddai iawndal ariannol yn ddigon i fynd i'r afael â'r holl broblemau a grëir, yn enwedig problemau emosiynol. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth eang ond gofalus i ailgyflwyno bele'r coed i reoli gwiwerod llwyd (ynghyd â saethu a thrapio) gyda'r rhybudd fod angen monitro ac ymyrraeth ofalus, barhaus a manwl ar effeithiau ar rywogaethau eraill os bernir bod angen hynny.

Cafwyd barn y dylid trin unrhyw drafodaeth gyhoeddus ynglŷn â niferoedd ysglyfaethwyr, annog neu ail-gyflwyno rhywogaethau yn ofalus iawn. Ar ben hynny, cydnabuwyd rôl

bodau dynol yn y gadwyn ysglyfaethwyr (e.e. “Rydym yn ysglyfaethwyr lefel uchel” “Po fwyaf yr ydym ni’n camu’n ôl, y mwyaf yw’r anghydbwysedd yr ydym ni’n ei greu”. Mynegwyd hefyd fod angen newid yng nghanfyddiad y cyhoedd o rôl bodau dynol mewn rheoli ysglyfaethwyr.

*Mae amrywiaeth o fewn biosffer y pridd yr un mor bwysig â’r amrywiaeth uwchben y ddaear. Mae microbau yn cynnal organebau bach ac oddi yno maent yn ffurfio sylfaen cadwyni bwyd llawer o rywogaethau mawr. Bydd ystyriaeth ymwybodol o fywyd y pridd yn rhan bwysig o'r prosesau gwneud penderfyniadau wrth ddatblygu gwytnwch ecosystem.*

Ni archwiliwyd hyn yn benodol gyda'r cyfranogwyr yn y sesiynau un i un - ychydig iawn o drafodaeth a gafwyd yn benodol ar briddoedd. Fodd bynnag, fel yr oedd yn fwy amlwg yn yr ymatebion a gafwyd o drafodaethau un i un a oedd yn canolbwyntio ar briddoedd, mae cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r rôl ganolog sydd gan briddoedd fel conglfaen ar eu ffermydd, yn enwedig yng nghyd-destun cynhyrchiant.

O ystyried bod cemeg pridd a phriodweddau ffisegol gymaint yn haws i'w hasesu a bod unrhyw ddylanwad cadarnhaol yn fwy mesuradwy (e.e. gwasgaru calch i godi lefel pH, a chywiro cywasgiad trwy awyru’r pridd yn y drefn honno), nid yw’n syndod bod ffermwyr yn rhoi mwy o sylw i’r rhain nac i fioleg y pridd. At hynny, nid yw profion pridd safonol yn rhoi unrhyw arwydd o iechyd/statws biolegol pridd, na chyngor ar sut i'w wella.

Cyfeiriodd nifer fach o ffermwyr (tua phump) at bwysigrwydd bioleg y pridd mewn pridd iach sy'n gweithredu'n dda; gyda rhai yn nodi'r dylanwad cadarnhaol y gall addasiadau organig (yn enwedig tail) ei gael ar boblogaethau bacteriol a ffwngaidd y pridd. Soniodd un ymatebwr sut yr oedd yn ceisio lleihau'r defnydd o gynhyrchion wedi'u seilio ar ivermectin ar gyfer rheoli parasitiaid mewn da byw, a allai arwain at effeithiau cadarnhaol ar bryfed yn y pridd (a'r adar sy'n bwydo arnynt) a chylchedu maetholion.

Bu’r sesiynau grŵp yn canolbwyntio’n fwy manwl ar y pwnc yma. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr drafod y datganiad a'r cwestiynau canlynol:

*“Mae amrywiaeth o fewn biosffer y pridd yr un mor bwysig â’r amrywiaeth uwchben y ddaear. Mae bywyd yn y pridd, fel bacteria, ffwng, llyngyr a phryfed, yn sylfaen i’r gadwyn fwyd ar gyfer bywyd gwyllt a dof fel ei gilydd.”*

Sut ddylem ni roi ystyriaeth i ecosystemau o dan y ddaear o fewn yr amgylchedd sy’n cael ei ffermio?

- A yw'n fater o ddewis meysydd penodol lle mae ffocws ar wella/cynnal yr ecosystem o dan y ddaear, neu a ddylai fod yn ddull fferm gyfan? Pa fath o hyblygrwydd fyddai ei angen er mwyn gwneud hyn?
- Yn eich profiad chi, pa arferion sy'n gwella/cynnal ecosystem y pridd, a pha arferion a allai fod angen eu rheoli'n ofalus er mwyn osgoi difrod?
- Sut allech chi fesur iechyd yr ecosystem o dan y ddaear yn effeithiol? A fyddai unrhyw adnoddau/offer/hyfforddiant/cyngor arbenigol ychwanegol ac ati yn ddefnyddiol i chi?





Gofynnwyd y cwestiwn hwn fel rhan o'r sesiynau grŵp, gydag adborth a phynciau trafod allweddol wedi'u grwpio yn ôl yr is-benawdau canlynol:

**Gosod llinellau sylfaen, data a monitro**

Yn y sesiynau grŵp, roedd mesur gwelliannau i fiosffer y pridd yn cael ei ystyried yn broblemus ac o bosibl yn ddrud (o’i gymharu â samplu sylfaenol). Awgrymwyd y byddai dadansoddiad gweledol o lystyfiant uwchben y ddaear yn fesuriad effeithiol. Trafodwyd hefyd y gallai gwelliannau i fiosffer y pridd (yn hytrach na gwelliannau i lefelau pH yn unig er enghraifft) fod yn araf iawn yn dod i’r amlwg, yn enwedig mewn priddoedd ymylol. Ystyriwyd bod angen i unrhyw gytundebau sy’n cysylltu taliadau gyda gwelliannau o’r fath fod yn gynlluniau “hirdymor”, ac “efallai y byddai angen cynnwys taliadau cam wrth gam a thaliadau dirprwyol”.

Bu’r grwpiau’n myfyrio ar y ffaith bod priddoedd yng Nghymru ar hyn o bryd (yn ôl astudiaethau academaidd) mewn cyflwr cymharol ffafriol, yn rhannol oherwydd goruchafiaeth systemau da byw dros systemau âr, ac yn rhannol oherwydd nad yw systemau âr yn gweithredu ar briddoedd mawnog (megis Corsydd). Galwyd i gadw rhywfaint o gyfrannedd ac i roi mwy o fewnbwn academaidd i fesur a dadansoddi biosffer y pridd.

Rhaid i unrhyw fesuriad fod yn syml, yn effeithiol a chael ei arwain gan y ffermwr. “Mae terfyn i’r hyn y gellir ei gyflawni drwy samplu pridd”; mae dull mwy holistaidd o olrhain newid (ar ôl samplu i ganfod data gwaelodlin) yn cynnwys asesiad gweledol o’r pridd, arsylwi bywyd planhigion, cyfrif niferoedd pryfed genwair a thwmpathau tyrchod. Rhybuddiwyd yn erbyn cynnal asesiad wedi’i or-symleiddio yn seiliedig ar samplau gan fod samplu ynddo'i hun yn newid canlyniadau. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol dros gyfnod estynedig (25 mlynedd a mwy), ond yn llai defnyddiol yn y tymor byrrach.

Dywedwyd fod angen ystyried ffyngau ac isrywogaethau wrth asesu cynefinoedd; fel arall gallai priddoedd iach sy'n cynnwys rhywogaethau prin a chasgliadau cyfoethog gael eu trin yn amhriodol oherwydd eu bod wedi cael eu hanwybyddu. Rhoddwyd enghreifftiau o hyn yng nghynllun Glastir. Awgrymwyd y byddai’r gofyniad i asesu cynefinoedd ar wahanol adegau o’r flwyddyn/nifer o weithiau (gan gynnwys yn yr hydref) yn mynd i’r afael â hyn.

**Hyfforddiant, Cyngor ac Arweiniad**

Mae gwyddor y pridd yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth gynyddol o fewn y diwydiant, yn enwedig y tu hwnt i’r sector âr (sydd ar y blaen yn sylweddol, er ei fod yn aml yn wynebu problemau dybryd yn ymwneud â diogelu a gwella iechyd y pridd). “Byddai cynnal grwpiau trafod i ledaenu gwybodaeth a rhannu arfer da (wedi'i hwyluso ac yn cynnwys mewnbwn arbenigol) yn rhannu’r neges”. Amlygwyd fod y cwrs 'Soil Foodweb' yn adnodd hyfforddiant gwych.

Nodwyd y byddai rôl gynghori yn gyfle o fewn y cynllun newydd (am ddim i ffermwyr, a nodwyd fod Cyswllt Ffermio yn ‘ddibynadwy’) i gynorthwyo gyda’r gwaith dadansoddi a darparu cyngor ar lawr gwlad yn ymwneud â chanlyniadau samplu er mwyn gwella canlyniadau (e.e. gallai cyngor ar dechnegau amaethyddol megis defnydd o ivermectin arwain at ymyrraeth wedi’i dargedu yn hytrach na phresgripsiwn cyffredinol).

Dylid sicrhau bod bioleg y pridd a’r pridd fel cynefin ar y maes llafur mewn colegau

amaethyddol, a dylid hefyd annog cyrsiau fel ffordd o "adeiladu sylfaen o wybodaeth a dealltwriaeth y diwydiant ei hun wrth i bobl ymuno". Gwnaed sylwadau hefyd ynglŷn â'r angen i ganolbwyntio mwy ar gasglu a lledaenu gwybodaeth mewn perthynas â bioleg y pridd.

### Ymchwil

Er nad oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â chylch gwaith y cynllun SFS arfaethedig, trafodwyd a chyfeiriwyd at bwysigrwydd a rôl ymchwil yn ystod y sesiynau grŵp. Cafwyd barn y dylai sefydliadau ymchwil a phrifysgolion (gan gyfeirio'n benodol at IBERS Aberystwyth a Bangor) arwain ar ddarparu canlyniadau ymchwil o ansawdd uchel mewn cydweithrediad â'r diwydiant.

Byddai ymchwil i effaith patrymau glawiad presennol ar iechyd pridd er enghraifft yn canfod pa elfennau o reoli cynefinoedd a phridd sydd o fewn rheolaeth y ffermwr, a pha rai sydd ddim. Mynegwyd fod hyn yn ffactor pwysig wrth gytuno ar ganlyniadau a chyflawniadau. Daeth y drafodaeth i'r casgliad hefyd bod angen ymchwil pellach ynglŷn â sut i wella biosffer y pridd ar "borfeydd defaid arferol" (wedi'u gwella a heb eu gwella). Dywedwyd fod cydnabod y cyfyngiadau sy'n deillio o briddoedd bas sy'n cael eu golchi ymaith gyda'r glaw, lefelau isel o faetholion, a chronni mwynau o ddaeareg y graig o dan y pridd yn bwysig er mwyn gweld a fyddai modd gwella'r priddoedd yn y lle cyntaf. Dywedwyd hefyd fod angen gwaith ymchwil pellach a thystiolaeth ar y fferm yn ymwneud â gwahanol dechnegau ail-hadu ac adfywio'r tir.

### Ymyriadau

Pwysleisiwyd pwysigrwydd cydnabod arferion pori gwartheg a phori cymysg er mwyn gwella ansawdd a biosffer y pridd yn ystod sesiynau grŵp. Byddai cyflwyno mwy o wartheg i systemau dwys a systemau ucheldir yn benodol yn rhywbeth cadarnhaol, ond mae angen cymhelliant (ariannol) a herio'r rhwystrau (e.e. roedd TB buchol, trwyddedau symud, cymysgu buchesi ar dir agored, diffyg galw ar y farchnad/y gadwyn gyflenwi ar gyfer gwartheg bîff hŷn oll yn rhwystrau posibl). Soniwyd hefyd am rwystrau ymarferol a nodwyd enghreifftiau o ffensys gwael lle nad oes gwartheg yn cael eu cadw bellach. Byddai'r ffensys yn iawn ar gyfer defaid, ond byddai angen diweddaru/ail osod ar gyfer gwartheg, a byddai hynny'n gostus, yn enwedig gyda ffensys hir mewn ardaloedd ucheldir. Trafodwyd siediau ar gyfer y gaeaf hefyd, gan y byddai angen buddsoddiad sylweddol ar gyfer siediau ychwanegol neu adnewyddu siediau, yn ogystal â buddsoddiad mewn isadeiledd trin gwartheg. Ystyriwyd y byddai'r costau'n mynd yn anymarferol gan ystyried yr elw isel a'r ad-daliad araf a geir drwy gadw gwartheg ar dir ymylol - ystyriwyd y byddai defnyddio cymhelliant ar sail nifer yr anifeiliaid yn hytrach na chyfraniad uniongyrchol tuag at isadeiledd (fel FBG) yn ffordd well o liniaru'r broblem, gan alluogi mwy o hyblygrwydd sy'n addas ar gyfer ffermydd unigol a chostau is ar gyfer darparu. Oni bai bod grantiau cyfalaf ar gyfer isadeiledd yn talu 100% o'r costau gwirioneddol, ni fyddai'r ffermwyr a fu'n cymryd rhan yn y drafodaeth hon yn cefnogi ymyrraeth o'r fath fel ffordd o ddarparu canlyniadau; hyd yn oed ar gyfradd o 100%, ystyriwyd fod buddsoddiadau o'r fath yn aneffeithlon ac yn cynnig enillion isel ar fuddsoddiad.

Awgrymwyd y byddai cynnig cymhelliant ar gyfer defnyddio porfeydd mwy amrywiol a chymysgeddau hadau a fyddai'n cynnwys rhywogaethau (e.e. meillion) sy'n helpu i leihau effaith cywasgiad pridd yn ymyrraeth bosibl. Byddai cwmnïau hadau yn ymateb pe bai galw digonol gan ffermwyr am borfeydd amrywiol.





Trafodwyd cynnig cymhelliant ar gyfer prynu offer yn uniongyrchol sy'n rhoi pwysedd isel ar y tir neu rannu peiriannau fel rhan o gylchoedd peiriannau wedi'u hwyluso a threfniadau cydweithredol, ynghyd ag anogaeth neu gymhelliant ar gyfer cyflwyno cylchdro âr/glaswellt; gallai hyn fod drwy bori anifeiliaid ar fferm arall dros y gaeaf, gefeillio ffermydd da byw a thir âr ayb.

Ystyriwyd fod pori cylchdro yn fuddiol iawn ar gyfer gwytnwch ecosystem, a gofynnwyd y cwestiwn "a allai cymhelliant a thaliadau rheoli a ariennir yn llawn ar gyfer isrannu caeau mwy/adfer ffiniau hanesyddol gyda gwrychoedd fod yn ffordd o gyflawni sawl amcan o ran priddoedd a chynefinoedd uwchben y ddaear?" Trafodwyd pori cylchdro gyda chymysgedd o dda byw (gwartheg, defaid a dofednod) fel ffordd o wella ansawdd y pridd, ond mae angen buddsoddiad sylweddol i sefydlu system o'r fath, ac efallai na fydd yn gweithio i bob fferm neu system ffermio.

Nodwyd fod plannu cnydau gorchudd i osgoi dŵr ffo a chynyddu deunydd organig yn y pridd yn cael ei ariannu yn Lloegr ond nid yng Nghymru, ac roedd hynny i'w weld yn afresymegol i gyfranogwyr y grŵp. Nodwyd pe na fyddai'r taliad sylfaenol yn cael ei gynnwys mewn cynlluniau at y dyfodol, dylid ariannu'r math yma o ymyrraeth yn llawn. Cafwyd barn hefyd fod angen i ymyriadau fod yn hyblyg ac addasu i hinsawdd sy'n newid (e.e. gellir ychwanegu maetholion yn ôl y galw, ac nid yn ôl y calendr).

### Gwrthdaro

Trafodwyd gwrthdaro rhwng mesurau cadwraeth ac anghenion rheoli eraill. Roedd enghraifft a rannwyd yn cynnwys amddiffyn safleoedd nythu adar ysglyfaethus mewn coetiroedd cynhyrchiol gan atal gweithgareddau cwympo/rheoli coed yn y gwanwyn/haf, a thrwy hynny wthio gwaith i fisoedd gwlypach lle mae'n anochel y bydd dŵr ffo, cywasgu a chreithio yn cynyddu, hyd yn oed gyda dulliau echdynnu ystyriol. Gallai opsiwn ar gyfer mwy o hyblygrwydd i osgoi gwrthdaro deuaidd e.e. cwympo yn yr haf bob yn ail flwyddyn (neu gyfnod y cytunwyd arno), ac 'annog' adar ysglyfaethus i nythu mewn coetir nad ydynt wedi'u clustnodi ar gyfer rheolaeth weithredol (e.e. drwy ddarparu safleoedd nythu priodol) fod yn ddull mwy effeithiol .

Nodwyd fod pori estynedig neu bori parhaol yn un o ganlyniadau mesurau amaeth-amgylchedd, er anfantais i'r amgylchedd a chynhyrchiant. Yn benodol, ystyriwyd bod presgripsiynau rheoli yn yr ucheldiroedd ar gyfer lleihau niferoedd stoc ar rostir a bryniau yn sylweddol ar wahanol bwyntiau yn y cylch amaethyddol yn arwain at stocio ffriddoedd ar rai ffermydd yn barhaus. Dylid ystyried dull mwy addasol a hyblyg, sy'n ystyried gofynion y fferm gyfan a'r system ffermio, gan hefyd barhau i gynnal menter amaethyddol hyfyw a chynhyrchiol wrth ddatblygu camau gweithredu ar gyfer y cynllun SFS.

Beirniadwyd cynlluniau'r gorffennol, yn benodol Glastir, am gymell plannu cnydau gwraidd mewn modd 'amhriodol', e.e. ar lethrau a chaeau sy'n dueddol o orlifo/mynd yn ddwrlawn. Dywedodd rhai ffermwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i blannu cnydau o'r fath, a hynny yn groes i'w barn bersonol ar adegau, er mwyn ennill digon o bwyntiau i gael mynediad i'r cynlluniau.

*Sut mae'r berthynas rhwng cynhyrchiant a chynefinoedd yn cael ei ystyried?*

Trwy gydol yr ymatebion mewn trafodaethau un i un, roedd yn amlwg bod rhywfaint o densiwn rhwng tir sy'n cael ei ystyried naill ai ar gyfer cynhyrchu neu ar gyfer cynefin - nid yw nifer o ffermwyr yn gweld y gwahaniaeth, gan fod "yr holl dir yn gynefin". Un agwedd gyffredin trwy gydol yr ymatebion oedd bod ffermwyr yn pwysleisio'r angen i gynhyrchu bwyd, a bod modd gwneud hynny mewn modd cynaliadwy, nid ar draul cynefinoedd (yn y rhan fwyaf o achosion). Nododd rhai ymatebwyr y dylai ffermwyr a sefydliadau marchnata megis Hybu Cig Cymru amlygu hyn i'r cyhoedd, gan helpu i sicrhau pris premiwm ar gyfer cynnyrch o Gymru.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn cadw gwartheg, i helpu sicrhau buddion bioamrywiaeth trwy bori ar dir cynefin dan reolaeth. Roedd y mwyaf rif yn cadw gwartheg, ond roedd nifer yn nodi bod yr enillion economaidd ar gyfer systemau gwartheg sugno yn brin e.e. "mae'r pori cadwriaethol yr ydym ni'n ei wneud gyda gwartheg yr Ucheldir yn ymwneud â gwella ansawdd y tir ar gyfer bywyd gwyllt. Rydym ni'n dal i gynhyrchu rhywfaint, ond heb y taliadau, ni fyddai'r gwartheg yna'n hyfyw." Nododd ymatebwr arall "y byddai'n well pe bai gen i wartheg yn ogystal â defaid, ond ni fyddai'n economaidd i wneud hynny". Felly gall pori gwartheg ar dir ymylol (gan gynnwys tiroedd comin yn aml) fod yn her oni bai bod cymhelliant addas ar gyfer gwneud hynny dan y cynllun newydd.

Ni chafwyd trafodaeth benodol ynglŷn â rôl technoleg yn ystod y trafodaethau un i un na'r sesiynau grŵp - argymhellir fod hyn yn cael ei wneud yn ddiweddarach unwaith y bydd mwy o wybodaeth benodol ar gael am y cynllun.

Yn ystod sesiynau un i un, fodd bynnag, nododd ychydig o ymatebwyr yn glir fod osgoi dyblygu a symleiddio "cymaint â phosibl" ar y gofynion gweinyddol yn bwysig iawn. Bu trafodaeth ynghylch a ellid defnyddio data a gesglir eisoes ar ffermydd (e.e. trwy'r cynlluniau achredu/sicrhau) yn fwy effeithiol, er mwyn osgoi gorfod ail-ymweld ac i leihau costau gweinyddol (e.e. "[mae'r cynllun arfaethedig] yn ymddangos yn drwm iawn yn weinyddol, ni fydd y cynllun yn cael unrhyw effaith wirioneddol ar y camau gweithredu cadarnhaol a fwriedir os bydd hanner y gyllideb yn cael ei lyncu gan waith gweinyddol - mae angen i gymaint o'r gyllideb â phosibl fynd i'r perchnogion tir"). I nifer o ymatebwyr, gyda'r rhan fwyaf ohonynt wedi bod yn rhan o gynlluniau amaeth-amgylchedd yn y gorffennol, roedd yn amlwg y byddai'r gofynion gweinyddol mewn unrhyw gynllun newydd yn dylanwadu ar y tebygolrwydd o gymryd rhan (e.e. "Os mae'r system yn rhy gymhleth a bod y swyddogion sy'n rhedeg y cynllun yn 'waith caled' gyda llwythi o waith papur am symiau ariannol dibwys, bydd iechyd meddwl pobl yn dioddef, a bydd llawer o bobl yn penderfynu peidio â thrafferthu").

Er na soniwyd yn benodol am rai o'r dulliau/technolegau a restrir uchod, croesawyd yn gyffredinol y defnydd o dechnoleg i gynorthwyo gydag adrodd a monitro. Yn benodol, rhoddwyd canmoliaeth i'r mapiau ar-lein (sydd ar gael ar-lein drwy RPW) - eu bod yn hawdd i'w defnyddio a'r ffordd maen nhw'n gallu hidlo data/gwybodaeth yn rhwydd. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at rôl bosibl GIS a delweddau lloeren er mwyn casglu gwybodaeth, ynghyd â chasglu data cyfnodol "ar lawr gwlad". Roedd cyflwyno tystiolaeth o waith gorffenedig trwy luniau geotag, fel y gwnaed ar gyfer nifer o gynlluniau LlC diweddar "heb orfod ysgrifennu nofel" yn apelio at lawer o'r rhai a holwyd.





Er bod rôl technoleg i hwyluso'r gwaith monitro yn cael ei drafod mewn cyd-destun cadarnhaol dros ben, rhybuddiwyd "os mae'r holl ganlyniadau'n cael eu mesur gan ddefnyddio technolegau clyfar, mae'n ddigon posibl y bydd rhai pobl yn cael eu gadael ar ôl". Mae'n debygol y bydd hyn yn arbennig o wir lle mae ffermwyr yn hŷn a/neu lle mae problemau cysylltedd yn bodoli.

*Sut y gellir ystyried y dyletswyddau ychwanegol sy'n ofynnol o ardaloedd gwarchodedig mewn cynllun yn y dyfodol?*

Ni archwiliwyd hyn yn ystod trafodaethau un i un, er y gellid tybio o ymatebion i gwestiynau eraill y byddai ffermwyr yn gyffredinol yn barod i ymgymryd â mesurau cyhyd â bod y cymhellion/taliadau yn ddigonol i dalu am eu hamser, eu costau, ac ati. Ategwyd y farn hon hefyd gan y rhai a fu'n rhan o'r sesiynau grŵp.

Fel y trafodwyd mewn cwestiynau eraill, croesawyd mesurau sy'n symleiddio ac yn lleihau'r gofynion gweinyddol yn gyffredinol, wrth i nifer o'r rhai a holwyd nodi pa mor brin oedd eu hamser (e.e. o ganlyniad i ddiffyg argaeledd llafur ar ffermydd, gofynion gwaith rhan-amser oddi ar y fferm, ac ati).

Nododd ffermwyr hefyd pa mor bwysig yw cynefin iddyn nhw, i'r gymdeithas ac i'r genedl. Yn gyffredinol felly, byddai'n ddiogel dweud o'r cyfweliadau hyn bod awydd i gyflawni'r 'dyletswyddau ychwanegol' hyn, ond dim ond i ryw raddau y gellir gwneud hyn, ac y byddai'n rhaid i unrhyw fesurau ychwanegol/newydd gael eu gwobrwyo'n ddigonol.

Bu'r sesiynau grŵp yn archwilio'r datganiad canlynol ymhellach. "Mae ardaloedd gwarchodedig (e.e. SoDdGA, ACA, AGA ayb) yn rhoi dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol ar ffermwyr o ganlyniad i ofynion rheoliadol uwch". Gofynnwyd y cwestiynau canlynol mewn perthynas â'r datganiad, a chafodd y pwnc ei archwilio gan yr hwyluswyr:

- Beth yw eich profiad o weithio gyda dynodiadau ardaloedd gwarchodedig fel y rhain a beth yw'r goblygiadau i'ch busnes fferm?
- Beth yw buddion y dynodiadau hyn yn eich barn hi ar gyfer yr amgylchedd ehangach?
- Gan gofio bod y dynodiadau hyn yn seiliedig ar reoliadau statudol, sut ydych chi'n credu y dylid eu cynnwys yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy?
- Beth arall allech chi ei wneud wrth eu rheoli?
- A fyddai angen unrhyw gymorth neu gyngor ychwanegol arnoch chi? Gan bwy?

Yn y trafodaethau grŵp, roedd y safbwyntiau ar effeithiolrwydd dynodiadau a rheolaeth o ardaloedd gwarchodedig ar hyn o bryd yn negyddol ar y cyfan; yr eithriad oedd wrth i un cyfranogwr siarad o'u plaid ar sail yr angen i ddiogelu rhywogaethau prin iawn mewn ardaloedd penodol. Ni ystyriwyd bod ardaloedd o'r fath yn darparu ar gyfer natur nac amaethyddiaeth ar hyn o bryd; ac o ganlyniad, bu'r drafodaeth yn canolbwyntio ar y materion allweddol a'r cyfleoedd ar gyfer gwella rheolaeth, cefnogaeth a llywodraethu gan y cyrff dynodi.

Mae crynodeb o'r trafodaethau wedi'u grwpio yn ôl yr is-benawdau canlynol:

**Rheolaeth ragnodol o ardaloedd gwarchodedig**
Mynegwyd hyn fel "cleddyf ag ymyl dwbl". Er ei fod wedi hwyluso mynediad i gynlluniau (gyda throthwy pwyntiau), nodwyd fod yr ymdrech a'r cyfathrebu a'r drafodaeth sy'n ofynnol er mwyn teilwra dulliau neu gyflwyno newidiadau ar ôl cael mynediad i'r cynllun yn y lle cyntaf yn cael ei ragnodi gan ba bynnag awdurdod a oedd yn goruchwylio rheolaeth yr ardal honno.

Barnwyd fod rheolwyr ar hyn o bryd yn dibynnu ar farn swyddog unigol. Rhoddwyd enghraifft o wahanol flaenoriaethau a dulliau rheoli yn cael eu rhagnodi ar draws ardal fawr o dirwedd agored oherwydd ei fod yn pontio dwy ardal weinyddol (dau swyddog gwahanol). Codwyd pryder y bydd rhagfarnau personol (yn enwedig mewn perthynas â phori anifeiliaid) yn llywio trafodaethau, ac yn y pen draw, y byddai swyddogion yn dylanwadu'n helaeth ar y canlyniadau. Amlygwyd hefyd fod diffyg cysondeb o ran dull wrth i swyddogion symud ymlaen yn fater sy'n achosi dryswch a drwgdeimlad. Awgrymwyd y byddai modd defnyddio 'brocer gonest' fel cyfryngwr mewn trafodaethau o'r fath.

Mynegwyd bod yn rhaid i ardaloedd gwarchodedig barhau i ganiatáu i ddefnyddio'r tir o'u hamgylch mewn modd cynhyrchiol ac ystyriol. Mewn nifer o achosion, yr arferion cynhyrchiol hyn sydd wedi creu'r cynefinoedd sy'n cael eu gwarchod (a gellir eu gweld yn dirywio wrth i gynhyrchiant ddod i ben).

Trafodwyd fod angen i bresgripsiynau cytundebol ar gyfer ardaloedd gwarchodedig ystyried yr effaith ar systemau fferm gyfan, a sut mae newid arferion rheolaeth yn effeithio ar yr ardaloedd gwarchodedig. Rhannwyd enghraifft o gyfyngiadau stocio a oedd yn gofyn am symud da byw cyn hyrdda, gan olygu bod ffrwythlondeb mamogiaid mynydd yn cynyddu oherwydd eu bod yn cael eu symud i borfeydd mwy cyfoethog. Roedd y ddiadell yn cynhyrchu canran uchel o efeilliaid bob blwyddyn, a gan nad oes modd i famogiaid gyda gefeilliaid ddychwelyd i'r mynydd ar ôl ŵyna, nid oedd modd i ni gwrdd â'r gofynion o ran dwysedd stocio'r haf/gwanwyn, mae swmp y ddiadell hefyd yn cael ei golli, gan olygu bod y mamogiaid yn pori'r SoDdGA yn ysgafnach ac mae gwellt y gweunydd yn cynyddu. "Nid oes unrhyw beth yn bodoli ar ei ben ei hun o fewn system ffermio."

**Ansawdd cynefin mewn ardaloedd gwarchodedig**
Gwerthfawrogwyd yn ystod trafodaethau bod rhai ardaloedd gwarchodedig wedi'u dynodi ddegawdau lawer yn ôl, ac (yn rhannol o ganlyniad i'r presgripsiynau rheoli a roddwyd arnynt drwy eu statws) efallai na fydd y 'nodweddion arbennig' a arweiniodd at y dynodiad gwreiddiol yn amlwg mwyach. Ystyriwyd fod yr angen am ddata gwrthrychol, cadarn a chyfoes ar gyflwr presennol yr ardaloedd gwarchodedig hyn yn bwysig.

Ystyriwyd fod ymweliadau safle a thrafodaethau i gytuno ar reolaeth ardaloedd gwarchodedig drwy gytundeb ar y cyd yn arfer da. Nodwyd hefyd fod cyfnewid gwybodaeth yn bwysicach na rheolaeth ragnodol, neu 'o'r brig i lawr'. "Os mae pawb yn deall pam fod pethau'n digwydd, a'u heffaith gwirioneddol, mae hynny'n sicr o fod yn well."





**Biwrocratiaeth ac ardaloedd gwarchodedig**
Dywedwyd fod lefel biwrocratiaeth bresennol wrth geisio trafod ardaloedd gwarchodedig fel perchennog/defnyddiwr tir yn "hurt", gan wneud cynnydd adeiladol bron yn amhosibl. Roedd un enghraifft yn cynnwys ymddiriedolaeth tir mawr sy'n canolbwyntio ar gadwraeth yn negodi ar ran ei thenantiaid mewn perthynas ag ardaloedd gwarchodedig ar ei hystâd, a gwneud dim cynnydd o gwbl mewn 5 mlynedd ("Pa obaith sydd gan ffermwyr neu denantiaid unigol os na allwn ni wneud cynnydd hyd yn oed?!")

Mynegwyd pryder hefyd ynghylch diffyg unrhyw gyfathrebu gan gyrff statudol ar ôl dynodi SoDdGA. Soniodd eraill fod integreiddio cynlluniau rheoli ardal warchodedig i gynlluniau amaeth-amgylchedd (Glastir) yn gyfyngol iawn, yn anhyblyg, ac nid ydynt yn destun unrhyw adolygiad na thrafodaeth ystyrlon - "Mae Glastir 'wedi dod i ddiwedd ei oes', nid yw parhau gyda'r cynllun nes y bydd rhywbeth gwell yn dod yn ei le yn gwneud lles i neb ac mae'n gwrthod y cyfle i ni adolygu rheolaeth o'r ardaloedd gwarchodedig hyn."

**Gwrthdaro a rhwystrau mewn perthynas ag ardaloedd gwarchodedig**
Mynegwyd pryder y gallai rhywogaethau prin iawn gael eu colli os mae mesurau diogelu sy'n benodol i'r safle'n cael eu herydu, ac roedd eraill yn mynegi rhwystredigaeth y gallai effeithiau allanol a materion yn ymwneud â ffiniau fod yn gyrru rhywogaethau o'r fath tuag at ddifodiant beth bynnag, ac mae ymdrechion i geisio atal eu dirywiad yn peryglu ymdrechion mwy holistaidd o fynd i'r afael â'r ecosystem ar draws tirweddau cyfan (ac yn arwain at ddirywiad rhywogaethau eraill).

Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn bod disgrifiadau o ardaloedd gwarchodedig lefel isel a 'chynefinoedd' yn rhwystr rhag gwella ansawdd y cynefin a gwella hyfywedd amaethyddol fel ei gilydd, yn enwedig yn yr ucheldir. "Ar lefel sylfaenol, mae bron pob un o'r tiroedd uchel yn ryw fath o gynefin, gydag ychydig iawn o dir 'wedi'i wella' ac mae 'diogelu'r cynefinoedd hyn yn amddifadu amaethyddiaeth yr ucheldir o'r cyfleoedd sydd ei angen i symud ymlaen, rydym ni o dan gymaint o gyfyngiadau" e.e. cyfleoedd i greu coetir yn unrhyw ardal heblaw am y caeau gorau (mapio cyfleoedd i greu coetir), cyfleoedd i ddefnyddio gwyndonnydd mwy cynhyrchiol lle bo'n briodol i leihau pwysau tymhorol ar ddarnau eraill o dir ayb.

Mynegwyd rhwystredigaeth ynglŷn â'r pwyslais a roddir ar ardaloedd gwarchodedig wrth ymgeisio am ganiatâd cynllunio i gynyddu hyfywedd y busnes ar dir cyfagos (arallgyfeirio, dwysau ac ati). Mae ardaloedd gwarchodedig eisoes yn cyfyngu ar gynhyrchiant o fewn eu ffiniau. Byddai stopio ffermydd rhag gallu gwneud iawn am hyn drwy ddatblygu ffrydiau incwm ychwanegol ar barseli o dir nad ydynt yn cael eu heffeithio gan y statws gwarchodedig yn gwneud yr effeithiau'n waeth ac mewn perygl o wneud y busnes yn anhyfyw.

Trafodwyd bod diogelu yn anochel yn arwain at leihau niferoedd neu symud da byw, sydd, gan ddibynnu ar y lleoliad, yn niweidiol i'r cynefin presennol, ond hefyd yn rhoi cyfle i rywogaethau 'ymledol' neu ddominyddol. Ystyriwyd bod mynediad cyhoeddus ar ardaloedd gwarchodedig (yn enwedig mewn ardaloedd poblogaidd neu ardaloedd â nifer uchel o ymwelwyr) yn effeithio'n negyddol ar gynefin.

**Cefnogaeth gan y Cynllun ar gyfer ardaloedd gwarchodedig**
Cafwyd consensws yn ystod trafodaethau grŵp fod angen cefnogaeth ariannol i ffermwyr er mwyn gallu rheoli ardaloedd gwarchodedig, a dywedodd un ymatebwr: "Dylent gael eu gwarchod a'u rheoli, nid dim ond eu gwarchod a'u gadael i bydru."

Fel y soniwyd eisoes, daeth trafodaethau i'r casgliad hefyd bod angen rhyw fath o bori ar lawer o ardaloedd gwarchodedig (yn enwedig gan wartheg). Mae angen cefnogaeth i fridio a chynnal bridiau (gyda chynhyrchiant is ac arafach) sy'n briodol ar gyfer pori'r ardaloedd hyn (bridiau traddodiadol a gwydn, a datblygu bridiau ar gyfer ardaloedd penodol os nad oes yr un ohonynt yn gwbl ddigonol). "Beth am ddatblygu buwch benodol ar gyfer Mynyddoedd Cambria?" Dywedwyd fod angen cefnogaeth hefyd i sicrhau bod marchnad weithredol ar gyfer eu cig "Rhaid cael cynnydd tuag at gael sylfaen economaidd go iawn ar gyfer ffermio'r bridiau hyn yn y lleoedd hyn, hyd yn oed os bydd yn rhaid i ni ategu at hyn gyda thaliadau cymorth ychwanegol."

Awgrymwyd y gallai cefnogaeth yn y dyfodol ganolbwyntio ar gynorthwyo ffermwyr i wella ansawdd yr ardaloedd gwarchodedig yn hytrach na'u cosbi (naill ai drwy gosbau ariannol uniongyrchol neu drwy ddisgwyl i'r ffermwyr amsugno'r gost o leihau cynhyrchiant a chynnydd mewn rheolaeth).

Trafodwyd amddiffyn nodweddion tirwedd hanesyddol a Henebion. Cafwyd canmoliaeth o ddull Tir Gofal a beirniadaeth o gynllun Glastir yn hyn o beth.

*Mae Cymru'n cynnwys detholiad o ecosystemau sy'n brin neu'n werthfawr o safbwynt rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Beth yw'r farn ynglŷn â chanolbwyntio ar y rhain at ddibenion diogelu, rheoli a datblygu?*

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a holwyd yn ystyried bod eu tir cynefin yn bwysig o safbwynt personol, lleol a chenedlaethol. Mae gan Gymru lu o wahanol fathau o ffermydd, ac roedd yr ymatebion i'r arolwg hwn yn cynrychioli ystod eang o systemau cynhyrchu a lleoliadau daearyddol. Mae hyn yn ddi-os yn golygu y bydd gwahanol flaenoriaethau, cyfleoedd a heriau'n berthnasol i ffermydd gwahanol.

Nododd ymatebwyr sawl gwaith eu bod yn adnabod eu ffermydd a'r cynefinoedd ar y ffermydd hynny oherwydd eu "perthynas agos" gyda'r tir. Er mwyn i gynlluniau'r dyfodol fod yn llwyddiannus, roedd ymatebwyr yn nodi'r angen i ffermwyr gael cyfle i roi mewnbwn o ran eu dyluniad, ac i gynlluniau sy'n benodol ar gyfer ffermydd penodol ddangos rhywfaint o hyblygrwydd. Teimlwyd y byddai hynny'n lleihau'r risgiau o ganlyniad i ddigwyddiadau nad oes modd eu rheoli, megis tywydd gwael.

O ran datblygu cynllun rhanbarthol i gyd-fynd â Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru, dim ond 9% oedd yn gyfarwydd â manylion y Datganiadau Ardal hynny - felly mae'n amlwg bod angen codi ymwybyddiaeth os byddai'r rhain yn sylfaen ar gyfer unrhyw gynllun(iau) at y dyfodol.

*Sut y gellir defnyddio sgiliau a deallusrwydd ffermwyr i helpu ecosystemau naturiol i ddatblygu a chyrraedd cydbwysedd naturiol?*

Yn ystod trafodaethau un i un, siaradodd ffermwyr yn gadarnhaol am effeithiau eu ffermydd ar fioamrywiaeth. Fe wnaethant ddyfynnu rhestr helaeth iawn o fesurau yr




CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

oeddent wedi'u rhoi ar waith ar eu ffermydd dros nifer o flynyddoedd i wella bioamrywiaeth, fel rhan o gynlluniau amaeth-amgylchedd a hefyd yn annibynnol. Er na ellir gwirio llwyddiant y mesurau hyn o'r trafodaethau hyn yn unig, roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn credu bod eu dulliau rheolaeth yn fuddiol i'r amgylchedd, nid yn niweidiol. Gall hyn fod yn groes i'r datganiad uchod i raddau, gan ei fod yn awgrymu, ar ôl cyrraedd man penodol, efallai na fyddai angen ymyrraeth ddynol ar gynefin.

Yn ystod y trafodaethau un i un, nododd 79% o ymatebwyr ei bod yn bosibl "ffermio'n gynhyrchiol a gofalu am yr amgylchedd". Dylid cydnabod bod hwn yn gwestiwn penagored iawn, yn amodol ar lawer gymaint o waith dehongli o ran yr hyn a olygir drwy ddweud "gofalu am yr amgylchedd". Fodd bynnag, mae'n ailadrodd unwaith eto nad oedd ymatebwyr yn ystyried ffermio a darparu bioamrywiaeth fel dau beth ar wahân. Roedd enghreifftiau o atebion eraill a oedd yn adleisio'r pwynt yma'n cynnwys fod 68% o'r rhai a gyfwelwyd yn credu bod ganddynt y "nifer a'r cyfuniad cywir o dda byw er mwyn ffermio eu tir yn gynaliadwy," gydag un neu ddau o ffermwyr (llaeth) yn unig yn nodi bod ganddynt niferoedd stoc uchel er mwyn talu am fuddsoddiadau a wnaed.

Yn ogystal, ac fel y gwelir o'r graff isod, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo eu bod yn rheoli cynefinoedd yn llwyddiannus (sgôr o 5 yn cyfateb i 'wedi'i reoli'n dda'), er bod y mwyafrif yn gweld bod rhywfaint o botensial i wella. Dylid nodi, wrth gwrs, unwaith eto, bod y cwestiwn hwn yn ddibynnol ar ddehongliad yr ymatebwyr.


Ffig 16




Dim ond dwywaith y soniwyd am y cysyniad o ail-wylltio gan y rhai a gyfwelwyd, ac mewn ffordd negyddol yn gyffredinol: "Mae ail-wylltio yn broblem. Mae'n ymddangos yn boblogaidd, ond nid oes unrhyw ystyr iddo go iawn. Hefyd, o ganlyniad, nid oes achos busnes drosto, dim cymhelliant. Mae'n wahanol i ofalu am yr amgylchedd". Felly, awgrymir y dylid archwilio'r dewis o eiriau ar gyfer datganiadau o'r fath gyda ffermwyr mewn sesiynau yn y dyfodol.

O ran defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd ffermwyr, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn ystyried eu hunain yn gymwys mewn nifer o'r cwestiynau a ofynnwyd, ond fel y gwelir yn Ffigwr 23 isod, roedd y sgoriau a'r hyder yn gostwng wrth i'r gofynion fynd yn fwy cymhleth, gan nodi y byddai angen hyfforddiant mewn rhai elfennau er mwyn i ffermwyr allu adrodd eu gwybodaeth eu hunain ar gyfer cynlluniau at y dyfodol.

Ffig 17




## Dulliau newydd / dulliau sy'n benodol i'r cynllun

*Mae datblygu cynefin o bocedi cryf o ecosystem naturiol yn un dull posib. Trwy gyd-greu â natur, gallai systemau naturiol dyfu a chysylltu'n well â darnau neu elfennau eraill o'r ecosystem amaethyddol.*

Fel yr eglurwyd mewn man arall, nododd yr ymatebwyr na ddylai unrhyw gynllun newydd "anghofio am waith a wnaed eisoes gan Tir Gofal a Glastir - dylid sicrhau bod hwn yn gam tuag at gysylltu cynlluniau blaenorol". Byddai hyn yn adeiladu ar waith a gychwynnwyd eisoes, a gallai hefyd helpu i gynnal diddordeb ffermwyr mewn gweld y gwaith yn dwyn ffrwyth dros amser (cyfeiriodd nifer at bwysigrwydd cytundebau tymor hir, ond bod angen i'r cytundebau hynny fod yn hyblyg).

Cyfeiriwyd lawer gwaith at gysylltu blociau o gynefinoedd fel rhywbeth yr oedd ffermwyr wedi'i wneud o fewn cynlluniau blaenorol. Cyfeiriwyd sawl gwaith at waliau cerrig a gwrychoedd, er enghraifft, yn gweithredu fel "coridorau a thir cynefin". Gwnaed un sylw y dylid "derbyn/cefnogi mwy o goetir adfywiol naturiol (byddai tir rhedyn yn datblygu i fod yn goetir pe bai'n cael ei adael)". Fel yr eglurwyd mewn man arall, roedd ffermwyr yn gyffredinol yn cefnogi creu coetir "priodol", gan fod cyfleoedd i ffensio coridorau dŵr er budd bywyd dyfrol a pharthau torlannol.

Gellir ystyried bod angen trafod yr union ddatganiad hwn yn fwy uniongyrchol â chyfranogwyr yn ddiweddarach gan na chafodd ei drafod yn ystod y cyfarfodydd un i un hyn; fodd bynnag, mae ymatebion i gwestiynau eraill yn awgrymu'n gryf y byddai ffermwyr yn barod i dderbyn y syniad o gysylltu cynefin.

O ran "helpu systemau naturiol i dyfu" yn y datganiad, mae un ymatebwr yn troi'n ôl at y trafodaethau ynghylch y cyfaddawd posibl rhwng tir cynhyrchiol a chynefin nad oedd yn weladwy i'r mwyafrif o ymatebwyr - roeddent yn gweld bod modd gwneud y ddau ar yr un tir (ac yn wir, roedd eisoes yn darparu'r ddau).



CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

*Mae bywyd yn y pridd, fel bacteria, ffwng, llyngyr a phryfed, yn sylfaen i'r gadwyn fwyd ar gyfer bywyd gwyllt a dof fel ei gilydd. Sut mae'r ecosystem o dan y ddaear yn cael ei ystyried?*

Ni chafodd hyn ei drafod yn benodol gyda'r cyfranogwyr yn ystod y trafodaethau un i un - ychydig iawn o drafodaeth benodol a gafwyd ar briddoedd (yn enwedig bioleg y pridd). Ystyriwyd y datganiad hwn yn rhannol mewn sesiynau grŵp fel rhan o'r drafodaeth yn ymwneud â biosffer pridd sydd eisoes wedi cael ei grynhoi yn yr adroddiad hwn.

Fodd bynnag, gwnaed nifer o bwyntiau perthnasol iawn, a byddai disgwyl i rai ohonynt wella amrywiaeth ficrobaidd y pridd, gan gynnwys ychwanegu tail a bio-olosg i gynyddu cynnwys deunydd organig. Nododd un ymatebwr y bydd yn treialu cnydau gorchudd (i osgoi priddoedd moel dros y gaeaf) er mwyn cynyddu eu "blaenoriaeth" o "sicrhau deunydd organig a charbon yn y pridd, a fydd yn dod â mwy o fywyd i'r pridd ac yn annog bywyd gwyllt".

*Gallai integreiddio ecosystemau amaethyddol a naturiol trwy ddull rhannu tir fod yn rhan o'r cynllun. Byddai hyn yn cynnwys dulliau fel tir pori ymysg coed, plannu cnydau mewn stribedi, porfeydd cymysg, a dulliau eraill i gysylltu'r ecosystemau ar draws y dirwedd heb dynnu tir o'r ardal gynhyrchiol.*

Roedd ffermwyr yn arbennig o barod i dderbyn y syniad o ddarparu bwyd a nwyddau amgylcheddol eraill ar y tir, lle gellir gwneud hyn mewn ffordd ategol, yn hytrach na'r naill neu'r llall. Mae'r ymatebion yn dangos y byddai ffermwyr yn croesawu cyfleoedd o'r fath. Soniodd nifer eu bod wedi cyflwyno mesurau sydd o fudd i'r ddwy ochr yn y gorffennol, neu eisoes yn gwneud hynny; roedd enghreifftiau'n cynnwys tyfu cnydau ar system gylchdro (lleihau baich chwyn a darparu cynefin), plannu coed yn strategol (darparu cysgod a chynefin), tyfu gwyndonnydd cymysg (cynyddu gwytnwch mewn tywydd eithafol, a darparu ar gyfer peillwyr), ac ati.

Mae mesurau pellach a allai gynnig enillion i'r ddwy ochr yn debygol o gael eu derbyn mewn modd positif. Roedd yn amlwg bod mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn ystyried bod cynhyrchu bwyd yn ganolog i ffermio, felly byddai angen cymhelliant sylweddol i gyflawni unrhyw fesurau a allai rwystro hynny, heblaw eu bod yn digwydd beth bynnag o ganlyniad i ffactorau eraill, e.e. fel y gwelir yn y lleihad yn niferoedd y buchesi sugno yn yr ucheldir o ganlyniad i bwysau'r farchnad/elw annigonol.

Cafwyd archwiliad a thrafodaeth bellach ar y datganiad hwn yn ystod y sesiynau grŵp. Gofynnwyd y datganiad a'r cwestiynau canlynol i'r cyfranogwyr fel sylfaen i'r drafodaeth:

*Gallai integreiddio ecosystemau amaethyddol a naturiol trwy ddull rhannu tir fod yn rhan o'r cynllun. Byddai hyn yn cynnwys dulliau fel tir pori ymysg coed, plannu cnydau mewn stribedi, porfeydd cymysg, a dulliau eraill i gysylltu'r ecosystemau ar draws y dirwedd heb dynnu tir o'r ardal gynhyrchiol. Ni ddylai ffermwyr deimlo chwaith fod angen iddynt weithredu ar eu pen eu hunain.*

Gofynnwyd i'r rhai a fu'n cymryd rhan yn y sesiynau grŵp i drafod y cwestiwn canlynol: Sut allai'r cynllun eich helpu i weithio ar 'raddfa'r dirwedd', e.e. gyda chymdogion, eraill o fewn dalgylch eich afon, ar yr ucheldir ac ar lawr gwlad?

Bu hwyluswyr yn edrych ar y canlynol gyda chyfranogwyr

- Pa rwystrau sy'n eich wynebu ar hyn o bryd?
- Ydych chi wedi gweld enghreifftiau da o gydweithio dros dirweddau cyfan?
- A oes unrhyw arferion yn y gorffennol o genedlaethau blaenorol y gallem ddysgu oddi wrthynt?
- A oes unrhyw arferion newydd sydd o ddiddordeb i chi, neu yr ydych wedi cael profiad o'u defnyddio at y diben hwn?
- Gyda phwy fyddai angen i chi weithio neu dderbyn mewnbwn/cymorth ganddynt i wneud i hyn weithio'n effeithiol?
- Sut allwn ni feithrin cysylltiadau rhwng darnau o ecosystemau naturiol ar draws y dirwedd, ar wahanol ffermydd a daliadau?
- Sut allwn ni feithrin cysylltiadau rhwng y gwahanol ffermwyr a rheolwyr tir?
- A oes rôl o ran hwyluso a rheoli'r cysylltiadau hyn? Os felly, pwy fyddai mewn sefyllfa dda i wneud hynny?
- Sut ydym ni'n sicrhau nad yw'r cysylltiadau hyn yn cael eu colli wrth i dir newid dwylo neu wrth i amgylchiadau newid?

Trafodwyd ac ystyriwyd nifer o ffactorau ac mae'r rhain yn cael eu crynhoi yn ôl yr is-benawdau canlynol:

### Egwyddorion Ecosystem Integredig

Roedd y rhai a fu'n cymryd rhan yn y sesiynau grŵp o'r farn y dylid blaenoriaethu swyddogaeth yr ecosystem dros ganlyniadau unigol neu nifer y rhywogaethau. Ystyriwyd ei bod yn bwysig camu i ffwrdd oddi wrth ganlyniadau wedi'u diffinio, a rhoddwyd enghraifft yn nodi bod "cynefin sy'n cael ei adael yn anochel yn gwaethygu dros amser". Gofynnwyd a fyddai modd i'r cynllun fod yn agored i'w drafod wrth i flaenoriaethau newid, neu fel arall gallai "canlyniadau cadarnhaol tymor byr droi'n ganlyniadau negyddol dros y tymor hir".

Roedd ffermwyr o'r farn y dylid eu grymuso i wneud yr hyn a allant, a pheidio â gweithio tuag at y trothwy isaf, gan fod popeth yn cyfri. "Dechrau ar raddfa fach ac adeiladu ar lwyddiant. Dros amser, gallai'r manteision annog y rhai sy'n ymwneud ar raddfa fach i gynnig mwy".

Ar raddfa'r dirwedd, mae angen i'r cynllun fod yn glir ac yn gryno, gydag ymyriadau sy'n annog cyfranogiad ar bob lefel. Dylai dulliau ar raddfa'r dirwedd o fewn y cynllun symud oddi wrth flaenoriaethu lleihad yn nifer y da byw ar draws ardaloedd eang/tiroedd comin yn unig. "Mae angen i ni fynd i'r afael â than-bori ac ymlediad gwellt y gweunydd/brwyn meddwl ar dir uchel fel mater brys".





Trafodwyd na ddylai integreiddio ecosystemau olygu anelu at un math unigol o gynefin parhaus ar draws ardal eang. Rhannwyd profiad bod rhai cynefinoedd/rhywogaethau yn perfformio ar eu gorau ar eu pennau eu hunain. Ni ddylid colli'r rhain er budd "cysylltedd". "Dydw i ddim eisiau egluro wrth fy wyrion nad oes gloÿnnod byw Brith y Gors bellach oherwydd bod y cynefinoedd a fu'n eu cefnogi wedi cael eu plannu er mwyn uno coetiroedd."

Mynegwyd hefyd fod angen i ganlyniadau da arwain at lefel dda o dâl. "Mae angen iddo fynd ymhell y tu hwnt i incwm a ildiwyd".

Mynegwyd pryder y byddai'r nifer o gynghorwyr a chyfranogwyr sydd eu hangen er mwyn i hyn lwyddo ar raddfa ffermydd unigol ac ar raddfa'r dirwedd yn rhy ddrud, ac y byddai'n llyncu'r arian sydd ei angen er mwyn cyflawni ymyriadau a chamau gweithredu. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd ei bod yn annhebygol y bydd yr ymyriadau a'r gweithredoedd hanner mor effeithiol hebddynt.

### Gwrthdaro a Rhwystrau

Trafodwyd gwrthdaro rhwng amddiffyn rhywogaethau unigol a chysylltedd ar raddfa'r dirwedd, gyda galw i bwysoli a lliniaru materion o'r fath, weithiau drwy reolaeth dynnach a mwy cydgysylltiedig o ysglyfaethwyr, mewn tirwedd fwy cysylltiedig.

Ystyriwyd dynodiadau cynefinoedd lefel isel ar dir ymylol (e.e. glaswelltir asid lled-naturiol, glaswelltir heb ei wella, rhostir o ansawdd isel) fel rhwystr i gysylltu cynefinoedd cyfoethog ar draws tirweddau. Trafodwyd enghreifftiau o'r gweithgaredd Mapio Cyfleoedd Coetir yn gwrthod caniatáu plannu coed ar yr ardaloedd hyn. Dylid caniatáu i gynefinoedd toreithiog o ansawdd isel 'uwchraddio' i greu cynefinoedd o ansawdd uwch, neu ddarparu cysylltiadau o ansawdd da rhwng y cynefinoedd cyfoethocach hyn.

Cydnabuwyd na fydd rhai cymdogion/tirfeddianwyr yn gweithio gyda'i gilydd - "Dim ond gyda phobl sy'n fodlon gwrando y mae modd siarad".

Soniwyd yn benodol fod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn anodd cydweithio â nhw ar faterion nad ydynt yn ymwneud â'u prif flaenoriaethau. Roedd ffermwyr o'r farn na ddylid eu cosbi am fethu â gweithio gyda chymdogion nac am effeithiau negyddol gweithredoedd eu cymdogion ar ganlyniadau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw ar eu tir. Soniwyd fod effeithiau arferion rheoli CNC yn hynod o negyddol mewn rhai achosion, e.e. ymlediad pyrwydd, a chynnydd yn nifer yr ysglyfaethwyr sy'n bwydo ar adar sy'n nythu ar y ddaear. Soniwyd hefyd ei bod hi'n "amhosibl gweithio gyda datblygwyr" gan fod tir sy'n berchen i ddatblygwyr yn cyflawni diben cwbl wahanol i dir amaethyddol neu gynefin, ac mae'r blaenoriaethau'n anghydnaws. Dywedwyd nad oedd gan dyddynwyr (y cyfeirir atynt fel ffermwyr ar "raddfa un cae a merlen") ddiddordeb mewn materion ehangach y tu hwnt i anghenion eu parsel o dir.

Dywedwyd hefyd yn ystod y drafodaeth bod tir da "yn brin, ac na ellir ei aberthu i ddarparu cynefin neu gysylltiadau os yw'n peryglu hyfywedd y busnes… ni ddylid annog ffermwyr i ddibrisio eu hasedau trwy drawsnewid eu tir o fod yn dir da i dir gwael, ac ni ddylai'r ffermwyr wneud hynny chwaith". Ar lawer o ffermydd, mae lle i ddefnyddio ardaloedd llai cynhyrchiol i ddarparu cysylltedd (a chynhyrchiant ar lefel isel yn ogystal, gan ddibynnu ar faint y darn o dir), "dyma'r tir y dylem ganolbwyntio arno, nid caeau da a chynhyrchiol". Sylwer for cynhyrchiant yn asesiad goddrychol, a gallai tir 'cynhyrchiol' un fferm

fod yn dir 'ymylol' ar fferm arall - nid yw'n fater o asesu ansawdd tir yn gyffredinol.

Nodwyd fod llwybrau cerdded a llwybrau marchogaeth yn darparu cysylltedd a rhwystrau, yn ogystal â risg sylweddol i ecosystemau integredig (gan ddibynnu ar y defnydd a wneir ohonynt ac ymddygiad y cyhoedd). Roedd ffermwyr ar gyrion trefi yn nodi canlyniadau negyddol yn bennaf o ran cynefin o ganlyniad i fynediad y cyhoedd mewn rhai ardaloedd. Roedd un yn nodi ei fod yn cael 300,000 o ymwelwyr y flwyddyn, ond roedd buddion y mynediad hwnnw o ran iechyd a lles yn cael eu hystyried yn eithriadol o bwysig. Ni ddylid cosbi ffermwyr am weithredoedd y cyhoedd ar eu tir. Posibilrwydd o gael dull mwy hyblyg o ran hawliau tramwy (dargyfeiriadau ac ati) os oes difrod sylweddol yn cael ei wneud. Cydnabod, mewn ardaloedd gyda niferoedd uchel iawn o ymwelwyr, neu ardaloedd sy'n agos at gytrefi sylweddol, y bydd rhai pobl yn gwneud beth bynnag a fynnant, ac nid yw'r effaith wedi'i gyfyngu i'r hawliau tramwy a'r ardaloedd cyfagos yn unig.

Mae angen gollyngiad ar gyfer pori da byw organig ardystiedig (gan gyfeirio'n benodol at wartheg) ar diroedd comin. Nid yw tiroedd comin yn derbyn unrhyw fewnbynnau beth bynnag, a byddai'r buddion i'r ecosystemau o gael gwell rheolaeth ar bori (ac yn benodol mwy o bori gwartheg) yn sylweddol.

Dywedwyd ei bod yn anodd creu coetir ar dir sy'n cael ei rentu, gan ei fod yn tueddu i weithio yn erbyn budd y tenant neu'r landlord (yn dibynnu ar bwy sy'n derbyn y taliad neu'n ysgwyddo'r golled). Nodwyd hefyd bod rhent tir fesul ha yn aros yn gyson waeth beth yw cynnwys cynefin neu gysylltedd yn y parsel o dir. Mae mwy o gynefin yn arwain at lai o gynhyrchiant. Felly byddai angen addasu rhenti ar gyfer hyn, ond "mae angen mecanwaith hirdymor o iawndal i gydbwyso'r llyfrau".

## Gwella a chynnal cysylltiadau

Yn ystod y trafodaethau grŵp, roedd ffermwyr o'r farn bod llawer o feysydd eisoes wedi'u cysylltu, ac yn cefnogi rheolaeth y cysylltiadau presennol. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd gwrychoedd wrth ddarparu cysylltedd ond byddai cymhelliant gwirioneddol i lenwi bylchau mewn gwrychoedd a chysylltu gwrychoedd presennol yn ogystal â chreu rhai newydd yn fuddiol. Cafwyd barn bellach na ddylai'r cymhelliant fod yn seiliedig ar gost wirioneddol, ond dylai hefyd ei gwneud yn werth chweil i flaenoriaethu'r gwaith hwn o fewn amser gwaith sydd eisoes dan bwysau.

Trafodwyd cyfleoedd pellach ar gyfer cysylltedd drwy wrthbwyso carbon o fewn y diwydiant (e.e. o fusnesau llaeth dwys i bori eang ar fawndir) fel opsiwn i ddarparu math o gysylltedd nad yw'n ffisegol. Dewis arall a drafodwyd oedd cysylltu cynefinoedd trwy gysylltiadau systemig, e.e. trosglwyddo hadau o ddolydd gwair llawn rhywogaethau trwy gludo gwair a bwydo ar y ddaear.

Cafwyd canmoliaeth o'r opsiynau fel yr opsiwn 'cornchwiglen' yng nghynllun Tir Gofal (ond nid Glastir) fel rhywbeth a allai weithio ar draws sawl fferm. Mae ffiniau gwrychoedd a choridorau gyda ffens ddwbl yn ymddangos yn ffordd syml er mwyn cysylltedd ar raddfa'r dirwedd a gweithio ar draws ffermydd/gyda chymdogion. Mynegwyd beirniadaeth bod y rhain wedi'u heithrio'n benodol rhag cael eu hystyried yn Glastir, "tu hwnt o dwp!"





## Hwyluso a chydweithio

Nododd trafodaethau rôl ar gyfer 'cydlynwyr' cyflogedig (gyda chefndir a gwybodaeth ffermio ac ecoleg yn hanfodol) i fod yn gyfrifol am ardaloedd/plwyfi/trothwyon/tiroedd comin i integreiddio dulliau a blaenoriaethau trwy drafodaeth rhwng daliadau ac ar draws tirweddau. Ystyriwyd y byddai rôl cydlynydd yn ffordd o ddarparu cysondeb pan allai rhanddeiliaid eraill a'u blaenoriaethau amrywio, ac mae'n caniatáu ar gyfer trafod heb wrthdaro. Awgrymwyd y dylai'r swydd hon gael ei chyflawni gan rywun sy'n cael ei ystyried yn niwtral/diduedd (cyfeiriwyd yn benodol at raglen Cyswllt Ffermio a phrifysgolion/colegau) fel un o'r rhanddeiliaid/perchnogion tir; nid oedd Llywodraeth Cymru a bob amser yn cael ei hystyried yn 'niwtral'.

Cafwyd cefnogaeth i 'gynlluniau partneriaeth' wedi'u hariannu, yn cynnwys grwpiau o ffermydd (neu gynghorau tir comin), a pherchnogion tir eraill (e.e. cyfleustodau, CNC, ymddiriedolaethau tir) sydd wedi'u cysylltu naill ai'n ffisegol neu'n systematig, wedi'u creu gyda hwylusydd niwtral, gyda chynnydd mewn cyllid i'r rhai hynny sy'n gweithredu o dan gynlluniau o'r fath. Cyfeiriwyd hefyd at 'gytundebau stiwardiaeth gymunedol' ar diroedd comin (yn benodol y cynllun 'Skyline' ger Merthyr Tudful).

Cydweithio â diwydiannau tir eraill e.e. saethu - creu incwm o ddefnyddio coetiroedd, byddai hynny'n talu am blannu cnydau gorchudd a fydd hefyd yn arwain at wella cynefinoedd a chysylltedd. Mynegwyd fod budd dwy ffordd i gynnwys ysgolion, cymdeithasau, clybiau lleol (a thu hwnt i'r ardal leol) ac ati, yn enwedig wrth fonitro. Byddai'n ofynnol i greu fframwaith cofnodi cyffredinol er mwyn sicrhau'r bydd mwyaf. Derbyniodd 'grŵp ffermio Mega-ddalgylch' Dŵr Cymru ganmoliaeth am weithio ar y cyd.

Mynegwyd barn bod angen i denantiaid a landlordiaid weithio gyda'i gilydd i wella/creu cynefinoedd. Gall blaenoriaethau fod yn wahanol i'r ddau (mae angen i un gynyddu incwm tymor byr/canolig i'r eithaf er mwyn gwneud elw y tu hwnt i rent, ac mae'r llall eisiau cynnal gwerth yr ased o leiaf a derbyn incwm rhent gwerth chweil).

Roedd cyfraniad economaidd hefyd yn ffactor a mynegwyd barn ynglŷn â gwerthfawrogi amser ffermwyr. Os oes disgwyl i ffermwyr fynychu cyfarfodydd sydd wedi'u cynllunio i gyflawni gweithredoedd cydweithredol, fel unigolion hunangyflogedig mae angen eu talu am eu hamser yn enwedig o ystyried y bydd rhanddeiliaid eraill (e.e. swyddogion LlC/CNC) yn cael eu talu am fynychu, ac nid yw'r buddion ar gyfer busnes y ffermwr unigol yn unig.

*Gallai'r cynllun ganolbwyntio yn y blynyddoedd cynnar ar wella ansawdd ecosystemau er mwyn eu hadfer i gyflwr ffafriol. Bydd angen i ffermwyr ddatblygu sgiliau penodol mewn meysydd fel rheoli coetir neu reoli corsydd. Bydd angen arweiniad hefyd ar ddulliau hygyrch, mae'r awgrymiadau'n cynnwys:*


- Llyfrynnau poced
- Apiau ffôn symudol
- Tiwtorialau fideo ar-lein
- Hyfforddiant personol
- Mentora

Ni chafwyd unrhyw drafodaethau ynglŷn ag anghenion hyfforddi penodol ar gyfer mesurau rheoli unigol - ni fyddai wedi bod yn amserol ychwaith gan na ddarparwyd y fath fanylion am y cynllun ar adeg y trafodaethau un i un na'r sesiynau grŵp.

O ran lle mae ffermwyr yn dod o hyd i wybodaeth ac arweiniad, ni chafwyd trafodaeth mor fanwl yn ystod y sgyrsiau hyn ag y cafwyd yn ystod y trafodaethau yn y grŵp priddoedd. Roedd yn amlwg iawn yn y trafodaethau hynny, ac i raddau yn y trafodaethau hyn, bod ffermwyr wir yn gwerthfawrogi amrywiaeth y ffynonellau a'r ffyrdd y gallent gael gafael ar gyngor a gwybodaeth - o gyfarfodydd a thrafodaethau traddodiadol, i ffynonellau a gweminarau ar-lein. O ran y rhestr a ddarparwyd, roedd sylwadau penodol yn cynnwys "Opsiwn ar gyfer cefnogaeth ymarferol ac ymweliadau fferm gan swyddogion, ond hefyd y dewis o adrodd data o bell drwy ddefnyddio apiau ffôn symudol ar gyfer y nifer (cynyddol) o bobl sy'n gallu eu defnyddio/dysgu sut i'w defnyddio. Ni ddylid cynnig cymhelliant ariannol ychwanegol ar gyfer adrodd data gan ddefnyddio ap, gan ei fod hefyd yn gwneud bywyd yn haws ac yn gadael mwy o arian i'w wario ar rywbeth arall. Ap i gynorthwyo i adnabod cynefinoedd a chofnodi niferoedd rhywogaethau (sydd eisoes ar gael ar y farchnad) er mwyn lleihau'r angen ar gyfer "ymgynghorwyr cyffredinol". Cyfeiriodd eraill at botensial apiau o'r fath, ar yr amod y byddai hyfforddiant priodol ar gael ynglŷn â sut i'w defnyddio.

Yn gyffredinol, nododd ymatebwyr y byddent yn hyderus wrth reoli eu cynefin i gyflawni nodau'r cynllun (sgôr o 5 yn cyfateb i 'dda iawn').

Ffig 18








Yn yr un modd, roedd 67% o'r ymatebwyr o'r farn eu bod yn meddu ar y "set sgiliau angenrheidiol i ddarparu canlyniadau ecolegol ar y tir" maen nhw'n ei reoli. Felly, ar y cyfan, roedd cyfranogwyr yn teimlo'n hyderus yn eu gallu i gyflawni'r cynllun, ond bydd angen hyfforddiant penodol mewn rhai meysydd.

Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad oedd gan ymatebwyr ddigon o fanylion am y cynllun i wybod ar hyn o bryd beth fyddai 'cwrdd â nodau'r cynllun' yn ei olygu. Nododd un bod cwestiynau o'r fath "yn amhosibl eu hateb, gan nad yw nodau'r cynllun wedi'u hamlinellu na'u cyfleu'n ddigonol" - teimlad a adleisiwyd gan eraill. Felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli ymatebion ffermwyr i'w hyder wrth gyflawni'r cynllun.

*Gall ffermwyr chwarae rhan bwysig wrth reoli effaith rhywogaethau goresgynnol ar gefn gwlad. Fel y rhai sy'n rhyngweithio gydag 88% o dir Cymru o ddydd i ddydd, bydd Ffermwyr yn sylwi ac yn gallu ymateb i rywogaethau goresgynnol yn sydyn os bydd y cynllun yn eu caniatáu i weithredu. Beth yw barn ffermwyr ynglŷn â hyn?*

Soniodd nifer fach o ffermwyr yn y drafodaeth un i un eu bod yn defnyddio dull dethol wrth reoli chwyn yn hytrach na dull cyffredinol dros bob cae, e.e. roedden nhw'n defnyddio dull chwistrellu ardaloedd penodol.

Roedd llawer hefyd wedi cyflwyno system gylchdro ar gyfer tyfu cnydau i geisio lleihau baich o ran chwyn a phlâu (gan hefyd gynnig buddion o safbwynt bioamrywiaeth a ffrwythlondeb y pridd). Soniwyd hefyd am redyn a brwyn unwaith, ni chawsant eu trafod yn helaeth. Ni archwiliwyd y datganiad ynghylch rheoli rhywogaethau goresgynnol yn ystod cyfweliadau un i un, ond cawsant eu cynnwys yn y sesiynau grŵp.
Roedd y drafodaeth sesiwn grŵp yn seiliedig ar y datganiad canlynol:
"Gall ffermwyr chwarae rhan bwysig o ran rheoli effaith rhywogaethau goresgynnol ar gefn gwlad (e.e. Clymog Japan, Jac y Neidiwr, Cimwch Afon America, Cacynen Asia, Rhododendron, y Wiwer Lwyd ayb), yn bennaf am eu bod yn byw ar 88% o dir y wlad, ac yn gallu gweld ymddangosiad a lledaeniad y rhywogaethau hyn."

Archwiliodd hwyluswyr y cwestiynau canlynol gyda'r mynychwyr.

- A oes gennych chi brofiad o ddelio â rhywogaethau goresgynnol?
- Sut hoffech chi i'r cynllun hwn eich grymuso i ymateb i rywogaethau goresgynnol?
- A oes unrhyw beth yn eich rhwystro ar hyn o bryd?
- A oes unrhyw beth a fyddai'n eich helpu i flaenoriaethu'r gwaith o ymdrin â rhywogaethau goresgynnol fel rhan o'ch gwaith o ddydd i ddydd?

**Profiad o ddelio â rhywogaethau goresgynnol**
Roedd profiadau'r ffermwyr a fu'n cymryd rhan yn amrywiol, ac roedd rheolaeth rhywogaethau goresgynnol yn ddibynnol ar ffactorau economaidd. Roedd y rhai sydd â phrif ffyrdd, rheilffyrdd neu ardaloedd datblygedig yn ffinio neu'n torri ar draws eu tiroedd yn fwy profiadol o ran ymdrin â rhywogaethau goresgynnol.

Daethpwyd i'r casgliad yn ystod y drafodaeth nad rhywogaethau anfrodorol yw'r rhywogaethau goresgynnol yn unig; gyda'r amodau cywir, gall rhywogaethau brodorol ymddwyn mewn modd goresgynnol a bygwth niferoedd ac amrywiaeth rhywogaethau eraill o fewn eu cynefinoedd. Ymhlith yr enghreifftiau ryw'r ffordd y mae gwellt y gweunydd a brwyn meddal yn ymddwyn mewn rhai ardaloedd ucheldir; trafodir moch daear yn y cyd-destun hwn hefyd.

Ystyriwyd hefyd wahaniaethu rhwng rhywogaethau 'goresgynnol' a rhywogaethau anfrodol - gyda rhai'n gofyn "a oes angen i ni dderbyn bod rhai o'r rhywogaethau anfrodorol bellach yn rhan o'n hecosystemau ac yn darparu elfennau pwysig o waith yr ecosystem?"

Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â'r angen i fod yn fodlon newid dulliau rheoli cynefinoedd sy'n cefnogi'r rhywogaeth oresgynnol (mae rhywogaethau goresgynnol yn byw ac yn ffynnu mewn cilfachau, mae gormodedd ohonynt yn arwydd nad yw'r gilfach yn gytbwys gyda gweddill yr ecosystem. Mae angen i ni gamu i mewn ac ymyrryd e.e. pori mwy o anifeiliaid lle mae planhigion goresgynnol yn dod yn drech).

Trafodwyd yr angen i reoli rhywogaethau goresgynnol - hyd yn oed os yw hynny'n golygu gweithredoedd sy'n annymunol i rai rhannau o'r gymdeithas (rheoli gorboblogi rhywogaethau mamaliaid neu adar). Nodwyd hefyd bod angen cefnogaeth y llywodraeth i arwain ar y negeseuon cyhoeddus o gwmpas hyn. "Sut ydych chi'n egluro bod adferiad gwiwerod coch bron yn llwyr ddibynnol ar gloddio twll enfawr a'i lenwi â chyrff gwiwerod llwyd?!"

Soniwyd hefyd am gydnabod bod ein hinsawdd a'n tywydd yn newid neu eisoes wedi newid, gan fod o fudd anghymesur i rai rhywogaethau. Efallai bod ffactorau arweiniol bellach yn wahanol iawn i ddegawdau blaenorol ac mae'n bosibl na fyddai technegau rheoli a fu'n llwyddiannus yn y gorffennol yn ddigonol erbyn hyn. Daeth y drafodaeth i'r casgliad, felly, bod angen i ddulliau rheoli fod yn addasol.

Mynegwyd barn hefyd ynglŷn â phwysigrwydd defnyddio dull ar draws dalgylch cyfan, yn enwedig gyda rhywogaethau megis Himalayan balsam.

Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â'r cwestiwn canlynol yn ystod y sesiynau grŵp: "Sut hoffech chi i'r cynllun hwn eich grymuso i ymateb i rywogaethau goresgynnol? A oes unrhyw beth a fyddai'n eich helpu i flaenoriaethu'r gwaith o ymdrin â rhywogaethau goresgynnol fel rhan o'ch gwaith o ddydd i ddydd?"

Roedd yn well gan gyfranogwyr y syniad o "weithredu'n llym ac yn gynnar" wrth ymateb i rywogaethau goresgynnol a'u rheoli, gyda chymhelliant ariannol i wneud hynny. Roedd cyfranogwyr yn cefnogi'r syniad o gael tîm ar gyfer ardal/rhanbarth penodol. Cyfeiriwyd at geidwaid y Comisiwn Coedwigaeth yn y gorffennol fel enghraifft, ond gyda chylch gorchwyl ehangach o lawer er mwyn gweithredu mesurau rheoli.

Cyfeiriwyd at y ffaith bod angen strategaethau tymor hir. "Gweithredu'n llym, gyda rheolaeth lefel isel barhaus i ddilyn". Cydnabuwyd y byddai angen cefnogaeth ariannol sylweddol ynghyd â thaliadau rheoli parhaus ar mwyn gwneud hyn.

Gofynnwyd cwestiwn hefyd yn "A ddylid creu fframwaith ar gyfer rhywogaethau goresgynnol fel sydd ar gael ar gyfer clefydau hysbysadwy?" Byddai'r awdurdod perthnasol





ar gyfer y rhywogaeth oresgynnol bresennol yn rhyddhau cyllid ar gyfer yr ymyrraeth gychwynnol ynghyd â chyllid ar gyfer rheolaeth barhaus i'w atal rhag dychwelyd.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd pori anifeiliaid ar reoli a chyfyngu ar ymlediad planhigion ymledol. Canfuwyd nad oes llawer o blanhigion ymledol lle mae anifeiliaid yn pori. Mae angen cynnwys consensws ar gyfer hyblygrwydd i ganiatáu pori, hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae stoc wedi'u heithrio, fel dull hirdymor o reoli ail-dyfiant yn dilyn ymyrraeth gychwynnol gan fodau dynol o fewn cytundebau at y dyfodol.

Trafodwyd y dylai'r cynllun fod yn ofalus ynghylch cael gwared ar bori fel presgripsiwn ar gyfer cynefin gan y gallai annog goruchafiaeth gan rywogaethau goresgynnol, yn enwedig os ydynt eisoes wedi dechrau sefydlu. Amlygwyd fod moch yn gallu bod yn ateb ar gyfer twf rhedyn a llysiau'r gingroen, a'u bod yn rhan bwysig o'r broses o "drochi" datblygiad cynefin, gan ei gyfoethogi.

Cydnabuwyd y gallai rhai ffermwyr fod angen i adnabod rhywogaethau goresgynnol (cyfeiriwyd yn benodol gacwn Asia), yn enwedig pan fyddant yn ymddangos am y tro cyntaf. Trafodwyd sefydlu grwpiau o ffermwyr gyda chymorth hwylusydd (gyda mewnbwn gan arbenigwr) i ymdrin â rhywogaethau goresgynnol ar draws nifer o ffermydd/dalgylchoedd fel ffordd o gynllunio a thrafod ymyriadau wedi'u targedu. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r cynllun yn talu ffermwyr am eu hamser er mwyn mynychu grwpiau o'r fath ac am gyflawni ymyriadau, gyda'r dull hwn yn "arbed arian cyhoeddus yn y pen draw".

Ystyriwyd fod colli'r BPS sy'n sail i rywfaint o'r gwaith o reoli rhywogaethau goresgynnol ar lefel isel barhaus yn risg y gellid ei lliniaru trwy gyflwyno taliadau uniongyrchol am reoli. Fodd bynnag, cafwyd gwerthfawrogiad o'r heriau'n ymwneud â chyfiawnhau taliadau o'r fath. "Sut ydych chi'n egluro bod pori darn o dir wrth ymyl rheilffordd yn barhaus yn cadw clymog Japan i ffwrdd, pan na all y cyhoedd weld clymog Japan?"

Cafwyd cefnogaeth ofalus o rai ysglyfaethwyr naturiol (a chynyddu niferoedd/ail-gyflwyno) - yn enwedig bele'r coed mewn perthynas â'r wiwer lwyd. Pwysleisiwyd y byddai'r ysglyfaethu lefel isel y maent yn ei ddarparu mewn gwirionedd ond yn llwyddiannus pe byddai'n gysylltiedig â strategaeth gychwynnol o saethu a thrapio "sylweddol". Bu trafodaeth hefyd am eryr cynffonwen a'r eryr euraid a'u heffaith ar ysglyfaethwyr (yn enwedig llwynogod). Fodd bynnag, y teimlad oedd y byddai eu heffaith ar rywogaethau gwyllt ac amaethyddol eraill (a allai fod mewn perygl o ddifodiant) yn risg sylweddol ac anorchfygol.

Trafodwyd rheolaeth syml ar ysglyfaethwyr: "beth am £1 y gynffon ar gyfer gwiwerod llwyd?" Anogwyd gweithio ar draws sectorau a gyda diwydiannau eraill hefyd: "Mae ciperiad yn meddu ar nifer o'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdrin â rhywogaethau goresgynnol. Byddai defnyddio eu gwybodaeth a'u harbenigedd hefyd yn darparu ffrydiau incwm ychwanegol ar eu cyfer".

**Rhwystrau a Rhwystredigaethau**

Cydnabuwyd yn y sesiynau grŵp ei bod yn anodd iawn mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol os nad yw eich cymdogion yn ffermwyr - amlygwyd fod cwmnïau cyfleustodau, rheilffyrdd, priffyrdd a datblygwyr hapfasnachol yn benodol yn broblemus. Cafwyd beirniadaeth o awdurdodau lleol a chyhoeddus yn trin rhywogaethau goresgynnol hyd at ffiniau eu tir, ond heb groesi'r ffens. Beirniadwyd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd am ei diffyg cydweithrediad a dull rhagweithiol wrth ymdrin â rhywogaethau goresgynnol ar

eu tir, gan gyfeirio'n benodol at wiwerod llwyd a cheirw.

Cydnabuwyd yn ystod trafodaethau grŵp fod angen rhagor o arian ar awdurdodau lleol i allu neilltuo cyllidebau i ymdrin â materion ar ymylon ffyrdd er enghraifft, neu fel arall, bydd unrhyw waith ar dir fferm yn cael ei danseilio. Ar ben hynny "ni ddylai'r ffermwr dalu'r gost ar gyfer rhywogaethau goresgynnol sy'n dod i mewn o'r tu hwnt i ffin y fferm".

Trafodwyd egwyddorion ffermio organig a'r angen am randdirymiadau i alluogi ffermwyr organig i ddefnyddio glyffosad, a chwynladdwyr/plaladdwyr priodol eraill wrth fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol heb beryglu eu statws organig.

*Un o'r nifer o gamau gweithredu i'w cynnwys yn y cynllun fydd plannu coed ar gyfer creu coetir. Mae coetiroedd amrywiol yn cynnwys coed llydanddail brodorol a choed eraill nad ydynt yn darparu ffrydiau incwm, neu'n darparu ffrydiau incwm dros dymor hwy. Gallai cynnal a chadw a chwympo dethol o fewn y coetiroedd hyn fod yn seiliedig ar gynlluniau hirdymor i sefydlu ecosystemau cynhyrchiol er mwyn cefnogi amrywiaeth naturiol ac amaethyddol fel ei gilydd. Beth yw barn ffermwyr ynglŷn â hyn?*

Roedd nifer o ymatebwyr yn ystod y trafodaethau un i un wedi plannu lleiniau cysgodi, gwrychoedd, coed unigol, a chlystyrau ehangach o goed dros y blynyddoedd diwethaf (rhai ar raddfa fawr), ac er na chafodd ei nodi'n benodol bob tro, mae'n bosibl eu bod wedi gwneud hynny fel rhan o gynllun amaeth-amgylchedd.

Esboniodd nifer o gyfranogwyr hefyd rinweddau coed a gwrychoedd ar fferm, o safbwynt cynhyrchiant (ee cysgodi da byw) a chynefin. Ar y pwynt olaf, soniodd nifer o ffermwyr am rôl gwrychoedd fel modd o gysylltu gwahanol flociau o gynefin, yn ogystal â chynnig cynefin ynddynt eu hunain.

Er bod plannu coetir newydd yn cael ei ystyried yn bositif ar y cyfan, cafwyd sylwadau hefyd ynglŷn â'r angen i ddiogelu a rheoli coetir presennol a choed hynafol yn effeithiol oherwydd eu gwerth o ran carbon a bioamrywiaeth. Soniwyd hefyd am adfywio naturiol fel ffordd i annog gorchudd coetir, er nad oedd graddfa'r rheolaeth yr oedd hynny'n ei olygu neu a oedd yn angenrheidiol yn glir.

Roedd y ffaith bod rhai o'r cyfranogwyr wedi cael eu cosbi ar ffurf diddymiadau o'r Taliad Sylfaenol oherwydd dwysedd y coed ar rannau o'u ffermydd yn amlwg wedi arwain at brofiad chwerw a hirdymor i rai ohonynt. Efallai bod hyn wedi lleihau'r diddordeb mewn cynyddu gorchudd coed ar ffermydd, ac wedi cadarnhau'r syniad nad yw ardaloedd coediog yn darparu'r un elw â 'tir sy'n cael ei ffermio'; er, wrth gwrs, cydnabyddir na fyddai'r cynllun nesaf yn defnyddio'r un rheolau.

Codwyd pryder ynghylch goblygiadau clefydau (e.e. clefyd coed ynn) neu dywydd gwael (e.e. gwanwyn sych) ar gyfranogwyr y cynllun, lle gallai hynny olygu nad yw'r coetir/coed yn sefydlu'n llwyddiannus heb unrhyw fai ar berchennog y tir - byddai rhywfaint o eglurder ynglŷn â chyfrifoldeb pwy fyddai hyn (a phwy fyddai'n ysgwyddo'r risg) yn ddefnyddiol. Cydnabuwyd hefyd y bydd rhywfaint o fethiant yn annatod wrth geisio tyfu coed neu wrychoedd, ac y dylai'r cynllun, felly, fod yn ddigon hirdymor i allu ariannu costau ail-sefydlu.

Yn yr un modd, ystyriwyd fod yr ymrwymiad hirdymor gan ffermwyr sy'n ymrwymo i gytundebau creu coetir (a'r rheolaeth ddilynol) yn rhywbeth a ddylai gael ei wobrwyo'n briodol, e.e. "Mae'r ffaith bod nifer o'r gweithredoedd hyn yn gallu tynnu tir cynhyrchiol



CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

allan o'r system am nifer o flynyddoedd yn ymrwymiad sylweddol gan y ffermwr, ac mae angen cydnabod hynny'n llawn".

Byddai integreiddio'r coetir yn well i'r busnes fferm yn helpu ffermwyr i weld gwerth economaidd eu coetir, ac nid o reidrwydd i edrych arno fel rhywbeth sy'n 'cystadlu' am dir a allai gael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu. Nododd un ymatebwr, "mae'r polisi coedwigaeth yng Nghymru wedi bod yn gwbl aflwyddiannus hyd yn hyn er mwyn annog pobl i blannu mwy o goed - nid yw'n fater o daflu arian tuag at grantiau plannu coed yn unig, mae angen i'r polisi coedwigaeth gefnogi'r gweithredoedd, a darparu cymhelliant ariannol er mwyn cynnal coetiroedd fel rhan fasnachol o'u busnesau".

Er mai dim ond un ymatebwr a nododd hyn yn ystod y sesiynau un i un, mae'n bendant yn rhywbeth sydd wedi cael ei adrodd ar lafar, sef bod rhai perchnogion tir yn pryderu y byddai cynyddu'r gorchudd coed yn arwain at gynnydd mewn plâu amaethyddol/ysglyfaethwyr, yn enwedig llwynogod, a allai arwain at gynnydd mewn colledion da byw yn y pen draw. Roedd yr ymatebwr yn cysylltu'r cynnydd mewn gorchudd coed gyda chynnydd mewn risg TB buchol oherwydd y tebygolrwydd o gael mwy o gyswllt rhwng gwartheg a moch daear. Efallai y bydd hwn yn faes diddorol ar gyfer sgwrs bellach yn nes ymlaen.

*Gallai'r cynllun gefnogi gweithredoedd sy'n ceisio efelychu systemau naturiol er enghraifft pori grŵp o anifeiliaid gyda'i gilydd. Mae'r arfer hon un golygu symud da byw yn rheolaidd, yn aml yn ddyddiol, er mwyn ceisio efelychu symudiad naturiol grŵp o anifeiliaid sy'n cael ei erlid gan ysglyfaethwyr, neu chwilio am borthiant newydd oherwydd prinder neu ddiflastod. Beth yw'r farn ynglŷn â hyn a dulliau tebyg?*

Soniodd pedwar ymatebwr yn ystod y trafodaethau un i un yn benodol eu bod yn pori eu hanifeiliaid (tri ohonynt yn cadw gwartheg a'r llall yn cadw defaid) ar system bori cylchdro. Roeddent yn honni bod y system hon yn cynnig nifer o fuddion o safbwynt cynnyrch, gyda thwf glaswellt yn cael ei annog drwy ganiatáu cyfnodau gorffwys rhwng bob cyfnod pori, ond hefyd o safbwynt bioamrywiaeth.

*Ni ddylai ffermwyr deimlo chwaith fod angen iddynt weithredu ar eu pen eu hunain. Mae'r cynllun yn ceisio cefnogi ffermwyr i weithio gyda chymdogion, y gymuned a'r genhedlaeth nesaf i gyflawni'r dasg o adeiladu gwytnwch ecosystem gyfan. Byddai gwneud hynny hefyd yn cefnogi peth o'r amcan llesiant dynol trwy ailgysylltu pobl â lle a natur, yn ogystal ag ochr gynhyrchiol busnes y fferm. Beth yw barn ffermwyr ynglŷn â hyn?*

Roedd rhai o'r sylwadau'n nodi ei bod hi'n arbennig o bwysig i'r genhedlaeth nesaf o reolwyr tir i gael mynediad at y cynllun, wedi'i ategu o bosibl gyda thaliad ychwanegol. Roedd yn amlwg o nifer o ymatebion bod y rhai a holwyd yn gwerthfawrogi eu cymunedau, ac yn teimlo'n bryderus ynglŷn â'r ffaith bod pobl ifanc yn gadael ardaloedd gwledig oherwydd prinder gwaith ynghyd â ffactorau eraill (soniwyd am yr effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg sawl gwaith).

Barnwyd fod diwydiant amaethyddol hyfyw yn hynod o bwysig er mwyn mynd i'r afael â rhywfaint o'r dirywiad a welwyd dros amser, a chafwyd cydnabyddiaeth eang o bwysigrwydd ac arwyddocâd cynllun amaeth-amgylchedd priodol fel rhan ganolog o'r broses o gefnogi, ac yn wir i dyfu'r sector.

Soniwyd hefyd am gyllid posibl i gefnogi'r sector bwyd-amaeth ehangach (e.e. lladd-dai lleol) er mwyn cynyddu'r gwerth economaidd. Yn yr un modd, cafwyd canmoliaeth frwd i

fuddion cymunedol/cymdeithasol cefnogi ffermydd teuluol bach. Roedd un ymatebwr yn dadlau y dylid capio taliadau (ar swm o £30,000) yn enwedig ar gyfer ffermydd mynydd gyda llawer iawn o dir ond a allai fod â gofynion cymharol isel o ran llafur. Roedd yr un ymatebwr yn dadlau bod rhaid i unrhyw daliadau ychwanegol fod yn gysylltiedig â chreu swyddi/cyflogaeth.

Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynglŷn â barn ffermwyr ynghylch yr hyn y byddai'r cyhoedd eisiau i ffermwyr ei gyflawni ar dir cynhyrchiol, y tu hwnt i fwyd. Cafwyd ymateb cymysg gyda nifer yn sôn am storio carbon a lleihau llifogydd, fodd bynnag, cafwyd nifer fawr o ymatebion yn ymwneud â gwerth cymdeithasol y cynefinoedd a ddarperir ar ffermydd. Rhoddwyd nifer o ddatganiadau a oedd yn tanlinellu sut y cafodd cymdogion/y gymuned a thwristiaid/ymwelwyr bleser o ardaloedd o'r fath, e.e.:

- "Mynediad i fannau agored (gwelir hyn yn arbennig dros COVID) - mae'n wasanaeth i'n cymunedau lleol, nid yw'n ymwneud â thwristiaeth, mae angen lle ar bobl leol. Amwynder gweledol, yr olygfa, mae pobl yn hoffi gweld yr ardaloedd hyn fel y maent - rydym wedi cael llawer o sylwadau am yr ardal gan y bobl sydd wedi bod yn stopio ac yn siarad yn ystod y cyfnod clo."
- "Mae gennym ni lawer o lwybrau cerdded ar y tir - rydyn ni wedi arfer â nhw. Maent yn ddefnyddiol ac yn cael eu mwynhau gan y gymuned leol (yn enwedig yn ystod y cyfnod clo)."
- "Rydyn ni wedi gweithio gyda grwpiau sydd wedi defnyddio gwaith fferm i wella iechyd meddwl pobl ifanc, carcharorion, yr henoed, pobl â phroblemau iechyd meddwl - cawsant hefyd gynnyrch o'r fenter, roeddent yn gallu mynd â'r cynnyrch adref gyda nhw, a hyd yn oed gwerthu ychydig ohono (mae cynnyrch gardd yn gydran bwysig yn hyn o beth). Roedd hyn oll yn gysylltiedig â chynhyrchu a bwyta bwyd, ac roeddem ni'n arfer bwyta gyda'n gilydd, yn ogystal â thyfu'r bwyd."

Roedd rhai eisoes yn manteisio ar y buddion hyn trwy eu cydblethu â'u hatyniadau i dwristiaid, a darparu cyfleoedd addysgol, e.e.:

- "Llwybrau cerdded a mynediad - mae llawer o bobl yn eu defnyddio. Rydyn ni'n darparu seddi o amgylch ein pyllau, lle i gymryd amser ac ymlacio."
- "Mae llawer o bobl, yn enwedig pobl ifanc, yn dod i fyny yn ystod ŵyna. Rhoi llaeth i ŵyn gyda photel, creu cyswllt gydag anifeiliaid a bwyd. Daw llawer i fyny o Gaerdydd a Llundain. Cael profiad ymarferol, gweld cylch bywyd yn uniongyrchol. Addysg."
- "Defnyddio gwirfoddolwyr a phobl sydd wedi ymddeol i gadw cofnodion/arolygu ar gyfer arolygon ecolegol. Darperir hyfforddiant i bobl leol fynd allan a chofnodi canlyniadau, cysylltu'r bobl hynny â ffermwyr, fel y cynllun SMS Better Connections yn Llandudoch. Mae'n cynnig buddion o ran lles i'r gwirfoddolwyr hefyd, annog pobl unig i godi allan ac yn atgyfnerthu eu rhwydweithiau cefnogi. Yn cysylltu ffermwyr â'r rhai yn y gymuned nad ydyn nhw'n cwrdd â nhw fel arall."

Gwnaed nifer o ddatganiadau a oedd yn pwysleisio sut roedd cymdeithas wedi colli cysylltiad ag amaethyddiaeth a sut mae bwyd yn cael ei gynhyrchu, a bod hyn yn golled i bawb, gan gynnwys ffermwyr, gan nad oedd cymdeithas yn gweld nac yn gwerthfawrogi gwir gost bwyd a gynhyrchwyd yn gynaliadwy. O'r ymatebion, roedd yn ymddangos y byddai nifer o ffermwyr yn croesawu cyfleoedd i ryngweithio â'r cyhoedd i helpu i wyrdroi'r dirywiad hwn trwy groesawu ymwelwyr, grwpiau o ysgolion ayb ar eu ffermydd.





## 8.3 Cyfleoedd i Ddatblygu'r Fferm

Roedd yr elfen hon o'r prosiect yn edrych sut y gall cynllunio busnes, meincnodi a rhyngweithio gyda data'r farchnad arwain at wella busnesau. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i ddadansoddiad SWOT. Mae'r system hon yn nodi ffactorau allweddol sy'n effeithio ar fusnes fferm a gall helpu i nodi meysydd gweithredu.

Casglwyd ymatebion sy'n berthnasol i'r thema hon yn ystod trafodaethau un i un gyda 68 o ffermwyr yn cymryd rhan. Cafwyd trafodaeth bellach hefyd yn ystod saith sesiwn rithwir mewn grŵp a gynhaliwyd ar ôl y trafodaethau un i un. Roedd themâu eang yn trafod uchelgais a nodau, dadansoddiad SWOT o'r busnes, strategaethau fferm, meincnodi a monitro yn sylfaen i'r pwnc trafod hwn.

Trosolwg cyffredinol o'r trafodaethau un i un a'r trafodaethau grŵps


1. **Yr angen i ddefnyddio ymgynghorwyr credadwy, dibynadwy ac uchel eu parch** – roedd rhywfaint o amheuaeth ymhlith nifer o'r rhai a holwyd ynghylch gwerth ymgynghorwyr. Teimlai ffermwyr y dylai'r ymgynghorwyr gael rhywfaint o hygrededd cyn y byddent yn ystyried eu barn a'u hawgrymiadau o ddifrif.
2. **Ychydig iawn oedd wedi cynnal dadansoddiad SWOT ysgrifenedig ffurfiol** – er i sawl un sôn y byddent yn gwneud hynny'n anffurfiol.
3. **Nid oedd ffermwyr eisiau cael eu cosbi am fethu â chyrraedd targedau busnes** – er bod cytundeb cyffredinol bod gosod nodau a thargedau yn bwysig ac yn hanfodol i ysgogi gwelliannau busnes, ni ddylai taliadau fod yn gysylltiedig â chyrraedd y targedau hynny oherwydd dylanwad ffactorau allanol.
4. **Dylai cymorth ganolbwyntio ar wella cynhyrchiant** – nodwyd amrywiaeth o themâu ynghyd ag ystyriaethau o gynlluniau presennol. Mae hygyrchedd ar gyfer ffermydd o bob maint yn bwysig. Mae angen rhagor o fanylion am y cynllun er mwyn pennu agweddau ar feincnodi a monitro datblygiad ffermydd yn llawn.

### Uchelgais a nodau

**A ydych yn gosod nodau/targedau ar gyfer eich busnes eich hun?**
Roedd gosod nodau neu dargedau busnes yn arfer cyffredin gyda'r rhai a fu'n cymryd rhan yn y sesiynau un i un. Roedd 30 o'r 68 a gymerodd ran yn nodi eu bod yn gosod nodau/targedau, gyda 24 arall yn nodi eu bod yn gwneud hynny i raddau. Aeth y rhai a nododd nad oeddent yn gosod nodau na thargedau ymhellach i nodi amgylchiadau unigol pam nad oeddent yn gwneud hynny. Roedd y rhesymau'n cynnwys ymddeoliad ar y gweill, amcanion y busnes, a newid yn y busnes o ganlyniad i brofedigaeth.

Adborth pellach a dderbyniwyd gan y rhai sy'n gweithredu fel unig fasnachwyr neu mewn partneriaethau oedd bod nodau a thargedau'n anffurfiol i raddau helaeth, ac yn seiliedig ar gyfathrebu a dealltwriaeth rhwng y rhai sy'n ymwneud â rhedeg y busnes. Byddai gan fusnesau fferm mwy a mwy cymhleth yn enwedig yn y sector llaeth dargedau mwy ffurfiol.


Ffig 19




Gellir grwpio'r mathau o nodau sy'n cael eu gosod gan fusnesau ffermio ar hyn o bryd fel a ganlyn:

- Cynhyrchiant; mae enghreifftiau'n cynnwys cynyddu cyfraddau twf, cynnyrch fesul anifail/fesul ha, lleihau cyfraddau marwolaeth, ymwrthedd a'r defnydd o gyffuriau, a dulliau rheoli systemau.
- Lleihau costau; gwell defnydd o laswelltir, prynu llai o ddwysfwyd, lleihau costau gorbenion/peiriannau
- Proffidioldeb; gwella perfformiad fferm, ffrydiau incwm amgen ac ychwanegu gwerth
- Tir ac amgylchedd; statws pH pridd, isadeiledd fferm, gwelliannau amgylcheddol
- Twf ac olyniaeth busnes

Ffig 20








Gofynnwyd i'r ffermwyr a gymerodd ran "Pa fath o nodau neu dargedau y dylid eu hystyried fel rhan o'r cynllun SFS? (O gofio y byddai angen i'r rhain fod yn berthnasol i bob math o fferm a sefyllfaoedd personol/ariannol)". Er y cafwyd sylwadau'n ymwneud â chyfyngiadau dull safonol ac amrywiaethau rhwng gwahanol fusnesau fferm, mae'n ymddangos bod cytundeb bod cynhyrchu bwyd a phroffidioldeb yn nodau trosfwaol.

Roedd rhai o'r is-dargedau neu nodau mwy manwl a oedd yn berthnasol i bob math o fferm yn cynnwys:

- Cynhyrchiant ac effeithlonrwydd technegol
- Iechyd yr amgylchedd a phridd
- Iechyd a lles anifeiliaid

### Nodau a Thargedau gydag Uchelgeisiau Economaidd

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr "A ddylai nodau/targedau a bennwyd fel rhan o'r cynllun SFS gynnwys elfen o uchelgais economaidd? (A wnewch chi ymhelaethu ar yr hyn sy'n rhesymol ai peidio)"
Roedd hanner y rhai a fu'n cymryd rhan yn y trafodaethau (33) yn credu y dylid cynnwys uchelgais economaidd er mwyn sicrhau bod busnesau'n gweithio tuag at broffidioldeb gan fod hynny'n sylfaen ar gyfer pob agwedd arall. Cafwyd rhai rhybuddion mewn perthynas â grym y farchnad ac uchelgais wleidyddol ar gyfer bwyd 'rhad' o safbwynt pa mor rhesymol yw'r uchelgais.

Roedd bron i chwarter (14) yn ansicr a ddylid ei gynnwys yn bennaf oherwydd y gwahanol lefelau o uchelgais economaidd rhwng busnesau.

Roedd y rhai a ddywedodd na ddylid ei gynnwys yn mynegi pryder o ran sut y gallai ffactorau allanol effeithiol ar botensial economaidd.

Mae'n ymddangos bod cyfle i gynnwys nodau neu dargedau sydd ag elfen o uchelgais economaidd, ond dylai fod o fewn rheolaeth y ffermwr ac ni ddylai ffactorau allanol ddylanwadu arno.

### Uchelgeisiau Personol

*"Sut all y cynllun ystyried uchelgeisiau personol (h.y. y pethau rydych am eu cyflawni drosoch eich hun mewn bywyd) a allai effeithio ar botensial economaidd busnes y fferm? (e.e. olyniaeth, ymddeoliad, buddiannau eraill ac ati)"*

Roedd ymatebwyr yn ystod y trafodaethau un i un yn credu y dylid cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd o fewn y cynllun, ac y gallai cael lefel sylfaenol o gefnogaeth gyda chymhelliant ar gyfer gwelliannau fod yn ffordd o ystyried uchelgais bersonol.

Mae'n bwysig rhoi ystyriaeth a chefnogi mentrau arallgyfeirio a mentrau eraill a'u cyfraniad at deuluoedd ffermio, yn ogystal â bod yn hyblyg ac yn gefnogol i anghenion y genhedlaeth iau, ynghyd ag olyniaeth ac ymddeoliad.

Ni ddylai'r cynllun chwaith gyfyngu ar y cyfle i ymgymryd â newidiadau mawr i fusnesau ffermio.

*"A oes angen i bob nod/targed fod yn fesuradwy, neu a oes modd iddynt fod yn ddyheadau?"*

Nid oedd cyfeiriad clir mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ac roedd y ddau ddull yn cael eu cydnabod. Byddai gallu gosod eu nodau eu hunain yn sicrhau gwell effaith ac yn caniatáu ar gyfer dylanwadau allanol sy'n berthnasol i'r busnes ffermio.

*"A ddylai nodau/targedau a nodwyd o fewn y SFS fod am gyfnod penodol o amser? (e.e. blwyddyn, 5 mlynedd 10 mlynedd)"*

Roedd mwyafrif y rhai a fu'n rhan o'r trafodaeth un i un yn credu y dylai nodau neu dargedau gael eu cyflawni o fewn amser penodol, ar yr amod bod yr amserlen yn gymharol a bod digon o hyblygrwydd o fewn y cynllun i ganiatáu ar gyfer newid mewn amgylchiadau neu oedi wrth gyflawni o ganlyniad i ffactorau allanol.

**Pwysigrwydd trafod uchelgeisiau ar gyfer busnesau ffermio**

Trafodwyd hyn fel rhan o'r sesiynau grŵp. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr drafod: **Sut mae ffermwyr yn teimlo ynglŷn â thrafod uchelgeisiau ar gyfer eu busnes ffermio?**

Yn gyffredinol, roedd ffermwyr yn gymharol agored ynglŷn â thrafod eu huchelgeisiau. Mae llawer yn gwneud hynny'n anffurfiol o amgylch bwrdd y gegin ond dim ond ychydig ohonynt a fyddai'n dogfennu eu huchelgeisiau ar bapur.

Yn ddiddorol, roedd rhai yn teimlo bod ffermwyr iau yn fwy agored i rannu eu nodau ag eraill, gan nodi y gallai fod ganddyn nhw feddylfryd gwahanol i genedlaethau hŷn. Nid oedd hon yn farn gyffredinol o fewn y trafodaethau ond roedd sawl un yn credu y gallai uchelgais ffermwyr newid gydag oedran. Dywedodd un ffermwr "yr ieuengaf ydych chi, y mwyaf di-hid ydych chi - gydag oedran daw cyfrifoldeb". Wrth i ffermwyr fynd yn hŷn, credir bod eu nodau'n canolbwyntio'n fwy ar olyniaeth yn hytrach na chael eu harwain gan ffactorau ariannol.

Ystyriwyd bod paratoi cynllun olyniaeth clir yn uchelgais hirdymor bwysig i fusnesau ffermio. Dywedodd un ffermwr "mae'n iach annog trafodaethau aml-genhedlaeth o fewn teuluoedd". At hynny, ystyriwyd bod olyniaeth yn cael dylanwad mawr ar sut mae ffermwyr yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, sut y maent yn datblygu eu polisi ffermio ac a ydynt yn dilyn unrhyw nodau ehangu busnes.

Ymhlith yr agweddau eraill a allai o bosibl ddylanwadu ar sut mae ffermwyr yn cynllunio ac yn gosod uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol roedd p'un a oedd y ffermwr yn berchen ar y fferm neu'n denant, lefel y benthyca o fewn y busnes, lleoliad y fferm ac ansawdd y tir.

Waeth beth fo amgylchiadau unigol y ffermwr, roedd pawb a gymerodd ran yn y gweithgaredd grŵp yn credu bod cael uchelgeisiau yn bwysig i'w busnesau. Dywedon nhw fod "cael uchelgeisiau yn beth da - rhaid bod gennych chi rywbeth i anelu tuag ato". Nodwyd hefyd fod uchelgeisiau yn helpu i "ddarparu ffocws" a bod yn rhaid "eu hadolygu'n rheolaidd" wrth i ni "geisio gwella'r hyn yr ydym ni'n ei wneud o flwyddyn i flwyddyn".





Er y cydnabuwyd nad oedd yn rhaid i bob uchelgais fod yn ariannol, roedd yn amlwg bod yn rhaid i broffidioldeb fod ar frig y rhestr flaenoriaethau i nifer o ffermwyr. Dywedodd un ffermwr "er bod ffermio yn ffordd o fyw ac yn swydd, mae angen iddo fod yn fusnes proffidiol yn y tymor hir o hyd". Gyda'r pwysau sylweddol ar elw ffermwyr dros y degawdau diwethaf, roedd nifer yn teimlo bod "ffermio wedi mynd i bwysleisio mwy ar yr agwedd fusnes" a bod "rhaid i arian fod yn flaenoriaeth" cyn i chi allu edrych ar y buddion cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach y gall ffermio eu cynnig. Er mwyn dangos pwysigrwydd hyfywedd ariannol ymhellach, dywedodd un ffermwr mai ei "uchelgais pennaf dros y 30 mlynedd diwethaf oedd goroesi".

Roedd yna hefyd falchder cryf ymhlith y rhai a gymerodd ran. Roedd traddodiad ffermydd teuluol yn cael ei ystyried yn gonglfaen i hunaniaeth amaethyddiaeth yng Nghymru. Yn un o'r gweithgaredd grŵp dywedodd ffermwr "ni yw'r seithfed genhedlaeth o'n teulu i ffermio yma - mae gennym etifeddiaeth i'w gwarchod". Mewn llawer o achosion, roedd ffermwyr wedi troi at arallgyfeirio neu gyflogaeth oddi ar y fferm fel ffordd o amddiffyn yr etifeddiaeth honno. Dywedwyd bod "realiti masnachol yn effeithio ar ein huchelgeisiau - ni all y fferm gefnogi dau deulu felly rydym wedi gorfod chwilio am incwm a chyflogaeth oddi ar y fferm".

Mae'n bwysig nodi hefyd bod rhai ffermwyr yn amharod i rannu rhai o'u huchelgeisiau gan eu bod yn pryderu am gystadleuaeth i'w busnes. Er enghraifft, dywedodd un ffermwr "Nid wyf am rannu fy syniadau arallgyfeirio gydag unrhyw un" a dywedodd un arall "Nid wyf am ddweud fy nghyfrinachau wrth bobl". Felly, mae rhywfaint o gyfrinachedd masnachol o fewn busnesau ffermio.

Sylw arall a wnaed gan yr hwylusydd yn un o'r sesiynau grŵp oedd y gwahaniaethau o ran agwedd ffermio ac ymddygiad rhwng sectorau. Er enghraifft, ystyriwyd bod ffermwyr llaeth yn fwy agored gyda'u ffigurau cynhyrchu ac yn fwy parod i rannu gwybodaeth trwy feincnodi, er enghraifft, o'i gymharu â ffermwyr yn y sector cig coch. Er bod hyn ddatganiad cyffredinol, ac yn bendant ddim yn wir ym mhob achos, roedd hi'n ddiddorol gweld y gwahaniaethau tybiedig mewn ymddygiad.

O ran y ffactorau y mae ffermwyr yn eu hystyried wrth osod eu huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol, ystyriwyd bod dyluniad a strwythur y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn bwysig iawn. Dywedodd un ffermwr y byddai "cael arweiniad clir gan y llywodraeth ynglŷn â sut y bydd pethau'n edrych yn y dyfodol yn ein galluogi i gynllunio'n well". Roedd sawl un yn poeni am fynediad i'r cynllun newydd, yn enwedig y rhai a oedd wedi bod yn rhagweithiol wrth wneud llawer o waith amaeth-amgylchedd yn y gorffennol, a gwnaed y sylw "byddem yn teimlo'n ddig iawn pe byddem ar ein colled o gymryd rhan yn y cynllun oherwydd ein bod ni wedi gwneud popeth ac nad oedd dim mwy i'w wneud".

Roedd pob gweithgaredd grŵp yn gytûn ynglŷn â rôl ymgynghorwyr. Mae rhai ffermwyr yn defnyddio ymgynghorwyr i "ddod â syniadau ffres newydd i mewn". Fodd bynnag, mae angen i gyngor fod yn benodol i'r fferm unigol gan fod amgylchiadau pawb yn wahanol. Beirniadaeth un ffermwr ynglŷn â'r ymgynghorwyr a ddefnyddiwyd yn y gorffennol oedd bod "pob un o'u hadroddiadau'r un fath" ac nid oedd ffermwyr yn eu gwerthfawrogi gan eu bod yn teimlo bod y cynnwys wedi cael ei gopïo a'i ludo. Dywedodd ffermwr arall "mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn ystyried rhoi cynghorydd unigol ar bob fferm yng Nghymru yn fy mhoeni - bydd sicrhau eu bod yn cael pobl o'r ansawdd

cywir ledled Cymru yn her!".

Mynegwyd teimlad clir bod diffyg cynghorwyr o ansawdd da ar gael, ac na fyddai ffermwyr yn derbyn cyngor os nad oeddent yn parchu ac yn ymddiried yn y person. Dywedodd ffermwr a oedd wedi bod yn Fferm Arddangos gyda Cyswllt Ffermio "chewch chi ddim gwell adborth na heriau o gymheiriaid i gymheiriaid gan ffermwyr eraill" a "pheidiwch â thanbrisio gallu ffermwyr i ddatblygu eu huchelgeisiau eu hunain". Nodwyd hefyd mai ychydig iawn o ymgynghorwyr, os o gwbl, fyddai'n meddu ar ddealltwriaeth ddigonol i roi cyngor ynglŷn â phob agwedd ar y busnes fferm, felly byddai angen i'w rôl gynnwys elfen o atgyfeirio at gyngor neu gefnogaeth fwy penodol.

## Adolygu Nodau

*"Pa mor aml y dylai'r cynllun SFS adolygu eich nodau?"*

Yn unol â'r awydd am hyblygrwydd yn y cynllun, mae'r adborth wedi awgrymu cyfle i adolygu'n flynyddol neu bob yn ail flwyddyn, gydag adolygiad mwy manwl ar ôl 5 mlynedd i ystyried unrhyw nodau tymor byr a thymor canolig y gallai fod gan y busnes fferm.

### Diffiniad o fusnes fferm llwyddiannus

Gofynnwyd cwestiwn olaf ar ddiwedd y drafodaeth ar dargedau a nodau er mwyn i gyfranogwyr rannu eu diffiniad o fusnes fferm llwyddiannus.

Daeth pedair thema allweddol i'r amlwg yn yr ystyr bod busnesau o'r fath yn cael eu hystyried fel a ganlyn:

- Yn broffidiol, yn hyfyw ac yn gallu ail-fuddsoddi
- Cynhyrchu yn effeithlon i safon uchel ar gyfer marchnad ddiffiniedig
- Yn gallu cael cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith
- Yn amgylcheddol gynaliadwy

### Ystyriaethau presennol ymysg busnesau sy'n cymryd rhan ar hyn o bryd

Fel rhan o'r drafodaeth ynglŷn â ffactorau sy'n dylanwadu ar fusnesau fferm, gofynnwyd i'r ffermwyr a fu'n rhan o'r trafodaethau un i un a oeddent wedi cynnal dadansoddiad SWOT o'u busnes ffermio. Dywedodd bron i hanner nad oeddent wedi gwneud hynny, ac roedd y gweddill naill ai wedi cwblhau dadansoddiad SWOT neu'n gwneud hynny'n anffurfiol. Dywedodd un ymatebwr "erioed wedi cynnal un ffurfiol, ond mae'n rhedeg drwy'r meddwl bob dydd".

Gofynnwyd cwestiwn dilynol wedyn i'r ffermwyr ystyried y prif gryfder, gwendid, cyfle a bygythiad i'w busnes ffermio. Roedd pob un o'r cyfranogwyr, p'un a oeddent wedi cynnal dadansoddiad SWOT ail peidio, yn nodi ystyriaethau a oedd yn berthnasol i'w busnesau. Er nad yw'r rhain yn ffurfiol nac wedi'u dogfennu, mae'n awgrymu bod ystyriaethau SWOT anffurfiol a pharhaus yn sylfaen i benderfyniadau busnes.



CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

Mae crynodeb o ystyriaethau SWOT cyfredol ymatebwyr yn y tabl isod:

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| Ariannol - Dim dyled, Proffidiol, Daliadaeth, mantolen gref | Ariannol - Costau sefydlog yn uchel, Benthyca, y gallu i ail-fuddsoddi, dibyniaeth ar gymorthdaliadau, Deiliadaeth, Prinder arian parod, Elw o'r busnes |
| Cynhyrchu - Effeithlonrwydd, Rheoli glaswelltir / da byw yn dda, Graddfa, Ansawdd a gynhyrchir, dealltwriaeth o botensial y tir, Cofnodi. | Cynhyrchu - Elw isel, derbyn y pris a delir, system bresennol (buches sugno), costau mewnbynnau, Graddfa, Arbenigol |
| Personol - Agwedd benderfynol, Addasadwy, Sgiliau a Gallu, Staff da, llafur teulu, Profiad, Cynllun olyniaeth ar waith | Personol - Oedran ffermwr, Iechyd personol, Rheoli costau, Golwg o'r busnes, Gwybodaeth / set sgiliau / DPP, Rheoli amser, Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith |
| Incwm amgen - Arallgyfeirio, mentrau cymysg, busnes amrywiol | Incwm amgen - gwaith oddi ar y fferm yn cyfyngu sylw i fanylion |
| Amgylcheddol - Presenoldeb cynefin, Cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd | Amgylcheddol - Tywydd, Lleoliad, Topograffeg |

| Cyfleoedd | Bygythiadau |
|---|---|
| Ariannol - Cynllun SFS, Gwell prisiau o ganlyniad i Brexit | Ariannol - Materion gwleidyddol a bregusrwydd y sector, Brexit/Tariffau a cholli cyfleoedd masnach, Colli'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) ac ansicrwydd ynghylch cynllun newydd, Newidiadau trethiant |
| Cynhyrchu - Gwella seilwaith ffermydd, cnydau a mentrau amgen, cynyddu potensial y fferm i'r eithaf, Cynyddu graddfa. | Cynhyrchu - Mwy o gostau mewnbwn, amrywiadau ym mhris y farchnad, clefyd da byw ac iechyd anifeiliaid, Ansicrwydd y farchnad a mewnforion rhad, rheoliadau NVZ |
| Personol - Gwella sgiliau marchnata, Parhau i ymgysylltu gyda Cyswllt Ffermio "agor drysau" | Personol - Salwch a damweiniau, Iechyd meddwl mewn amseroedd ansicr, argaeledd Llafur. |
| Incwm amgen - Gwerthu uniongyrchol, Gwerth Ychwanegol, mentrau Twristiaeth | Amgylcheddol - Tywydd, Newid Hinsawdd, Taliadau cynefinoedd yn werth llai o arian. |
| Amgylcheddol - Incwm posibl o ganlyniad i gynefinoedd, taliadau storio carbon | |

Er bod llawer o'r cryfderau a'r gwendidau a nodwyd yn ffactorau mewnol, gwelwyd ystyriaeth benodol o faterion gwleidyddol fel bygythiadau i fusnesau fferm sy'n effeithio'n amlwg ar allu busnesau i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Roedd hefyd amlwg ar draws pob math o ffermydd bod nifer yn ystyried cyfleoedd ar gyfer gwerthu'n uniongyrchol/ychwanegu gwerth a sefydlu mentrau twristiaeth.

Gofynnwyd i sesiynau grŵp ystyried a thrafod **"Beth yw prif Gryfderau a Gwendidau busnesau ffermio yng Nghymru?"** Mae'r tabl isod yn crynhoi syniadau'r ffermwyr a fu'n cymryd rhan yn y trafodaethau grŵp.

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| • Gallu tyfu llawer iawn o laswellt.<br>• Mae'r mwyafrif o ffermydd ledled Cymru yn llwyddiannus iawn wrth drosi glaswellt yn gig a/neu laeth.<br>• Mae gan Gymru 'frand' cryf ac mae'n adnabyddus yn fyd-eang am gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel, yn enwedig Cig Oen Cymru PGI er enghraifft.<br>• Mae'r rhan fwyaf o gig coch yn cael ei gynhyrchu ar system sy'n seiliedig ar laswellt, sy'n fwy cynaliadwy ac yn fwy caredig i'r amgylchedd na dulliau eraill o ffermio dwys a welir mewn rhannau eraill o'r byd.<br>• Mae Cymru yn cael ei hystyried yn "wlad werdd" ac mae ganddi stori dda i'w hadrodd.<br>• Sylfaen gref o asedau - mae'r rhan fwyaf o ffermwyr ar draws Cymru yn berchen ar eu ffermydd ac yn gallu defnyddio eu hasedau er mwyn gallu benthyg i fuddsoddi ayb.<br>• Mae'r fferm deuluol draddodiadol o bwys diwylliannol i Gymru ac mae'n un o gonglfeini'r economi wledig.<br>• Mae gan fusnesau fynediad at wasanaethau cymorth rhagorol trwy raglen Cyswllt Ffermio.<br>• Mae gan amaethyddiaeth yng Nghymru weithlu medrus iawn sy'n gallu addasu.<br>• Mae gan Gymru rwydwaith o golegau ffermio uchel eu parch sy'n gwneud gwaith rhagorol wrth baratoi'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr.<br>• Ffermio yw asgwrn cefn yr iaith Gymraeg mewn cymunedau gwledig.<br>• Mae ffermwyr yn wydn ac yn "dyfalbarhau" waeth beth yw'r heriau sy'n eu hwynebu (hefyd yn cael eu hystyried yn wendid os yw ffermwyr yn amharod i newid). | • Gorddibynnu ar daliadau cymorth ar gyfer hyfywedd ariannol.<br>• Band eang a chysylltedd gwael mewn ardaloedd gwledig sy'n dal busnesau yn ôl.<br>• Mae mwyafrif y ffermwyr yn gynhyrchwyr nwyddau ac felly'n gorfod derbyn prisiau a gynigir.<br>• Nid yw brand Cymru'n cael ei ddefnyddio i'w botensial yn llawn - mae'r diwydiant yn wael am farchnata a chysylltu gyda chwsmeriaid.<br>• Nid oes gan ffermwyr gysylltiad uniongyrchol â'r farchnad ac felly nid ydynt yn cael adborth uniongyrchol gan ddefnyddwyr ynglŷn â'r hyn maen nhw eisiau neu er mwyn addasu.<br>• Nid oes digon o gapasiti prosesu ar gael yng Nghymru, h.y. lladd-dai a ffatrïoedd prosesu llaeth.<br>• Contractau cyflenwi llaeth annheg.<br>• Gormod o "ffermwyr ffordd o fyw" yn dal cyfleoedd yn ôl i ffermwyr mwy cynhyrchiol.<br>• Nid yw ffermydd yn defnyddio digon o dechnoleg i wella effeithlonrwydd ac i'w helpu i wneud penderfyniadau gwell.<br>• Mae ffermwyr yn aml yn brin o amser.<br>• Mae oedran cyfartalog ffermwyr yn rhy uchel.<br>• Mae lleiafrif o ffermwyr sy'n cymryd rhan mewn "arfer gwael" yn rhoi enw drwg i'r diwydiant - mae angen mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ansawdd dŵr a rheoli slyri.<br>• Gall fod yn anodd cael caniatâd cynllunio ar brydiau, naill ai ar gyfer ehangu fferm neu arallgyfeirio.<br>• Mae ffermwyr yn gallu bod yn anfodlon newid. Dywedodd un ffermwr "mae gennym ni gysylltiad rhy emosiynol â'n busnesau, gyda'r tir yr ydym ni'n ei ffermio, yr anifeiliaid yr ydym ni'n eu magu a'r lle rydym ni'n byw - dydyn ni ddim yn hoff o newid". |





Bu'r drafodaeth grŵp yn canolbwyntio ar gryfderau a gwendidau cyffredinol ym myd amaeth yng Nghymru, ac yn anffodus, nid oedd digon o amser am drafodaeth fanwl ar bwyntiau'n ymwneud â sectorau penodol, er bod rhai wedi'u nodi uchod.

Gofynnwyd hefyd i ffermwyr sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau grŵp drafod **"Beth yw'r prif Gyfleoedd a Bygythiadau i amaethyddiaeth yng Nghymru?"** Mae'r cyfleoedd a'r bygythiadau a nodwyd yn cael eu crynhoi yn y tabl isod:

| Cyfleoedd | Bygythiadau |
|---|---|
| • Cynnydd mewn diddordeb gan ddefnyddwyr a chefnogaeth ar gyfer cadwyni cyflenwi bwyd lleol o ganlyniad i'r pandemig Covid-19.<br>• Cyfleoedd i werthu cynhyrchion yn fwy uniongyrchol i'r defnyddiwr a chael prisiau premiwm.<br>• Arallgyfeirio i dwristiaeth - ffordd o gyflwyno ffrwd incwm 'heblaw ffermio' fel nad yw busnesau ffermio mor agored i'r farchnad gyfnewidiol.<br>• Sefydlu mentrau ar y cyd.<br>• Datblygu cynllun cymorth amaethyddol newydd, syml a hyblyg, y tu allan i'r UE.<br>• Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd yn cynnig ffrwd incwm ar gyfer cynhyrchu nwyddau amgylcheddol a nwyddau cyhoeddus eraill.<br>• Gwerthu credydau carbon (hefyd yn cael ei ystyried yn fygythiad os mae'n arwain at golli tir ffermio cynhyrchiol i goedwigaeth).<br>• Cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio rhwng ffermwyr a chynyddu capasiti prosesu yng Nghymru.<br>• Rôl technoleg i wneud busnesau ffermio yn fwy effeithlon a phroffidiol.<br>• Mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol i gysylltu â'r defnyddiwr (hefyd yn cael ei ystyried yn fygythiad posib). | • Marchnad gyfnewidiol a phrisiau anrhagweladwy.<br>• Gadel yr UE heb gytundeb ac aflonyddwch posibl yn y farchnad.<br>• Anghydraddoldeb rhwng y cyflenwad a'r galw am gig oen yn y DU os nad oes cytundeb yn cael ei gadarnhau gyda'r UE.<br>• Clefydau - anifeiliaid (TB ac ati) a dynol (Covid-19 ac ati)<br>• Ymgyrchoedd yn erbyn cig a "chamwybodaeth" fegan<br>• Canfyddiad y cyhoedd bod cig coch yn niweidiol i'n hiechyd ac i'r amgylchedd.<br>• Diffyg cysylltiad rhwng y cynhyrchwyr a'r defnyddiwr ac ymgyrchoedd negyddol ar y cyfryngau cymdeithasol.<br>• Colli tir fferm cynhyrchiol i goedwigaeth.<br>• Gallai gormod o "ffermio diwydiannol" niweidio traddodiad ffermydd teulu ledled Cymru.<br>• Newid yn yr hinsawdd.<br>• Digwyddiadau tywydd eithafol a newidiadau tymhorol.<br>• Costau mewnbwn cynyddol.<br>• Bygythiad o fewnforion rhad yn tanseilio ffermwyr y DU.<br>• Diffyg cefnogaeth wleidyddol i ffermio (cyfeiriad at ddadl y Bil Amaeth).<br>• Dirwasgiad posibl o ganlyniad i Covid-19 yn effeithio ar incwm a gwariant pobl ar fwyd ayb.<br>• Gormod o bŵer yn nwylo ychydig o fanwerthwyr/archfarchnadoedd mawr.<br>• Posibilrwydd o gael gormodedd o brosiectau arallgyfeirio i dwristiaeth ar ffermydd.<br>• Prisiau tai yn codi mewn mannau sy'n boblogaidd gyda thwristiaid yn gyrru pobl i ardaloedd eraill, gan arwain at brinder llafur. |

Yn yr un modd â'r drafodaeth ar gryfderau a gwendidau, roedd y rhan fwyaf o'r drafodaeth grŵp yn canolbwyntio ar y cyfleoedd a'r bygythiadau cyffredinol i amaethyddiaeth yng Nghymru ac, yn anffodus, nid oedd amser i gynnal trafodaeth fanwl ar bwyntiau sector-benodol, er bod rhai wedi'u nodi uchod.

**Cryfderau a Gwendidau**

Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn y trafodaethau un i un: "Mae'r SFS yn dymuno cefnogi ffermwyr drwy ganolbwyntio ar gryfderau a gwendidau sy'n ffactorau mewnol (o fewn rheolaeth y ffermwr) sy'n gallu effeithio ar berfformiad fferm. Beth yw'r prif gryfderau a'r gwendidau y gall busnesau fferm unigol fynd i'r afael â hwy?" Gwelwyd yr un themâu trosfwaol ag a welwyd yn ystod ystyriaethau blaenorol, ond roedd cryfderau'n ymwneud mwy gyda ffactorau personol a chynhyrchiant, a gwendidau'n ehangach eu cwmpas.

| Ffactorau Cryfder Mewnol | Ffactorau Gwendid Mewnol |
|---|---|
| • **Ariannol** - Rheolaeth<br>• **Cynhyrchiant** - Ansawdd cynnyrch a chydnabod brand (e.e. Cig Oen Cymru), Potensial ar gyfer systemau a rheolaeth ar sail glaswellt, cael ei arwain gan y farchnad<br>• **Personol** - Sgiliau'r ffermwr, Addasrwydd, Sgiliau cadw stoc<br>• **Incwm amgen** - Gwerth ychwanegol<br>• **Amgylcheddol** - Hinsawdd ar gyfer cynhyrchu porthiant | • **Ariannol** - Rheoli cost a phroffidioldeb busnes, angen cael mwy o incwm o'r farchnad gartref, Cymhlethdod y cynlluniau cymorth presennol a chost weinyddol<br>• **Cynhyrchiant** - Meincnodi a mesur cynhyrchiant, Cyfleusterau a Seilwaith, Graddfa busnesau fferm<br>• **Personol** - Olyniaeth amserol, Cydweithio â ffermwyr eraill, Diwylliant o ddibynnu ar daliadau cymorth, set sgiliau rheoli busnes, Cyfathrebu delwedd gadarnhaol ffermio<br>• **Incwm amgen** - Amrywiaeth busnesau ffermio a gallu rhai ffermydd i chwilio am ffrydiau incwm amgen<br>• **Amgylcheddol** - Rheoli cynefinoedd |

*Bydd ffermwyr yn casglu gwybodaeth o wahanol ffynonellau bob dydd, a gellir defnyddio'r wybodaeth hon i brofi eu cryfderau a'u gwendidau. Pa wybodaeth sydd gan ffermwyr a all ddarparu sylfaen dystiolaeth i'r asesiad?*

Bu'r cyfranogwyr yn disgrifio'r wybodaeth sydd ganddynt er mwyn creu sylfaen o dystiolaeth a ffeithiau er mwyn asesu cryfderau a gwendidau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrifon blynyddol a data meincnodi/costau cynhyrchu (cyfeiriwyd at arolwg busnes fferm, y cynllun meincnodi cig coch, a chostau cynhyrchu TESCO fel enghreifftiau), cofnodion ar y fferm, argaeledd llafur a math/dosbarth o dir yn unol â mapio SAF.

Ni ofynnwyd i'r cyfranogwyr ynglŷn â'u parodrwydd i rannu data o'r fath gyda Llywodraeth Cymru; fodd bynnag, cytunwyd y byddai angen pwrpas a chymhelliant clir er mwyn i ffermwyr rannu data masnachol gyda Llywodraeth Cymru. Mynegwyd safbwyntiau bod angen i'r lefel o fanylion sy'n ofynnol fod yn gymesur â'r gefnogaeth a dderbynnir.





**Gwerthusiad safonol o Gryfderau a Gwendidau**

I gloi'r drafodaeth un i un ar gryfderau a gwendidau, gofynnwyd i'r cyfranogwyr "Er mwyn sicrhau dull safonol o werthuso cryfderau a gwendidau pob fferm, pa gategorïau penodol y dylid eu defnyddio (e.e. perfformiad (cnydau/da byw), cyllid, cyfleusterau, tir ayb)?"

Wrth adolygu ymatebion ar gryfderau a gwendidau; mae agweddau ariannol, cynhyrchiant, personol, ffrydiau incwm amgen a'r amgylchedd wedi bod yn themâu lle gellid grwpio ymatebion gyda'i gilydd mewn modd rhesymol. Fodd bynnag, nid oedd cyfranogwyr yn teimlo y byddai dull cyffredinol yn gweithio oherwydd y gwahaniaethau mewn systemau ffermio a busnesau. Ymhlith y rhesymau a nodwyd roedd:

- "Mae pob busnes yn wahanol. Dylid cyfeirio at ffigyrau elw. Nid yw un maint yn addas i bawb."
- "Mae ffermydd i gyd yn wahanol iawn. Gallai cael dull safonol fod yn drychinebus. Nid wyf yn credu y dylai'r llywodraeth fod yn gwerthuso perfformiad, gadewch i'r farchnad wneud hynny. Ni ddylai'r llywodraeth geisio rhedeg busnesau pobl. "
- "Angen rhywfaint o arweiniad i helpu ffermwyr i ystyried, e.e. darparu rhestr o awgrymiadau. Ond ni all fod yn rhy unffurf gan fod pob fferm/system yn wahanol"
- "... Mae pob ffermwr yn ystyried eu busnesau eu hunain yn wahanol."
- "Byddai'n bosibl cael categorïau eang i helpu fel canllaw, ond bydd pob un yn wahanol iawn."
- "Mae'n anodd iawn cael dull safonol. Mae perfformiad defaid yn eilradd i waith carbon ar ein fferm."
- "Methu â chael dull safonol (i werthuso cryfderau a gwendidau) - byddai systemau eang a dwys yn hollol wahanol"
- "Mae pob fferm yn wahanol. Mae ffermydd mynydd yn wahanol i ffermydd ar lawr gwlad. Gall gwahanol ardaloedd elwa o dwristiaeth ac ati. Perchennog v tenant. Methu gweld sut y gallai un dull safonol weithio i Gymru gyfan."

Mynegwyd y dylid ystyried rôl ac amcanion Llywodraeth Cymru wrth adolygu cryfderau a gwendidau busnesau fferm. Mae hyn er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cefnogi ac annog datblygiad fferm a chasglu data a gwybodaeth nad yw'n addas ar gyfer dull cyffredinol.

**Cyfleoedd a Bygythiadau**

Chwilio am wybodaeth neu ddeallusrwydd ynglŷn â chyfleoedd a/neu fygythiadau i'r busnes fferm.

Nododd cyfranogwyr eu bod yn dibynnu ar gyfuniad o ffynonellau i ddod o hyd i wybodaeth a deallusrwydd. Byddai hyn yn cynnwys:

- Erthyglau a gwybodaeth yn y wasg ffermio
- Ffynonellau ar-lein: gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, podlediadau ac ati
- Cyswllt Ffermio - grwpiau trafod, digwyddiadau a chynghorwyr
- Cefnogaeth sector-benodol (HCC / AHDB Llaeth...) (prisiau a thueddiadau'r farchnad)
- Mynychu digwyddiadau o ddiddordeb
- Gwybodaeth gan eraill: ffermwyr, cynghorwyr, milfeddygon, arwerthwyr, asiantau tir
- Cyfathrebu gan undebau ffermio
- Arbrofion ac ymchwil annibynnol
- Gwlad

Gofynnwyd i gyfranogwyr: “A fyddai'n ddefnyddiol i bob fferm edrych ar gyfleoedd i ychwanegu gwerth? (cynnyrch amaethyddol a chynnyrch wedi'i brosesu)”. Yr adborth a dderbyniwyd oedd y byddai'n weithgaredd da i'w gwblhau a'i ystyried, ond cydnabyddir na fyddai'n addas ar gyfer pawb. Roedd pryderon hefyd y gallai hyrwyddo gwerth ychwanegol arwain at orlifo'r farchnad, gyda'r tueddiad presennol o ran gwerthu llaeth o beiriannau'n cael ei nodi fel enghraifft.

Fodd bynnag, trafodwyd annog ystyried ychwanegu gwerth at yr adnoddau sydd ar gael i fusnes fferm mewn modd cadarnhaol gan fod ganddo gwmpas llawer ehangach a'i fod yn gallu ystyried priodoleddau personol.

**Strategaeth Datblygu Ffermydd**

Byddai'r cynllun SFS yn defnyddio'r dadansoddiad SWOT i nodi'r ffactorau mewnol ac allanol sy'n effeithio ar fusnesau fferm unigol. Byddai wedyn yn ystyried y berthynas rhwng y ffactorau mewnol ac allanol er mwyn gwella perfformiad. Gellir diffinio hyn fel un neu gyfuniad o 4 dull:


- **Twf** (Cryfder, Cyfle) defnyddio cryfderau mewnol i fanteisio ar gyfleoedd allanol
- **Atgyfnerthu** (Cryfder, Bygythiad) defnyddio cryfderau mewnol i liniaru effeithiau gwendidau allanol
- **Amddiffynnol** (Gwendid, Cyfle) – goresgyn gwendid mewnol drwy fanteisio ar gyfleoedd allanol
- **Osgoi** (Gwendid, Bygythiad) – goresgyn gwendid mewnol a lleihau bygythiadau allanol

Mae deall gwerth datblygu strategaeth o'r fath a sut y gellid ei defnyddio i addasu a gwneud newidiadau i'r system ffermio yn hanfodol. Mae effeithiolrwydd yr ymarfer yn dibynnu ar barodrwydd a gallu i roi'r strategaeth ar waith. Bydd rhai agweddau y gellir mynd i'r afael â hwy heb gymorth. Gellid hwyluso agweddau eraill yn well gyda chymorth.

*Sut mae'r grŵp yn teimlo ynglŷn â datblygu strategaeth yn seiliedig ar y dull dadansoddiad SWOT? A fyddai'r grŵp yn gweithredu ar y strategaeth?*

Ymateb o drafodaethau un i un:

Ffig 21








Nid oedd unrhyw ffactor dylanwadol na chydberthynas gyda chwblhau dadansoddiad SWOT blaenorol mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Mae'n debygol mai barn a phrofiadau unigol a phersonol fyddai'n yn gyfrifol am yr ymatebion.

Dywedodd bron pob cyfranogwr y byddent yn dilyn strategaeth busnes fferm i raddau pe byddent yn addasu a/neu'n gwneud newidiadau i'r busnes ffermio. Cafwyd sylwadau pellach bod angen i'r strategaeth fod yn addasadwy ac yn hyblyg i newidiadau tymhorol a newidiadau yn y farchnad, yn ogystal â bod yn benodol i'r busnes. Roedd rhai ymatebion yn pwysleisio pa mor bwysig oedd sicrhau bod y strategaeth yn cael ei llunio gan y ffermwr er mwyn sicrhau ei bod yn realistig a bod modd ei dilyn. Dywedodd un “nad oedd ganddo hyder yn Llywodraeth Cymru yn cynnal y dadansoddiad SWOT” a nododd un arall ei fod "wedi cael cynllun wedi'i lunio yn y gorffennol - nid oedd yn realistig".

Barnwyd ei bod yn bwysig bod rôl cynghorwyr wrth ddiffinio a datblygu strategaethau busnes fferm yn glir er mwyn darparu perchnogaeth gan y ffermwr.

Nododd ffermwyr sydd wedi addasu neu newid y busnes fferm yn ystod y 5 mlynedd mai sefydlu ffrydiau incwm arallgyfeirio, newid systemau a mentrau ffermio a chyflwyno cynllun olyniaeth oedd eu prif weithgareddau. Roedd ychydig o'r farn bod ffermwyr yn newid ac yn addasu'n gyson.

Cyfeiriwyd at raglen Cyswllt Ffermio fel y prif fecanwaith y mae ffermwyr yn ei ddefnyddio i gael gafael ar gyngor a chefnogaeth yn ogystal â'u hymchwil a'u cyswllt eu hunain â banciau ac ati ar gyfer buddsoddi.

Cyfeiriwyd yn gadarnhaol at gynlluniau grantiau ar gyfer busnesau fferm wrth alluogi a chefnogi newid, ond nododd un bod y grant busnes i ffermydd yn “rhy gyfyngol ar gyfer fferm lai o faint” oherwydd y gofynion o ran isafswm y gwariant.

Gofynnwyd am yr un elfen o ddatblygu strategaeth y busnes fferm yn ystod y sesiynau grŵp. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr **“Beth yw manteision ac anfanteision datblygu strategaeth fferm yn seiliedig ar y dull SWOT?"**

Mae ymatebion o'r sesiynau grŵp yn cael eu crynhoi isod:

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| • Roedd y mwyafrif o ffermwyr yn teimlo ei fod yn “ffordd dda o'i amlinellu” a'i fod yn “helpu i allu gweld pethau'n gliriach”.<br>• Gan fod pob fferm yn wahanol, mae dadansoddiad SWOT yn ffordd dda o ddadansoddi pob busnes yn unigol, er mwyn datblygu strategaeth sy'n addas ar gyfer y ffermwr a'r fferm.<br>• Cefnogaeth gref i gynnal dadansoddiad SWOT ar y cyd ag “ymgynghorydd neu gynghorydd ansawdd”. | • Efallai y bydd rhai ffermwyr yn amharod i rannu gwybodaeth bersonol neu breifat.<br>• Gellid ystyried cael rhywun yn trafod gwendidau eu busnesau fel “ymosodiad personol”.<br>• Nid yw pawb yn gyfarwydd â dadansoddiad SWOT - byddai angen egluro'n ofalus.<br>• Pryder y gallai dadansoddiad SWOT “dan arweiniad ymgynghorydd” arwain at gael SWOT a strategaeth fferm sy'n “gopi carbon” o'i gilydd. |

Yn gyffredinol, roedd ffermwyr yn gefnogol i'r dull dadansoddi SWOT er mwyn datblygu strategaeth fferm, ond yn pwysleisio'r ffaith fod angen i'r ffermwr "berchnogi'r" dadansoddiad. At hynny, mae'n rhaid i bob strategaeth fod yn unigryw i'r fferm unigol ac ystyried nid yn unig yr adnoddau ffisegol (h.y. tir, adeiladau ac asedau ac ati) ond hefyd yn adnoddau dynol (h.y. y bobl sy'n rhan o'r busnes - eu sgiliau a'u diddordebau). Roedd angen edrych ar y fferm "yn ei chyfanrwydd" ac nid ar berfformiad economaidd yn unig gan fod mesurau eraill o gynnydd fferm megis cadwraeth ac ati.

Trafodwyd rôl y cynghorydd unwaith eto, a dywedodd un ffermwr "mae tu hwnt i gredinaeth! Sut fydd hyn i gyd yn gweithio o ran logisteg? A oes digon o gynghorwyr i weithio gyda ffermwyr i gynhyrchu SWOT?". Nodwyd hefyd fod yn well gan ffermwyr "ddysgu gan rywun sydd wedi'i wneud o'r blaen, yn hytrach nag ymgynghorydd sy'n ceisio gwerthu syniad".

Cytunwyd fod pethau'n gweithio'n well o'r gwaelod i fyny, h.y. strategaeth sy'n cael ei harwain gan y ffermwr ac nid gan ymgynghorydd na'r llywodraeth. Dylai cynghorwyr weithredu mwy fel hwyluswyr wrth ofyn y cwestiynau cywir a pheidio â chynnig yr ateb. Dylai'r ffermwr gael ei rymuso i gymryd cyfrifoldeb am ganfod yr atebion a llunio strategaeth at y dyfodol. Yn ôl un ffermwr "ni fyddai strategaeth o'r brig i lawr yn effeithiol gan y bydd ffermwyr yn teimlo bod y cynllun yn cael ei orfodi arnynt".

Credwyd yn gyffredinol bod "cynghorydd" yn deitl gwell nag "ymgynghorydd" a'u rôl ddylai fod i wrando, helpu ffermwyr i weld cyfleoedd a'u cynorthwyo i dderbyn cefnogaeth bellach drwy gyfeirio at wasanaethau eraill ayb. Yn ogystal, gallai cynghorwyr helpu o ran darparu adborth i'r llywodraeth ynglŷn â meysydd lle mae angen cymorth ychwanegol ar ffermwyr.

Roedd rhai'n credu y gallai'r term "dadansoddiad SWOT" atal rhai ffermwyr, ac awgrymwyd y dylid defnyddio label wahanol. Ar y cyfan, fodd bynnag, roedd yr ymarfer yn cael ei ystyried yn werth chweil, a dywedodd un ffermwr ei fod yn "rhywbeth y dylai pob un ohonom fod yn ei wneud".

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA)**
Gofynnwyd i gyfranogwyr "A allai dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) (targedau) fod yn rhan effeithiol o strategaeth ddatblygu?"

Nid oedd y mwyafrif yn gwrthwynebu defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol, gyda dros hanner yn nodi y byddai'n rhan effeithiol o strategaeth ddatblygu. Cyfeiriwyd at y cynllun hyrddod mynydd fel enghraifft dda a derbyniwyd sylw y gallai weithio'n dda mewn systemau dwys.

Roedd sylwadau pellach yn cynnwys "Byddai werthfawr i'r ffermwr. Ffordd dda o olrhain cynnydd. Os ydyn nhw'n cael eu defnyddio i gadw golwg ar ffermwr ac i gosbi ffermwyr am fethu â chyrraedd targedau, na - ni fyddant yn ddefnyddiol. Rhaid eu defnyddio mewn modd adeiladol. Efallai bod Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cynnig cipolwg yn unig - gallai gostio llawer mwy i gyflawni'r targed, felly mae'r elw'n llai. Peidiwch â rhoi gormod o bwyslais ar ddangosyddion perfformiad allweddol penodol - mae'n rhaid edrych ar y fferm yn ei chyfanrwydd". Byddai angen eglurdeb os mae gosod dangosyddion perfformiad allweddol yn mynd i fod yn rhan o broses Llywodraeth Cymru o fonitro, neu os bydd yn cael ei annog fel rhan o ddatblygiad fferm unigol.





Roedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu i ddefnyddio dangosyddion perfformiad allweddol yn nodi'r straen ychwanegol a goblygiadau methu â chyrraedd y targedau, yn ogystal â chyfraniad ehangach amaethyddiaeth nad oes modd ei fesur gyda dangosyddion o'r fath.

**Cymorth Datblygu Fferm SFS**
Gofynnwyd i gyfranogwyr "Pa fath o gymorth byddech chi'n ei ddisgwyl drwy'r SFS ar ôl datblygu strategaeth busnes fferm? (Mae'r cynigion yn cynnwys cyllid tuag at isadeiledd, offer, sgiliau, gwybodaeth ac arweiniad)". Ni anogwyd ymatebwyr i roi manylion ymyriadau penodol; fodd bynnag, cefnogaeth ar gyfer isadeiledd a pheiriannau oedd y disgwyliad amlycaf. Rhannwyd ystyriaethau a phrofiadau o gynlluniau cymorth blaenorol hefyd.

| Math o Gymorth | Ystyriaethau |
|---|---|
| Isadeiledd ac adeiladau | Peidio â bod yn rhy ragnodol na chyfyngol - dylai allu cefnogi'r hyn a nodir yn y strategaeth gan gynnwys buddsoddiadau ar y fferm nad ydynt yn ymwneud ag amaeth<br>Storio slyri os mae NVZ am fod ledled Cymru<br>Rhaid cyfiawnhau buddsoddiad yn ariannol<br>Ystyried rôl lleihau niferoedd gwartheg sugno a'i rôl o ran rheoli cynefin |
| Buddsoddiadau mewn offer cynhyrchiant | FBG yn ddefnyddiol a dylai barhau<br>Edrych ar effeithlonrwydd cynhyrchu |
| Gwella tir | Cefnogi iechyd pridd a dal a storio carbon.<br>Gwasgaru calch<br>Ffensio |
| Gwybodaeth ac arweiniad | Mae Cyswllt Ffermio yn gynllun sydd wedi ennill ei blwyf, a gellir ei ddatblygu.<br>Cyngor annibynnol yn hanfodol<br>Gweminarau yn ffordd dda o gyfleu neges<br>Ystyried symleiddio gweinyddiaeth cynllun<br>Mae angen cyngor cyfreithiol a busnes |
| Addysg a hyfforddiant | Mae hyfforddiant sgiliau yn bwysig<br>Gwella addysg ar yr amgylchedd<br>Nid yw dysgu byth yn stopio<br>Mae hyfforddiant iechyd a diogelwch yn bwysig |
| Ymchwil a datblygiad | Cefnogi ffermwyr i fabwysiadu technoleg newydd |

Cafwyd barn bendant hefyd ynglŷn â rhwystrau i'w hystyried o fewn cynlluniau presennol yn enwedig gan fusnesau llai yn y sector bîff a defaid. "Cyllid cyfatebol - … ni all y rhai na allant ei fforddio gael unrhyw fudd o'r cynllun…. Roedd isafswm o grant o £4,000 yn y Grant Busnes i Ffermydd yn rhy uchel i lawer o fusnesau. Roedd y cynllun yn gwneud i bobl fuddsoddi mewn pethau nad oedd eu hangen er mwyn cyrraedd y trothwy."

"Gwell cyfleoedd ar gyfer ariannu (adeiladau ac offer) ar gyfer ffermydd llai, nid y rhai sy'n gymwys ar gyfer FBG a SPG yn unig am eu bod mewn sefyllfa i allu gwario symiau mwy." Gwnaeth ymatebwr arall sylwad ynglŷn â phwysigrwydd sicrhau "Na ddylai grantiau a chefnogaeth fod yn seiliedig ar lefel o broffidioldeb sy'n ffafrio ffermydd mwy sy'n gallu dangos ffigwr elw uwch (£). Byddai gallu cael mynediad at gyllid grant yn rhwydd heb orfod gwario swm penodol o arian er mwyn bod yn gymwys yn ddefnyddiol." Mae hyn yn meintioli'r sefyllfa.

Roedd newydd-ddyfodiaid hefyd yn ei chael hi'n anodd cymryd rhan mewn cynlluniau presennol oherwydd y trothwy: "Fel ffermwr ifanc pe bai cefnogaeth yn seiliedig ar yr FBG, byddem yn gwario £7,500 i gael grant o 40%, ond dim ond eitem ratach sydd ei hangen arnaf, ac nid yw hynny'n help i mi. Mae gorfod gwario dros drothwy penodol yn rhwystr i mi." Cafwyd sylwadau hefyd ynglŷn â'r diffiniad o'r genhedlaeth nesaf wrth bennu cefnogaeth - "Ni ddylid cyfyngu cefnogaeth i rai sydd o dan 40. Oherwydd oedi gydag olyniaeth, mae rhai ffermwyr dros 40 yn dechrau busnesau ar eu liwt eu hunain."

Mynegodd lleiafrif bach na ddylai'r cynllun ddarparu grantiau ar gyfer offer ac na ddylai ffermydd Cymru fod yn edrych ar ddwysau systemau ar hyn o bryd.


Ar y cyfan, mae'r cynlluniau cefnogaeth ariannol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cael eu derbyn a'u cefnogi.

### Adolygiad o'r Strategaeth

Holwyd cyfranogwyr ynglŷn ag amlder adolygu'r strategaeth. Cafwyd ymateb cymysg gyda rhai'n awgrymu adolygiad blynyddol ac eraill yn ffafrio cyfnod adolygu pum mlynedd. Roedd eraill yn ffafrio cyfnod adolygu byrrach o 2 - 3 blynedd.

Dylai golwg strategol fod dros gyfnod tymor byr i'r tymor hir, gyda rhai ymatebwyr yn awgrymu adolygiad ffurfiol ar ôl 5 mlynedd, gyda chyfle o fewn y cynllun i'w addasu'n flynyddol wrth i amgylchiadau newid ac yn unol ag amodau'r farchnad.

### Cymryd rhan mewn Datblygu Strategaeth
Ffig 22








Cytunodd mwyafrif y cyfranogwyr y dylai strategaeth datblygu fferm fod ar waith ar gyfer unrhyw fusnes sy'n derbyn cymorth datblygu fferm trwy'r cynllun SFS.

Cydnabuwyd y bydd strategaeth yn helpu ffermwyr i feddwl am eu busnes, ond mae angen i'r gefnogaeth fod yn gymharol er mwyn cyflawni uchelgeisiau'r strategaeth. Dylid hefyd ystyried capio lefel y gefnogaeth ar gyfer busnesau.


### Cynllun Datblygu Ffermydd
Gofynnwyd i'r cyfranogwyr: "A ddylai'r cynllun Datblygu Fferm fod yn orfodol i holl aelodau'r cynllun SFS neu a yw'n gyfyngedig i'r rhai sy'n bwriadu newid?" Roedd yr ymatebion wedi'u rhannu ar sail 50:50. Ychydig iawn o sylwadau a wnaed ynglŷn â'r rhesymeg sy'n sail i'r ymatebion hyn, ond cafwyd sylwadau ynglŷn â pheidio â gorfodi pobl i greu cynllun, a ph'un a fyddai cynllun yn berthnasol ac yn werth chweil ar gyfer ffermydd llai.

Mynegwyd barn y byddai'n rhesymol i gefnogi busnesau fferm sy'n cynllunio newid i greu cynllun datblygu busnes, ac annog eraill o fewn y cynllun i gymryd rhan. Awgrymodd cyfranogwyr eraill opsiwn arall, sef cynnwys cynllun datblygu fferm fel agwedd orfodol o'r cynllun ar gyfer busnesau fferm sy'n derbyn cefnogaeth uwchben trothwy ariannol penodol.

### Meincnodi ac asesu parhaus
Gofynnwyd i gyfranogwyr mewn trafodaethau un i un "I ba raddau y dylai ymrwymiad ar gyfer asesu a meincnodi eich busnes ffermio yn barhaus fod yn rhan annatod o'r cynllun SFS newydd?" Nid oedd naw o'r 68 ymatebwr yn credu y dylai fod yn rhan annatod, a chafwyd sylwadau ei fod yn "gipolwg ar gyfnod penodol" ac "nad oes modd cymharu ffermydd yn uniongyrchol". Roedd tri o'r farn y dylai fod yn orfodol.

Roedd y gweddill yn credu y dylai'r ymrwymiad fod yn ddibynnol ar yr hyn sydd wedi cael ei nodi yng nghynllun datblygu'r fferm a/neu'n ddibynnol ar y gefnogaeth a dderbynnir drwy'r cynllun. Dywedodd un y dylai fod yn gymesur â'r arian sydd ar gael.

Ffig 23




Ceir ystod eang o farn ynglŷn ag anfon data'r fferm i le canolog. Ar y cam hwn, er bod y cwestiwn wedi cael ei ofyn, ni fyddai'n briodol i ddod i gasgliadau'n seiliedig ar yr ymateb cychwynnol. Bydd mwy o wybodaeth benodol ynglŷn â'r cynllun ac eglurdeb ynglŷn â'r ffordd y gallai'r data hwn gael ei ddefnyddio yn rhoi asesiad mwy rhesymol o'r farn.

**Monitro Cynnydd**

Roedd ffyrdd eraill o fonitro cynnydd mewn perthynas â datblygu'r fferm yn cynnwys yr awgrymiadau canlynol:

- "Mae cyfrifon yn ffordd dda o ddadansoddi a monitro, ond nid yw'n deg ar bob ffermwr gan y gallai rhai fod yn buddsoddi'n helaeth ar y dechrau."
- "Datganiad cynnydd blynyddol sydd hefyd yn asesu proffidioldeb". A allai banciau gymryd rhan gan eu bod yn cynnal asesiad tebyg ar rai busnesau fferm?
- "Ymweliadau cymorth - swyddog i ymweld â'r fferm i ddarparu cefnogaeth (i gynnal rhywbeth tebyg i adolygiad busnes byr gyda chi)". Gallai ymweliadau o'r fath hefyd fonitro unrhyw fuddsoddiad cyfalaf neu gefnogaeth.
- Mesuriadau cynhyrchiant y cytunwyd arnynt ymlaen llaw fesul uned da byw neu fesul ha
- "Synhwyro o bell a delweddau o'r awyr (ond ceir pryderon ynghylch sensitifrwydd neu 'rywun yn eich gwylio'). Sut ydych chi'n mesur budd y cynllun o ran diwylliant Cymreig a bywyd cymunedol? Angen ystyried canlyniadau iechyd a lles ehangach. Tystiolaeth weledol - gallai lluniau cyn ac ar ôl gweithgaredd fod o fudd"

Nid oedd gan nifer o gyfranogwyr farn gadarn ynglŷn â monitro gan nad oeddent yn teimlo bod ganddynt ddigon o wybodaeth ynglŷn â'r hyn a fyddai'n cael ei fonitro. Bydd angen i unrhyw waith monitro datblygiad busnesau ystyried y dylanwadau allanol sy'n effeithio ar broffidioldeb ac yn rhwystro neu'n atal gallu'r busnes fferm i ddatblygu.

**Monitro cynnydd a pherfformiad fferm a rhannu'r canlyniadau gyda Llywodraeth Cymru.**

Trafodwyd monitro cynnydd a pherfformiad y busnes fferm ei hun a rhannu'r canlyniadau gyda Llywodraeth Cymru yn ystod y sesiynau grŵp. Gofynnwyd i'r grwpiau ystyried





**"I ba raddau y dylai ffermwyr fod yn rheoli eu cynnydd a'u perfformiad eu hunain ac yn rhannu'r canlyniadau gyda Llywodraeth Cymru? Sut y gellir gwneud hyn?"**

Roedd ffermwyr yn deall, os maen nhw'n derbyn arian cyhoeddus, mae'n rhaid iddynt fod yn atebol amdano, ac roeddent yn derbyn bod angen monitro'r cynllun er mwyn "bod yn deg i'r trethdalwr". Fodd bynnag, roeddent yn pwysleisio bod angen i'r gwaith monitro fod yn syml. At hynny, roedd y mwyafrif yn hapus i rannu data gyda Llywodraeth Cymru ar yr amod bod data'n cael ei gadw'n gyfrinachol.

Un awgrym oedd cael proses o hunanasesu wedi'i ategu gan rywfaint o ddilysu allanol, naill ai trwy ymweliad â'r fferm bob tair blynedd neu ymweld â chanran o'r ffermydd. Ystyriwyd y byddai ymweliad neu archwiliad blynyddol ar bob fferm yng Nghymru yn "rhy feichus" ac y byddai'n rhy ddrud i'w weinyddu.

Cafwyd pryderon y gallai gormod o fonitro fwyta i mewn i'r gyllideb a lleihau faint o arian a fyddai ar gael i gefnogi busnesau ffermio. Dywedwyd fod "rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng yr arian sy'n cael ei wario ar weinyddu'r cynllun a'r arian sy'n cyrraedd busnesau ffermio, ac mae angen i rywun gadw golwg ar y cydbwysedd hwnnw". Dywedodd ffermwr arall "Nid wyf am i'r cynllun gynnwys mwy o weinyddwyr na ffermwyr".

Un awgrym oedd y dylai'r hunanasesiad ddilyn yr un trywydd â'r cais SAF presennol gan fod ffermwyr eisoes yn gyfarwydd â'r weithdrefn honno. Yn ogystal, er mwyn lleihau costau monitro, byddai rhai ffermwyr yn croesawu mwy o ddefnydd o dechnoleg trwy gyflwyno tystiolaeth ffotograffig o waith a wnaed gan ddefnyddio ap, er enghraifft, a thrwy hynny, byddai modd lleihau'r angen i bobl gynnal archwiliadau ffisegol ar y fferm.

Nodyn pwysig arall a wnaed yn ystod y sesiynau grŵp oedd bod angen eglurdeb ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei fonitro. Os nad oedd y data a gasglwyd yn gyson ac yn gywir ar draws pob fferm, yna gallai hynny danseilio hygrededd y cynllun. Fel y dywedodd un ffermwr "mae'r data sy'n dod allan yr un mor dda â'r data sy'n cael ei roi i mewn". Roedd eraill yn rhybuddio na ddylai'r cynllun fod yn or-ddibynnol ar ddata i fesur canlyniadau "gan nad yw data yn egluro popeth".

Er bod ffermwyr yn agored i rannu data ar y cyfan, roedd rhai o'r ffermwyr a fu'n rhan o'r gweithgaredd grŵp yn betrusgar yn ei gylch ac yn amheus ynglŷn â'r defnydd y byddai Llywodraeth Cymru yn ei wneud o'r data. Gwnaed cymhariaeth gyda chytundebau costau cynhyrchu'r archfarchnadoedd, lle'r oedd teimlad bod gormod o ddata masnachol yn cael ei rannu ar hyd y gadwyn gyflenwi a allai roi hyd yn oed mwy o bwysau ar elw.

Roedd sicrhau hyblygrwydd yn y cynllun hefyd yn bwysig i'r ffermwyr a gymerodd ran yn y sesiynau grŵp. Roeddent am weld dull partneriaeth yn cael ei ddatblygu rhwng ffermwyr a'r Llywodraeth yn seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth. Roedd rhai eisiau swyddog prosiect penodol ar gyfer pob fferm i gefnogi ffermwyr a rheoli'r cynllun, gan alluogi trafodaethau a threfniadau synhwyrol i gael eu cynnig mewn amgylchiadau lle nad yw'r ffermwyr yn gallu cyrraedd targedau o ganlyniad i ffactorau allanol megis tywydd eithafol. Fel y dywedodd un ffermwr "Nid wyf yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru dalu'n seiliedig ar ganlyniadau yn unig gan nad yw ffermwyr yn gallu rheoli popeth, yn enwedig y tywydd. Dyna'r anhawster rwy'n ei weld gyda system sy'n seiliedig ar ganlyniadau". At hynny, gan y gall rhai canlyniadau, yn enwedig rhai amgylcheddol, gymryd blynyddoedd i'w cyflawni, roedd ffermwyr eisiau gweld hyblygrwydd o ran yr amser y cânt eu gwerthuso.

Nodwedd arall o'r trafodaethau oedd yr awydd i symud i ffwrdd o "ddiwylliant cosb y gorffennol". Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod rhywfaint o'r iaith a ddefnyddir ar RPW ar-lein yn "elyniaethus" ac nad oeddent eisiau cael eu cosbi'n anghymesur am gamgymeriadau diniwed. Gwelwyd hwn fel cyfle i ddylunio cynllun a oedd yn llawer mwy hyblyg a chydymdeimladol â'r heriau y mae ffermwyr yn eu hwynebu. Dywedwyd fod "angen i Lywodraeth Cymru wneud y cynllun yn ddeniadol a chyffrous i ffermwyr gymryd rhan".

Er y cydnabuwyd y byddai cael swyddogion prosiect penodol wedi'u neilltuo ar gyfer pob fferm yn cynyddu costau monitro a gweinyddu, roedd rhai'n teimlo y byddai'n gwneud y cynllun yn fwy effeithiol ac effeithlon.

Yn ddiddorol, cyfeiriodd un ffermwr at gydweithrediad arloesol o ffermwyr ym mynyddoedd Catskill sydd wedi dod ynghyd i sicrhau cyflenwad diogel a glân o ddŵr i Ddinas Efrog Newydd. Yn yr enghraifft hon, mae Adran Diogelu'r Amgylchedd Dinas Efrog Newydd yn cynnig cymorth ariannol i ffermwyr sy'n helpu i gynnal ansawdd dŵr ar gyfer 9.5 miliwn o gwsmeriaid y ddinas. Mae gan bob ffermwr yn y rhanbarth nodau a thargedau i'w cyrraedd ac os, am unrhyw reswm, mae ffermwr yn methu â chyrraedd unrhyw dargedau oherwydd ffactorau y tu hwnt i'w reolaeth, gofynnir i ffermwr arall adolygu ac edrych ar y rhesymeg pam, mewn system o'r enw adolygiadau cymheiriaid o ffermwr i ffermwr. Rhannwyd hyn fel enghraifft o sut y byddai modd i'r gwaith monitro gael ei wneud gan y rhai sy'n rhan o'r cynllun.

Ar y cyfan, roedd ffermwyr yn barod i fonitro cynnydd eu fferm a rhannu'r canlyniadau gyda Llywodraeth Cymru ar yr amod bod y broses yn syml, yn rhad i'w gweinyddu ac yn hyblyg.



CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

## 8.4 Iechyd a Lles Anifeiliaid a Rheoli Da Byw

Iechyd anifeiliaid yw lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol anifail. Lles anifeiliaid yw'r gallu i'r anifail hwnnw fynegi ei ymddygiad naturiol. Mae'r ffordd y mae anifeiliaid fferm yn derbyn gofal a'r ffordd y mae eu hiechyd yn cael ei reoli yn cael effaith sylweddol ar fusnesau fferm, yr amgylchedd a'r gymdeithas gyfan. Mae bioddiogelwch yn arf penodol i sicrhau iechyd a lles anifeiliaid. Mae'n cynnwys safonau lles uchel a chamau gweithredu penodol i atal afiechyd, gan leihau'r tebygolrwydd y bydd anifeiliaid yn mynd yn sâl.

Mae hyn yn arwain at:

- Anifeiliaid iachach a mwy cynhyrchiol
- Ffermydd mwy proffidiol
- Llai o lygredd ac allyriadau carbon
- Llai o risg i iechyd dynol

Cynhaliwyd 67 o drafodaethau un i un gyda ffermwyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth bellach ar y thema hon. Dyma oedd y drafodaeth fwyaf rhagnodol o'r pedair thema, gyda mwyafrif y cwestiynau'n rhai penodol a oedd yn cynnig dewis o atebion. Roedd cyfranogwyr hefyd yn gallu ymhelaethu a darparu rhesymu yn ôl yr angen.

Trafodwyd pedwar pwnc allweddol ar wahân:

- cynllunio iechyd anifeiliaid;
- defnydd o driniaeth wrthfiotig;
- bioddiogelwch; a
- chadw cofnodion.

Ar ddiwedd y trafodaethau, gofynnwyd i'r cyfranogwyr sgorio eu barn ynglŷn â phriodoldeb cyllid gan y cynllun SFS yn cael ei gysylltu gyda phob pwnc a drafodwyd, a ble hoffai'r ymatebwyr weld cymorth gan y Llywodraeth.

Bu sesiynau grŵp a fu'n trafod iechyd a lles anifeiliaid a rheoli da byw yn trafod camau gweithredu ac ymyriadau neu gymhelliant penodol i'w hystyried o fewn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Cynhaliwyd saith sesiwn grŵp wedi'u hwyluso gan filfeddyg fferm cymwys a gweithredol. Roedd y trafodaethau'n seiliedig ar gyfres o bum cwestiwn a datganiad, a gofynnwyd i grwpiau ddatblygu barn gyffredin a fyddai'n berthnasol i'r rhan fwyaf o ffermydd Cymru. Mae'r adborth a gafwyd yn ystod y sesiynau grŵp yn cael ei drafod ar wahân ar gyfer y thema hon ar ddiwedd y bennod.

## Trosolwg cyffredinol o'r trafodaethau un i un a'r trafodaethau grŵp

1. **Gwaredu Clefydau**, yn enwedig yng nghyd-destun TB a Chlafr oedd y mater pwysicaf o bell ffordd a oedd yn gofyn am gymorth gan y Llywodraeth, gyda chynllunio iechyd, gwella ffiniau a siediau anifeiliaid hefyd yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth. Roedd lleihau'r defnydd o wrthfiotigau, cyfranogiad yn y cynllun iechyd a chymorth ar gyfer cadw cofnodion hefyd yn ystyriaethau i raddau llai.
2. Mae **cyngor a chyfranogiad milfeddygol** yn nodwedd allweddol o sicrhau safonau da o ran iechyd anifeiliaid ar ffermydd. Er bod gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr gynlluniau iechyd ar waith, mae'n amlwg bod cynllun o'r fath yn mynd law yn llaw â'r berthynas a thrafodaethau gyda'r milfeddyg.
3. Trafodwyd **cost a budd** fel y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch a yw protocolau iechyd anifeiliaid yn cael eu gweithredu ai peidio. Ystyrir fod ystyriaethau ymarferol ac uchelgais sy'n berthnasol i bob fferm yn bwysig hefyd. Roedd costau hefyd yn cyfyngu ar welliannau ac addasiadau i siediau da byw er mwyn gwella iechyd a lles anifeiliaid.
4. Mae angen i arferion **monitro Dangosyddion Perfformiad Allweddol a chadw cofnodion** fod yn ymarferol ac yn berthnasol i'r system ffermio. Mae awydd i wneud mwy gyda'r gefnogaeth gywir.
5. Roedd **ffactorau eraill** a oedd yn peri pryder mewn perthynas â'r pwnc yma'n cynnwys bioddiogelwch ar lwybrau cyhoeddus ac aflonyddu gan gŵn. Roedd cyfarwyddyd cynlluniau amgylcheddol i leihau pwysau pori ar yr ucheldir a materion lles cysylltiedig (e.e. mwy o achosion o drogod) hefyd yn peri pryder.
6. **Croesawyd ymyrraeth sy'n benodol i'r cynllun** i wobrwyo ffermwyr sy'n bodloni'r safon ofynnol o ran iechyd a lles anifeiliaid. Awgrymwyd y gallai hon fod yn system wedi'i graddio i annog gwelliant parhaus. Ar y cyfan, mae ffermwyr yn ystyried bod gan amaethyddiaeth Cymru safonau lles uchel.
7. Nododd trafodaethau grŵp fod **cyfarfodydd wyneb yn wyneb, ar ffermydd,** yn amhrisiadwy a chredid yn gyffredinol bod rhwydweithiau cymorth presennol yn ddefnyddiol, ond roedd barn fod dull tameidiog ar hyn o bryd o ran faint o gyngor sydd ar gael yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid, a byddai modd mynd i'r afael â hynny fel rhan o'r cynllun.
8. Roedd y gydberthynas rhwng **iechyd meddwl ffermwyr ac iechyd a lles anifeiliaid** hefyd yn bryder.






Mae'r rhan gyntaf yn y thema hon yn manylu ar y cwestiynau penodol a luniwyd mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru ac a ofynnwyd fel rhan o'r drafodaeth un i un.


### Cynllunio Iechyd Anifeiliaid

Roedd gan y mwyafrif o'r ymatebwyr gynlluniau iechyd diadell / buches ar waith eisoes a oedd wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf neu adeg yr arolygiad sicrwydd fferm diwethaf. Cwblhawyd cynlluniau iechyd yn bennaf ar y cyd rhwng y ffermwr a'r milfeddyg.

Ffig 24





Ffig 25




O'r ymatebion i'r cwestiwn yn Ffigwr 25, Deddfwriaeth neu ofyniad Sicrwydd Fferm fyddai'r rheswm allweddol dros gael cynllun iechyd ar ddaliadau'r ymatebwyr, ond roeddent hefyd yn gwerthfawrogi'r buddion economaidd, lles ac arfer dda. Roedd cynlluniau eraill a nodwyd sy'n gofyn am gynlluniau iechyd yn cynnwys prosiect Stoc+ HCC a'r Cynllun Pobl Ifanc mewn Amaethyddiaeth. Roedd gan leiafrif bach iawn gynlluniau iechyd er budd iechyd a lles anifeiliaid yn unig, neu'n eu hystyried yn arfer dda.

Byddai tri chwarter y ffermwyr yn yr arolwg yn cyfeirio at eu cynlluniau iechyd rhwng adolygiadau gyda 40% yn nodi y byddent yn gwneud hynny'n aml (fwy nag unwaith neu ddwywaith y flwyddyn). Roedd lleiafrif yn nodi na fyddent byth yn cyfeirio at y cynllun rhwng cyfnodau adolygu.

Ffig 26





Roedd sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn ymwneud â phwysigrwydd yr adolygiad er mwyn annog trafodaeth a gofyn am gyngor gan y milfeddyg.

### Rhwystrau rhag cynllunio iechyd

Roedd y 3 o'r 67 o ymatebwyr nad oedd ganddynt gynllun iechyd yn ffermio defaid yn unig, ac yn nodi nad oeddent yn teimlo bod unrhyw fudd. Roedd diadelloedd bychain yn un ystyriaeth, ac roedd ymatebwr arall yn nodi ei fod yn cynnal profion cyfrif wyau ysgarthol ac yn cysylltu gyda'r milfeddyg yn rheolaidd, ond ddim yn teimlo y byddai cynllun yn cynnig unrhyw fudd ychwanegol.

Ffig 27









Mae'n debyg mai amser, cost a budd canfyddedig oedd y prif rwystrau rhag cael cynllun iechyd (dylid cofio mai barn ffermwyr sydd â chynlluniau iechyd ar waith yn bennaf yw hyn). Ymhlith y ffactorau eraill roedd y fiwrocratiaeth sy'n rhan o'r cynllun, nifer y da byw sy'n cael eu cadw a bod y berthynas gyda'r milfeddyg eisoes ar waith.

Ffig 28




Gofynnwyd i'r cyfranogwyr rannu'r agweddau mwyaf a lleiaf defnyddiol ar y cynllun iechyd yn eu barn nhw. Roedd cynnal trafodaeth gyda'r milfeddyg a llunio protocolau (dull gwelliant parhaus sy'n adnabod mesurau iechyd a chlefydau sy'n berthnasol i fferm benodol) yn cael lle amlwg, gydag agweddau eraill yn fwy cytbwys, gan awgrymu eu bod yn ddibynnol ar y math o fferm a'r system.

Agweddau defnyddiol eraill o'r cynllun a nodwyd oedd ei fod yn darparu cyfeiriad ac yn arwain triniaeth, ac roedd ymatebwyr eraill yn nodi ei fod yn cael ei ddefnyddio wrth gymryd rhan yn y cynllun sicrwydd fferm FAWL.

Trafodwyd elfennau llai defnyddiol o'r cynllun gan ei fod yn canolbwyntio'n llwyr ar iechyd a bod angen ystyried ffactorau eraill er mwyn gweithredu'r cynllun. Cyfeiriwyd hefyd na ddylai'r cynllun ychwanegu at brotocolau sydd eisoes ar waith.

Y prif rwystrau wrth greu ac adolygu'r cynllun yw amser ac, i raddau llai, cost. Dim ond llond llaw o ymatebwyr a ddywedodd bod diffyg hyblygrwydd y fformat ac argaeledd milfeddygon yn rhwystr.

### Pwy sy'n rhan o'r broses cynllunio iechyd?

Nod y cwestiwn hwn oedd canfod pwy o'r busnes ffermio sy'n ymwneud â'r broses cynllunio iechyd.


Ym mron pob achos, y ffermwr gweithredol a'r sawl sy'n gwneud y penderfyniadau ar gyfer y fferm sy'n gyfrifol am y cynllun iechyd gyda chefnogaeth gan aelodau o'r teulu a'r rheolwr/gweithiwr fferm mewn rhai achosion.

Byddai stocmyn a gweithwyr fferm hefyd yn gweld copi o'r cynllun gorffenedig mewn nifer o achosion - byddai hyn hefyd yn cynnwys aelodau o'r teulu os maen nhw'n rhan o weithlu'r fferm.

**Cynllunio iechyd a milfeddygon**

Roedd yn amlwg yn ystod y trafodaethau un i un bod cynllunio iechyd yn rhan greiddiol o'r berthynas a'r cyngor a ddarperir gan filfeddyg fferm. Mae'r cynllun yn ategu neu'n cofnodi'r cyngor gan y milfeddyg i raddau helaeth fel rhan o ddull protocol ataliol.

Ffig 29




Gofynnwyd i ffermwyr ba mor aml yr oedd milfeddygon yn ymweld ar gyfer gwaith nad yw'n argyfwng. Yn ôl y disgwyl, roedd busnesau gyda mentrau llaeth yn nodi ymweliadau mwy cyson, ac roedd mentrau defaid yn unig yn nodi unwaith y flwyddyn neu byth yn cael ymweliad gan filfeddyg am waith heblaw am argyfwng. Nid yw hyn i ddweud nad oes unrhyw ymgysylltiad gyda'r milfeddyg yn ystod y flwyddyn.

Roedd y farn bron yn unfrydol mai milfeddygon yw'r unigolion sydd yn y lle gorau o fewn y diwydiant i lunio cynlluniau iechyd ar gyfer y fferm, gan nodi bod cymwysterau, gwybodaeth ac ystyriaethau ymarferol yn nodweddion hanfodol.

Canfuwyd hefyd mai milfeddygon oedd yr unigolyn sydd yn y lle gorau o fewn y diwydiant i adolygu cynlluniau iechyd ar y fferm mewn cydweithrediad â'r ffermwr. Roedd lleiafrif o'r farn mai archwilwyr sicrwydd fferm neu swyddogion maes a gyflogir gan y llywodraeth fyddai yn y lle gorau i gyflawni'r rôl hon.

Roedd pedwar o bob pump yn dweud y dylai targedau iechyd y fferm gael eu hadolygu'n flynyddol gan unigolyn allanol i ganiatáu ar gyfer addasiadau a newidiadau realistig. Roedd y gweddill o'r farn y dylid adolygu naill ai'n amlach (bob tri i chwe mis) neu'n llai aml (bob 18 mis neu ddwy flynedd).


O ystyried y byddai gan fwyafrif yr ymatebwyr gynlluniau iechyd fferm ar waith, ac yn seiliedig ar gwestiwn blaenorol a ofynnwyd, mae'n ymddangos bod ffermwyr yn fodlon ar y cyfnodau adolygu presennol ar gyfer eu cynlluniau iechyd. Cydnabuwyd y dylai systemau dwys gael eu hadolygu'n amlach o'i gymharu â systemau eang lle mae protocolau'n cael eu dilyn bob blwyddyn.



CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

Gofynnwyd hefyd i ffermwyr beth oedd y rhwystrau pennaf o ran bodloni targedau neu flaenoriaethau o ran y cynllun iechyd.

Ffig 30





Er bod rhai yn teimlo bod targedau'n anymarferol neu'n anghyraeddadwy ar brydiau, cyfyngiadau ariannol a chyfleusterau trin oedd y rhwystrau pennaf i rai ffermwyr.

Mae cyfyngiadau amser a llafur yn broblem, fodd bynnag, roedd yr hinsawdd anrhagweladwy a ffactorau na ellir eu rheoli yn ymateb cyffredin lle'r oedd ymatebwyr wedi nodi mwy nag un rhwystr. Nodwyd cyfyngiadau TB a chlefydau eraill fel pryder penodol.

**Newidiadau i gynlluniau iechyd a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru**


Ffig 31



Nid oedd tua chwarter o'r rhai a gymerodd ran yn y trafodaethau un i un yn credu y byddai modd gwneud addasiadau i'r cynllun iechyd er mwyn iddo fod yn fwy defnyddiol ar gyfer eu menter fferm. Cafwyd sylwadau gan nifer yn nodi na ddylai'r cynllun ddisodli cyswllt gyda'r milfeddyg, ac y byddai'n ddefnyddiol fel sylfaen ar gyfer ymweliadau neu sgyrsiau mwy rheolaidd gyda milfeddyg.

Byddai diwygiadau i fformat presennol y cynllun yn ei gwneud yn fwy defnyddiol. Trafodwyd hefyd newidiadau i'r templed papur ynghyd â datblygu templedi ar gyfer rhaglenni ar-lein/ffôn symudol sy'n gydnaws â meddalwedd data fferm.

Ffig 32




Gofynnwyd i'r cyfranogwyr benderfynu o restr beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud er mwyn hwyluso cynllunio iechyd a'i wneud yn fwy defnyddiol. Nododd y mwyafrif y byddai cyllid yn ymyrraeth ddefnyddiol.

Roedd cefnogaeth ar gyfer gweithgaredd grŵp "dan arweiniad milfeddyg" hefyd yn bwysig gydag un ymatebwr yn nodi bod "grwpiau trosglwyddo gwybodaeth dan arweiniad milfeddygon yn ddefnyddiol iawn gan ddarparu addysg a sicrwydd". Nododd un ymatebwr y byddai "cefnogaeth ymarferol fel yr hyn a oedd ar gael yn yr 80au" yn ddefnyddiol.

Roedd datblygu templed neu systemau seiliedig ar ap hefyd yn flaenoriaeth i rai. Fodd bynnag, o ymatebion blaenorol, byddai angen i unrhyw systemau a ddatblygir gan Lywodraeth Cymru fod yn gyfuniad o systemau papur, ar-lein ac apiau symudol er mwyn sicrhau bod pob ffermwr sy'n cymryd rhan yn gallu eu defnyddio.

Dywedodd un ffermwr "...Y peth gorau fyddai gweithio gyda'r haen uchaf i sicrhau gwelliant yn hytrach na chanolbwyntio ar geisio cael yr haen isaf i ymgysylltu".




CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU


### Cynllunio Iechyd Anifeiliaid yn y cynllun SFS

Ar raddfa o 1 - 5 gydag 1 yn golygu anghytuno'n gryf a 5 yn golygu cytuno'r gryf, gofynnwyd i gyfranogwyr ymateb i'r datganiadau canlynol:

Ffig 33




Ffig 34




Yn seiliedig ar ymatebion ffermwyr, lle'r oedd y mwyafrif eisoes yn meddu ar gynlluniau iechyd, nid oedd yn ymddangos bod gwrthwynebiad i'r syniad y gallai cyllid o fewn y cynllun SFS fod yn gysylltiedig gyda phresenoldeb cynllun iechyd ar y fferm a chydymffurfiaeth gyda'r cynllun hwnnw.

Fodd bynnag, ceir mwy o wrthwynebiad i'r syniad o gyllid o fewn y cynllun SFS yn cael ei gysylltu gydag adroddiadau a chyflawni dangosyddion perfformiad allweddol neu dargedau iechyd ar y fferm. Mae hyn yn cyd-fynd â'r drafodaeth flaenorol ynglŷn â rhwystrau allanol rhag cyflawni targedau a nodir mewn cynlluniau iechyd presennol.

Mae ffermwyr hefyd wedi mynegi pryder fel rhan o'r trafodaethau un i un ynglŷn ag effaith gosod targedau a methu â chyrraedd y targedau hynny ar iechyd meddwl, neu ar yr ymdeimlad o fethiant. O gofio bod y sylwadau hyn wedi cael eu gwneud gan ffermwyr sy'n gyfarwydd â chynlluniau iechyd anifeiliaid, gallai datblygu cynllun a dilyn targedau

fod yn newid rhy sylweddol ar y dechrau ar gyfer ffermwyr nad ydynt eisoes yn gwneud hyn.

Gallai sicrhau bod cynllun iechyd yn elfen ofynnol o'r cynllun annog mwy o ryngweithio rhwng ffermwyr a milfeddygon, a dull sylfaenol sy'n berthnasol i bob fferm dda byw.


### Defnydd o driniaethau gwrthfiotig

Roedd yr ail set o gwestiynau a ofynnwyd fel rhan o'r drafodaeth un i un yn canolbwyntio ar y defnydd o wrthfiotigau.


Yn ôl y disgwyl (gan fod mwyafrif yr ymatebwyr yn meddu ar gynllun iechyd), mae'r mwyafrif yn monitro'r defnydd o driniaethau gwrthfiotigau ar hyn o bryd, ond mae lefel y ddogfennaeth yn amrywio. Ffermydd organig neu systemau ffermio eang sy'n defnyddio ychydig iawn o wrthfiotigau oedd y rhai a nododd nad ydynt yn monitro.

Roedd dros hanner o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r targedau a osodir gan y diwydiant ar gyfer pob sector, ac roedd traean ohonynt yn ansicr. Nododd un bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei darparu gan y milfeddyg, sy'n pwysleisio rôl y milfeddyg wrth gyfathrebu targedau o'r fath mewn modd ystyrlon a pherthnasol i'r diwydiant ar sail system.

Ffig 35




Ffig 36





Nid oedd unrhyw gydberthynas rhwng nifer y clefydau sy'n cael eu brechu yn eu herbyn a'r math o dda byw ar ffermydd yr ymatebwyr. Mae hyn yn awgrymu mae'r rheswm dros hyn yw dealltwriaeth o faterion ar bob fferm ynghyd â phrotocol a fyddai wedi cael ei drafod gyda'r milfeddyg a'i gynnwys yn y cynllun iechyd.

Yn gyffredinol, roedd cyfranogwyr yn brechu i helpu i atal a rheoli'r clefydau canlynol:

- IBR, BVD a Leptospirosis
- Brechlynnau clefydau clostridiol
- Niwmonia
- Rotafeirws
- Erthyliad (ensöotig a thocsoplasma)
- Clwy'r traed (footvax)
- Orff
- Salmonela

Cyfeiriodd un ymatebwr hefyd at ei ddefnydd o frechiad dofednod 'safonol'.

Ffig 37




Er bod costau ac arbed costau'n ystyriaethau wrth frechu rhag mwy o glefydau, roedd y ffaith nad oedd angen brechu hefyd yn amlwg ymysg yr ymatebion. Bydd sicrhau bod cynllun iechyd ar waith (fel sy'n wir yn achos y rhan fwyaf o ymatebwyr) wedi galluogi penderfyniadau deallus yn ymwneud â chost a budd a'r angen mewn perthynas â'u systemau eu hunain

### Siediau da byw

Roedd cyfranogwyr yn y trafodaethau un i un yn derbyn ar y cyfan bod siediau da byw yn cael effaith sylweddol ar iechyd anifeiliaid.

- Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr siediau da byw yn cael effaith sylweddol
- Roedd y gweddill o'r farn bod siediau da byw yn cael rhywfaint o effaith ar iechyd anifeiliaid


Nodwyd fod awyru, lle a gosodiad y siediau yn bwysig, yn ogystal â hwsmonaeth y ffermwr. Gwnaeth ambell un sylwadau ynglŷn â'u systemau eang lle nad oedd angen siediau da byw o gwbl, a nododd un arall effaith negyddol systemau o'r fath ar iechyd o ganlyniad i sgald glaw.

Gofynnwyd i ffermwyr sy'n cadw da byw dan do "faint oedden nhw'n teimlo oedd eu siediau da byw presennol yn cyfyngu ar eu gallu i sicrhau buches/diadell iachach?"

Roedd y mwyafrif yn teimlo bod eu siediau da byw yn cyfyngu i raddau gyda sylwadau megis "maent wedi cael eu haddasu cymaint â phosibl" ac "mae lle i wella". Roedd pedwar ymatebwr yn credu mai eu siediau oedd y prif ffactor sy'n cyfyngu arnynt, ac roedd 11 yn teimlo nad oedd eu siediau'n cyfyngu o gwbl ar iechyd yr anifeiliaid.

Fel rhan o'r drafodaeth, gofynnwyd i ffermwyr i nodi'r hyn a oedd yn eu rhwystro rhag gwella siediau da byw ar y fferm.

Ffig 38




Mae'n ymddangos mai costau yw'r prif ffactor y dylai Llywodraeth Cymru ei ystyried o safbwynt cefnogaeth i wella iechyd anifeiliaid pan maent yn cael eu cadw dan do. Roedd gwybodaeth ac amser hefyd yn ffactorau, yn ôl pob tebyg gan fod y ffermwr yn aml yn gwneud gwelliannau ei hunain (er mwyn arbed costau) gyda chefnogaeth gan gontractwyr yn ôl yr angen.


Roedd awydd i weithredu hefyd yn nodwedd yng nghyd-destun rhagolygon y fferm at y dyfodol a sefyllfa a blaenoriaethau'r busnes, neu nad oedd angen gwneud gwelliannau. Cyfeiriwyd at ganiatâd cynllunio hefyd fel rhwystr gan un ymatebwr.



CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

**Cyllid y cynllun yn gysylltiedig â thargedau defnyddio triniaethau gwrthficrobaidd.**

Ffig 39




Ychydig o wrthwynebiad a gafwyd gan gyfranogwyr o ran cysylltu cyllid y cynllun gyda chyflawni targedau cydnabyddedig o fewn y diwydiant yn ymwneud â'r defnydd o driniaethau gwrth-ficrobaidd. Yn dilyn trafodaeth gyda rhai o'r cyfranogwyr ynglŷn â'r pwynt yma, nodwyd yr angen i ystyried sut y byddai modd cyflwyno a monitro hyn ar ffermydd unigol fel nad yw'n cosbi ffermydd am ddefnydd o driniaethau gwrthfiotig (rhagweithiol neu ymatebol) a argymhellir gan filfeddygon.


**Ceidwaid da byw trwyddedig**
Gofynnwyd i ffermwyr am eu barn ar drwyddedu ceidwaid da byw.

Roedd un o bob 5 ymatebwr o'r farn y dylai ceidwaid anifeiliaid gael trwydded mewn sgiliau hwsmonaeth sylfaenol cyn gallu dechrau cadw da byw. Nid oedd y mwyafrif (4 o bob 5 ymatebwr) yn credu bod angen hyn. Gwnaed sylwadau megis "mae FAWL yn gwneud yr un peth" a "beth yw pwrpas sicrwydd fferm a chynllunio iechyd", a bod "profiad yn bwysicach". Nododd un arall fod trwyddedu yn "ffordd arall o greu biwrocratiaeth. Lleiafrifoedd yw'r broblem".

**Bioddiogelwch**
Bioddiogelwch yw'r camau y gall ffermwyr eu cymryd i helpu i atal cyflwyno unrhyw afiechydon neu heintiau newydd ar y fferm. Dylai bioddiogelwch da arwain at anifeiliaid iachach a mwy cynhyrchiol a lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen defnyddio gwrthfiotigau.

Fel cyflwyniad i'r thema, gofynnwyd i ffermwyr raddio bioddiogelwch ar eu fferm. Mae'r canlyniadau'n bennaf yn adlewyrchu'r rhai a fyddai â chynlluniau iechyd anifeiliaid ar waith ac felly lefel o gynefindra â phrotocolau bioddiogelwch. Dylid nodi hefyd, wrth raddio eu hunain, fod ymatebwyr yn geidwadol o ran eu hymdrechion yn gyffredinol. Roedd lleiafrif bach o ffermwyr yn cydnabod yr angen i wella.

Ffig 40




Roedd y cwestiwn nesaf yn gofyn a yw'r rhai sy'n gweithio gyda stoc ar y fferm yn cadw dillad i'w defnyddio ar ddaliad y ffermwr yn unig, neu'n diheintio'n llawn wrth gyrraedd ac ymadael. Roedd dros hanner yn nodi nad yw hynny'n digwydd bob amser, ac roedd enghreifftiau penodol yn cynnwys y rhai sy'n casglu stoc marw a chontractwyr cneifio fel pobl na fyddai'n cadw dillad o'r fath neu'n cael eu diheintio'n llawn.

Roedd y gweddill yn teimlo y byddent yn gallu cadw dillad i'w defnyddio ar y daliad yn unig neu ddiheintio bob amser neu'r rhan fwyaf o'r amser. Rhannwyd enghreifftiau o brotocolau diheintio hefyd.

Er y gallai fod yn anodd i gneifwyr newid dillad, mae'r cyfeiriad at ddiffyg diheintio o safbwynt y rhai sy'n casglu stoc marw yn bryder.

### Ffensio a ffiniau ffermydd


Roedd canfyddiad ffermwyr o ba mor ddiogel neu gaeedig yw ffiniau'r fferm wedi'i rannu'n gyfartal rhwng 'da iawn' a 'chanolig'. Dywedodd tri ffermwr bod eu ffiniau yn 'wael'. Trafodwyd materion eraill yn ymwneud â ffiniau, megis ffermio tir mynydd agored heb unrhyw ffiniau pendant a ffensys a oedd yn ffinio â thir coedwigaeth.

Yna gofynnwyd i ffermwyr am ganran ffiniau eu fferm sy'n atal unrhyw gyswllt trwyn i drwyn rhwng anifeiliaid.



CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU


Ffig 41




Dywedodd ffermwyr hefyd fod ffiniau naturiol eraill ar waith fel gwrychoedd, afonydd, coetiroedd a llwybrau yn ogystal â dim da byw ar ffermydd cyfagos.

Yn olaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr am y rhwystrau rhag creu ffens 3m.

Ffig 42





Cost a budd canfyddedig yw'r prif rwystrau a nodwyd gydag un hefyd yn poeni am golli tir cynhyrchiol. Trafodwyd hefyd hawliau pori a materion ymarferol/cyfreithiol ar dir mynydd agored, yn ogystal â thirwedd ffisegol gan gynnwys waliau cerrig fel ffiniau traddodiadol mewn rhai ardaloedd. Cyfeiriwyd at gyfranogiad a chydweithrediad cymdogion hefyd fel rhwystr.

Er y gallai cyfyngu cyswllt trwyn i drwyn rhwng ffermydd gynnig buddion cadarnhaol o safbwynt iechyd anifeiliaid ac y byddai modd cynnig cymhelliant drwy'r cynllun, roedd cyfranogwyr yn mynegi'r farn y byddai angen i Lywodraeth Cymru gydnabod a gwerthfawrogi'r ffactorau eraill sy'n cyfyngu ar sail fferm unigol (e.e. systemau buchesi a diadelloedd cyfnewid dros dro o'i gymharu â buchesi neu ddiadelloedd caeedig) a allai fod â mwy o risg. Byddai cyfathrebu cost a budd ffiniau 3m hefyd yn ddefnyddiol.


Wrth holi ymatebwyr ynglŷn â chysylltu cyllid gan y Llywodraeth gydag adeiladu a chynnal ffens 3m o amgylch y fferm, cafwyd ymateb cymysg yn ôl y disgwyl, sy'n adlewyrchu'r agweddau a drafodwyd yn flaenorol.

Ffig 43




## Adeiladau da byw a bywyd gwyllt

Ffig 44





Gofynnwyd cwestiwn arall "a fyddai'n bosibl atal bywyd gwyllt e.e. moch daear neu lwynogod rhag dod i gysylltiad â'ch stoc pan fyddant yn cael eu cadw dan do?" Roedd pedwar o bob pum ymatebwr yn credu y byddai hyn yn bosibl, a dywedodd lleiafrif na fyddai'n berthnasol i'w systemau gan nad ydynt yn cadw da byw dan do neu nad yw bywyd gwyllt yn broblem yn eu hardal.





Roedd y prif rwystrau o ran atal mynediad bywyd gwyllt i adeiladau fel a ganlyn:

Ffig 45




Diben canfyddiedig atal cyswllt bywyd gwyllt oedd y rhwystr pennaf, o ystyried mai dim ond am ran o'r flwyddyn y mae stoc yn cael eu cadw dan do fel arfer, felly gallant gael cyswllt gyda'r bywyd gwyllt yn ystod gweddill y flwyddyn. Cyfeiriwyd hefyd at y lefel isel o achosion o TB mewn rhai ardaloedd fel ystyriaeth dros beidio ag atal bywyd gwyllt. Gwnaed sylwadau ar ymarferoldeb hefyd gyda'r ystyriaethau pellach ynghylch "effaith diffyg golau naturiol ar dda byw" a "phroblemau awyru trwy gau adeiladau". Nododd un ymatebwr hefyd fod drudwy yn fwy o broblem.

Roedd cyfranogwyr o'r farn bod angen cyfrifo a chyfleu budd buddsoddi mewn adeiladau da byw sy'n atal bywyd gwyllt. Codwyd sensitifrwydd yn enwedig o ran TB ac iechyd da byw mewn adeiladau caeedig lle gallai atal bywyd gwyllt arwain at ddiffyg awyru. Trafodwyd ystyriaethau lleol ynghylch yr angen hefyd.

## Statws clefydau ac iechyd

Dywedodd dros dri chwarter y ffermwyr a gymerodd ran yn y trafodaethau un i un y byddent yn cynnal profion yn rheolaidd neu'n gofyn am hanes clefydau stoc cyn prynu (os nad o fuches/diadell o statws iechyd ardystiedig), a dywedodd 15% arall eu bod yn gwneud hyn o bryd i'w gilydd.

Nododd y lleiafrif bach o ffermwyr nad oedd yn profi nac yn gofyn am hanes clefydau cyn prynu eu bod yn prynu o farchnadoedd (ŵyn stôr) ond yn gweithredu protocolau cwarantîn ar ôl iddynt gyrraedd y fferm.


Nododd 64% o'r ffermwyr a gymerodd ran eu bod yn rhan o gynlluniau iechyd cenedlaethol cydnabyddedig, mae'n anodd cadarnhau a yw hwn yn ffigwr cynrychioliadol o'r diwydiant cyfan.

Mae'r cynlluniau y mae'r cyfranogwyr yn rhan ohonynt yn cynnwys:

- Gwaredu BVD Cymru
- Cynlluniau iechyd gwartheg premiwm SAC (Johnes, BVD, Lepto ac IBR)
- Maedi Visna

Mae'n werth nodi hefyd nad oedd cyfranogiad neu aelodaeth o gynlluniau o'r fath yn gyfyngedig i fuchesi neu ddiadelloedd pedigri yn unig. Amlinellir y prif resymau dros gymryd rhan isod:


Ffig 46




Cyfeiriodd mwyafrif yr ymatebwyr at fwy nag un prif reswm dros gymryd rhan yn y cynlluniau hyn.

Gofynnwyd i ffermwyr nad ydynt yn rhan o gynllun iechyd am y prif rwystrau rhag cymryd rhan:

Ffig 47









Yn yr un modd â'r cwestiwn blaenorol, nododd mwyafrif yr ymatebwyr fwy nag un rheswm. Trafodwyd hefyd briodoldeb ac addasrwydd cyfranogiad fel rhwystrau ychwanegol rhag cymryd rhan.

O'r trafodaethau a gynhaliwyd, mae'n amlwg nad yw cymryd rhan mewn cynlluniau iechyd yn briodol nac yn addas ar gyfer pob system ffermio, ac mae nifer o ffactorau'n cael eu hystyried wrth benderfynu cymryd rhan ai peidio.

Soniodd nifer am y rhaglen Gwaredu BVD yn ystod trafodaethau fel enghraifft dda o gynllun sy'n cael ei arwain gan y diwydiant i drechu clefyd penodol. Byddai gwerthusiad o effeithiolrwydd y cynllun hwn o ran agweddau gweithredol a lleihau'r clefyd hefyd yn sail ddefnyddiol ar gyfer cefnogaeth bellach.

Roedd y ffermwyr a gymerodd ran yn y trafodaethau un i un hefyd yn gefnogol ar y cyfan i'r syniad y byddai cyllid y cynllun SFS yn gysylltiedig â gweithio gyda'r Llywodraeth tuag at waredu clefydau a chynnal statws swyddogol o fod yn rhydd o glefydau.

Ffig 48




## Cadw Cofnodion

Mae ffermwyr bob amser wedi defnyddio ffigurau i'w helpu i wneud penderfyniadau. Trwy fonitro sut mae eu buchesi a/neu eu diadelloedd yn perfformio, gall ffermwyr nodi meysydd gwella, a gosod targedau. Bydd hyn yn helpu i wneud yr anifeiliaid yn fwy cynhyrchiol a'r busnes yn fwy effeithlon.


## Buchesi llaeth

Roedd y cwestiynau cychwynnol a ofynnwyd ynglŷn â chadw cofnodion yn canolbwyntio ar fuchesi llaeth a oedd yn ganran gymharol fach o'r sampl gyffredinol (nododd deg ffermwr eu bod yn ffermwyr llaeth). Roedd chwech o'r deg yn recordio llaeth ar hyn o bryd; nododd y pedwar nad ydynt yn cofnodi mai'r prif reswm dros hynny oedd 'dim budd ychwanegol'. O ystyried maint y sampl a natur benodol y cwestiwn, ni ddylid dibynnu ar hyn fel cynrychiolaeth o farn y diwydiant.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA)


Yna gofynnwyd i ffermwyr am Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer eu buchesi a'u diadelloedd. Roedd y cwestiynau wedi'u llywio tuag at fuchesi a diadelloedd magu, fodd bynnag, gofynnwyd i'r holl ffermwyr a oedd yn cadw gwartheg neu ddefaid i roi eu barn fel rhan o'r trafodaethau un i un.

Ffig 49




Roedd enghreifftiau o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a drafodwyd yn cynnwys bwlch lloia, cynnydd pwysau a chyfraddau beichiogi.

Ffig 50





Bu llond llaw o ymatebwyr yn trafod cyfraddau twf a mesur pwysau ar adegau allweddol (dan do/diddyfnu/troi allan) fel enghreifftiau o rai o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a fesurwyd.





Ffig 51





O'r ymatebion a gafwyd yn ystod y trafodaethau un i un, mae'n ymddangos bod canran debyg o ffermwyr defaid hefyd yn gweithio tuag at ddangosyddion perfformiad allweddol. Nododd un ymatebwr ei fod yn cymryd rhan yn system Signet ar gyfer cofnodi perfformiad, a bu eraill yn trafod canrannau sganio, cyfraddau twf, pwysau wrth fynd i'r lladd-dy (pwysau byw a'r fanyleb (pwysau ar y bach) fel dangosyddion perfformiad allweddol. Nododd dau ymatebwr eu bod wedi dechrau mesur cyfraddau twf yn 2020.


## Grwpiau trafod a meincnodi

Nod y trafodaethau un i un oedd dod o hyd i wybodaeth ynglŷn â meincnodi a grwpiau trafod.

Ffig 52




Ffig 53



Er bod tua thraean o'r rhai a gymerodd ran yn y trafodaethau un i un yn ymwneud â grwpiau meincnodi/trafod, dywedodd bron i hanner yr hoffent wneud mwy. Roedd y ffigwr hwn yn gymysgedd o'r rhai a oedd eisoes yn cymryd rhan mewn grwpiau trafod a meincnodi a'r rhai nad oeddent. Byddai'n ddiddorol croesgyfeirio hyn gyda nifer y ffermwyr sy'n ymwneud â grwpiau trafod a ariennir/a gefnogir gan Lywodraeth Cymru.

Mynegodd rhai cyfranogwyr y byddai cefnogaeth barhaus i ffermwyr unigol er mwyn meincnodi/cofnodi dangosyddion perfformiad allweddol yn rhan bwysig o unrhyw gynllun at y dyfodol.

### Casglu a rheoli data ar y fferm

Nodwyd mai amser oedd y prif ffactor sy'n rhwystro cyfranogwyr i gofnodi data ar eu ffermydd. Roedd canfyddiad o fudd casglu data yn agwedd eilaidd, gyda rhai'n nodi ei bod yn gwneud "cymaint ag sydd angen" ac un arall yn nodi mai "dim ond dwywaith y flwyddyn fydda i'n casglu'r ddiadell at ei gilydd". Roedd cost, diddordeb a sgiliau cyfrifiadurol yn ffactorau eraill.

Ar hyn o bryd mae 50% o'r rhai a gymerodd ran yn y trafodaethau un i un yn defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol i recordio a llunio Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Yn ogystal â systemau a ddatblygwyd gan y ffermwr eu hunain, pecynnau Border Software, Agridata, AgriWebb a Shearwell Farmplan oedd y rhai a ddefnyddiwyd amlaf.

I'r rhai nad oeddent yn defnyddio unrhyw raglenni cyfrifiadurol i recordio a llunio Dangosyddion Perfformiad Allweddol, y rhwystr mwyaf cyffredin oedd methu â gweld budd ar gyfer eu busnesau fferm. Dywedodd un o'r ymatebwyr ei fod wedi "rhoi cynnig arni yn y gorffennol, ond nid oedd wedi bod yn llwyddiannus". Cyfeiriwyd hefyd at amser/llafur a sgiliau/gallu cyfrifiadurol fel rhwystrau i raddau llai.

### Bridio a Dethol Geneteg

Pan ofynnwyd "Faint o werth ydych chi'n ei roi ar fridio dethol er mwyn gwella effeithlonrwydd ar y fferm?", roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn ei fod yn bwysig neu'n bwysig iawn, gyda dau'n nodi fod y gallu i addasu i'r system ffermio a'r amgylchedd hefyd yn bwysig.

Roedd yn amlwg bod ystod o ddulliau bridio a gwella bridiau dethol yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar ffermydd Cymru, gyda'r canlynol wedi'u nodi:

- Trosglwyddo Embryonau
- Ffrwythloni artiffisial
- Canlyniadau Profi Genomig
- Gwerthoedd Bridio Tybiedig (EBV)
- Defnyddio hyrddod pedigri/cofrestredig
- Data eich fferm unigol
- Gwybodaeth eich hun am stoc bridio

Roedd hanner y rhai a gymerodd ran yn y drafodaeth un i un yn credu bod geneteg yn chwarae rhan fawr yn effeithlonrwydd a chynhyrchiant stoc ar y fferm. Roedd y gweddill o'r farn ei fod wedi cael rhywfaint o effaith gyda lleiafrif bach yn nodi nad oedd yn cael unrhyw effaith. Nodwyd hefyd fod nodweddion rheoli yn bwysig.





Roedd yr holl gyfranogwyr o'r farn bod geneteg yn chwarae rôl yn iechyd y fuches/diadell. Roedd 43% o'r farn ei bod yn rôl sylweddol tra bod 57% o'r farn ei fod yn cael rhywfaint o effaith.

**Bu sesiynau grŵp a fu'n trafod iechyd a lles anifeiliaid** yn trafod camau gweithredu ac ymyriadau neu gymhelliant penodol i'w hystyried o fewn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Cynhaliwyd saith sesiwn grŵp wedi'u hwyluso gan filfeddyg fferm cymwys a gweithredol. Roedd y trafodaethau'n seiliedig ar gyfres o bum cwestiwn a datganiad, a gofynnwyd i grwpiau ddatblygu barn gyffredin a fyddai'n berthnasol i'r rhan fwyaf o ffermydd Cymru.

### 1) Cysylltu iechyd a lles anifeiliaid â chefnogaeth yn y dyfodol.

Mae yna lawer o ffyrdd y gallai safonau iechyd a lles anifeiliaid ar fferm gael eu cysylltu â thaliadau cymorth yn y dyfodol. O'r saith trafodaeth grŵp a gynhaliwyd:

- roedd pum grŵp o blaid gosod isafswm safon iechyd a lles anifeiliaid gyda chefnogaeth yn cael ei rhoi ar ôl ei fodloni.
- roedd un grŵp o blaid safonau sy'n gysylltiedig â lefelau amrywiol o daliadau h.y. y gorau yw'r safon, y mwyaf yw'r gefnogaeth.
- gallai un grŵp weld buddion y ddau ddull ac ni allai ddod i gonsensws.

Roedd y pwyntiau a godwyd ac a drafodwyd gan bob grŵp yn debyg iawn. Roedd pob un o'r farn bod safonau lles ar ffermydd Cymru yn uchel iawn ar y cyfan, gyda'r mwyafrif o'r rhai a gymerodd ran mewn sesiynau grŵp eisoes yn cymryd rhan mewn cynlluniau sicrwydd fferm (gan gynnwys FAWL, Red Tractor, Cymdeithas y Pridd, Freedom Foods ac ati). Roedd y mwyafrif yn gwybod am eithriad ac yn ystyried safonau lles o'r fath yn annerbyniol ac yn niweidiol i ddelwedd ffermio Cymru i'r cyhoedd.

Roedd y buddion a drafodwyd i gefnogi gofyniad o safonau isafswm cyn gallu derbyn cymorth yn cynnwys:

- Byddai'n haws ei ddiffinio a gellir gosod targedau clir
- Byddai safon isafswm gofynnol yn symlach i'w hasesu
- Mae cymryd rhan mewn cynlluniau sicrwydd fferm presennol yn addas fel safon ofynnol ac ni fyddai angen cost na gwaith ychwanegol
- Ystyrir bod y safon ofynnol yn fwy cost effeithiol ac yn llai biwrocrataidd.
- Ar hyn o bryd mae grymoedd y farchnad yn gyrru gwelliant e.e. Red Tractor- llaeth. FAWL bîff a defaid

Roedd anfanteision gosod isafswm ar gyfer safonau cyn gallu derbyn cymorth yn cynnwys:

- Potensial ar gyfer safon sicrwydd fferm anghyson o fferm i fferm.
- Ni fyddai'n arwain at gynnydd/gwelliant gwirioneddol i iechyd a lles anifeiliaid ar y rhan fwyaf o ffermydd gan eu bod eisoes yn gweithio tuag at safon uwch.
- Nid yw grymoedd y farchnad yn ddigon o ffactor arweiniol ar hyn o bryd i gefnogi safonau gofynnol. Enghraifft a nodwyd oedd nad oedd gwahaniaethau rhwng prisiau marchnad cig oen Cymreig gydag achrediad sicrwydd fferm a chig oen Cymreig heb achrediad sicrwydd fferm.
- Byddai'r ffocws ar "waith papur" yn hytrach na chyflwr a lles yr anifeiliaid ar y fferm.

Roedd yr ail opsiwn yn cael ei ffafrio gan un o'r saith grŵp a gymerodd ran yn y drafodaeth. Roedd hyn yn ymwneud â sicrhau bod iechyd a lles anifeiliaid yn rhan integredig o'r cynllun, gan fodloni amrywiaeth o safonau, gan arwain at daliadau ar amrywiaeth o lefelau'n cael eu gwneud e.e. yr uchaf yw'r safon y mwyaf yw'r gefnogaeth a roddir, ac i'r gwrthwyneb.

Roedd manteision mabwysiadu'r ail opsiwn hwn a fynegwyd yn y drafodaeth grŵp yn cynnwys:

- Gallai weithredu fel "ffactor arweiniol er mwyn gwella pob fferm".
- Byddai modd rhannu opsiynau sy'n gysylltiedig â thaliadau fel 'pecynnau' datblygedig a fyddai'n cynnig mwy o dryloywder, yn haws i'w hasesu ac yn haws gosod targedau.
- Byddai system o daliadau haenog yn caniatáu ar gyfer rhoi mwy o wobr ariannol i'r ffermwyr hynny sy'n gwneud mwy o ran gwella iechyd a lles anifeiliaid ar eu ffermydd.
- Byddai perchnogaeth ar dda byw a chadw da byw yn elfen angenrheidiol o'r cynllun, ni fyddai'r rhai nad ydynt yn ffermio'n weithredol yn derbyn taliad o'r fath. (Mae hyn yn cyd-fynd â barn gyffredinol mai dim ond 'ffermwyr gweithredol' ddylai fod yn derbyn taliadau cynllun SFS)

Roedd yr anfanteision a nodwyd ynglŷn â system sy'n gwobrwyo safonau amrywiol yn cynnwys:

- Byddai'n anodd ac yn gostus i'w weithredu a'i asesu.
- Byddai system haenog yn arwain at fwy o fiwrocratiaeth.
- Ystyriwyd fod ffermio yng Nghymru eisoes yn cael ei ystyried ar safon ddigon uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid. (Er y rhannwyd rhwystredigaeth "nad yw gwleidyddion yn cefnogi'r farn hon" - cynhaliwyd sesiynau grŵp ar yr un pryd ag y pleidleisiodd Llywodraeth y DU yn erbyn diwygiadau i'r Ddeddf Amaeth i beidio â derbyn mewnforion o gynhyrchion bwyd a gynhyrchir i safonau lles is).
- Nid oedd gan gyfranogwyr lawer o hyder yn y broses asesu a fyddai'n cael ei chwblhau.
- Nid oedd y dull hwn yn cael ei ystyried yn addas ar gyfer mentrau ffermio llai "ddim yn addas ar gyfer tyddynwyr". (Mynegwyd pryder hefyd bod safonau iechyd a lles yn gyffredinol is ac yn fwy o broblem ar ffermydd a daliadau llai yn aml le nad oes gan geidwad anifeiliaid lawer o brofiad, os o gwbl.) Y diffiniad o fentrau ffermio llai yng nghyd-destun y drafodaeth hon oedd 2 neu 3 cae ac ychydig o dda byw.

Roedd cyfranogwyr o'r farn y dylai unrhyw feini prawf asesu gynnwys darpariaethau wrth gefn am resymau y tu hwnt i reolaeth y ffermwr sy'n effeithio ar berfformiad gydag enghreifftiau fel trychinebau naturiol, y tywydd a COVID-19 yn cael eu trafod. Canlyniad y drafodaeth mewn un sesiwn grŵp oedd awgrym i'r asesiad fod yn seiliedig ar arolwg o les anifeiliaid gan filfeddyg annibynnol nad yw'n filfeddyg ar gyfer y fferm.

Nododd trafodaeth hefyd awydd i ddatblygu 'Brand Cymru', a allai gynrychioli pob sector ffermio yng Nghymru, yn seiliedig ar safonau iechyd a lles anifeiliaid da.





### 2) Gosod gofyniad sylfaenol a chymell gwelliant

Roedd y drafodaeth ar y pwnc hwn yn debyg iawn ar y cyfan rhwng pob grŵp. Roedd pob grŵp yn cytuno ar y cyfan y dylid cael system talu wedi'i graddio. Roedd pob un yn cytuno'n unfrydol y dylai'r rhai sydd eisoes wedi buddsoddi i gyrraedd y safon ofynnol dderbyn mwy o gymorth ariannol na'r rhai nad oeddent wedi gwneud hynny. Roedd unigolion ym mhob grŵp yn dal i fod o'r farn y dylai'r safonau eisoes fod wedi'u cyrraedd, ac na ddylai cyllid fod ar gael ar gyfer y rhai nad ydynt yn bodloni'r safon. Cyrhaeddwyd cyfaddawd fwy nag unwaith yn y drafodaeth i gytuno y byddai rhywfaint o gyllid yn rhoi cyfle i'r rheini sydd am gyrraedd y safon.

Ymhlith yr awgrymiadau roedd system goleuadau traffig 'coch, oren, gwyrdd' lle'r oedd ffermydd ar wahanol gamau yn gweithio tuag at y targedau penodol ac yn derbyn cyllid cynyddol wrth i'r targedau hynny gael eu cyrraedd. Roedd y mwyafrif o blaid rhoi terfyn amser o 2-3 blynedd ar gyrraedd targedau. Aeth un grŵp ymhellach ac awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid trwy'r cynllun SFS ar ffurf 'benthyciad' sy'n galluogi buddsoddiad i gyrraedd y safon benodol, y gellid ei ad-dalu wedyn trwy ddidyniadau mewn taliadau cymorth dros ychydig flynyddoedd.

Awgrymwyd yn gyffredinol y gallai milfeddyg preifat y fferm osod targedau ac asesu lles ar ffermydd unigol. Gwnaed awgrymiadau unigol o blaid ymweliad blynyddol â'r fferm gan filfeddyg e.e. trafodaeth ar y fferm ar gyfer llunio cynllun iechyd a gosod targedau.

Nodwyd hefyd fod cefnogi newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc sy'n dechrau ar eu taith yn y diwydiant yn bwysig.

Roedd y trafodaethau grŵp yn cytuno'n gyffredinol bod cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar y fferm yn amhrisiadwy. Mynegwyd barn bod rhwydweithiau cefnogi presennol yn ddefnyddiol ar y cyfan, ond bod dull tameidiog ar hyn o bryd o ran argaeledd cyngor ynglŷn ag iechyd anifeiliaid, gyda chymorth gan Cyswllt Ffermio, NADIS a Stock+ yn cael eu henwi. Roedd llawer o'r cyfranogwyr eisoes yn cymryd rhan mewn grwpiau trafod ac yn ystyried ymweliadau ar y fferm yn ffordd wych o ddysgu. Aeth rhai ymhellach gan awgrymu y gallai cyswllt rhwng y rhai sy'n gwneud penderfyniadau o fewn Llywodraeth Cymru a thrafodaethau gyda ffermwyr fod yn gysylltiedig â chymryd rhan mewn grwpiau trafod.

Roedd milfeddygon preifat yn cael eu hystyried yn unigolion amhrisiadwy sydd â gwybodaeth unigol am sefyllfaoedd fferm ynghyd â'r gallu i ddatrys problemau pan fyddant yn codi. "Mae'n bosibl mai'r milfeddygon fyddai'r bobl fwyaf addas i ddarparu targedau a rhoi adborth ar y gwelliannau a wneir".

Cododd mwy nag un grŵp fater iechyd meddwl ffermwyr mewn perthynas â gosod targedau a chyflawni safonau penodol o ran iechyd a lles anifeiliaid. Pwysleisiodd hyn yr angen i gefnogi lles personol y ffermwr yn ogystal â lles ei anifeiliaid.

3) Cynllunio iechyd anifeiliaid.

Ac eithrio llond llaw o ffermwyr da byw a gymerodd ran mewn sesiynau grŵp, roedd gan bob ymatebwr gynlluniau iechyd anifeiliaid ar waith. Nid oedd gan yr un ohonynt wrthwynebiad i'r cynllun iechyd fod yn rhan o ofynion y cynllun, er bod mwy nag un wedi cyfaddef eu bod yn amau pa mor ddefnyddiol yw'r cynllun. Gwnaed awgrymiadau bod asesu lles yr anifeiliaid gyda'r llygad yn bwysicach yn hytrach nag asesu cynnwys y cynllun iechyd. Fodd bynnag, nodwyd pryder ynglŷn â diffyg hyder yng ngallu sgiliau swyddogion y llywodraeth neu archwilwyr sicrwydd fferm i wneud hynny.

Esboniodd pawb a fu'n cymryd rhan mewn gwahanol gynlluniau sicrwydd fferm, gan gynnwys y rhai a weithredir gan archfarchnadoedd, eu bod yn casglu llwythi o ddata fel rhan o ofynion y cynllun. Byddai'r mwyafrif yn hapus i rannu o leiaf rhywfaint o'r data at ddefnydd y diwydiant ehangach gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a dangos safonau uchel a chynyddol ffermio da byw yng Nghymru.

Roedd awydd cryf i weld un gronfa ddata ganolog lle mae data'n cael ei gofnodi a'i gasglu. Nododd rhai y gallai fod yn gyfrifoldeb ar y cynlluniau sicrwydd fferm sy'n bodoli ar hyn o bryd i fwydo'r data y maent yn ei gasglu i Lywodraeth Cymru yn ôl. Byddai eraill yn hapus i fewnbynnu data unwaith y flwyddyn ar borth ar y we fel RPW ar-lein neu debyg. Awgrymwyd y gallai milfeddygon, a chyflenwyr fferm eraill sy'n gwerthu meddyginiaeth, triniaeth llyngyr ac ati, gysylltu gwerthiannau â rhifau daliad.

Roedd rhai yn y sesiynau grŵp o blaid defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol i gofnodi a monitro data; mynegodd llawer awydd am raglen ganolog, gan ddwyn ynghyd yr agweddau gorau ar bob un sydd ar gael ar hyn o bryd, a chaniatáu ar gyfer system Dangosydd Perfformiad Allweddol cysylltiedig â'r diwydiant a'r sector.

Ystyriwyd y byddai hyfforddiant cyfrifiadurol yn ddefnyddiol, yn ogystal â thempled ar bapur sy'n gallu cael ei gwblhau gan y ffermwr a'i fewnbynnu ar-lein gan eraill.

Mynegodd ychydig o gyfranogwyr iau mewn sesiynau grŵp yr awydd am apiau ffôn symudol, a "defnyddio data i helpu llywio a datblygu dyfodol y diwydiant". Cytunwyd yn gyffredinol nad yw data a gesglir ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial.

4) Mesur perfformiad

Cafwyd trafodaeth wych ynglŷn â choladu Dangosyddion Perfformiad Allweddol, ond ni lwyddodd unrhyw grŵp ddod i gytundeb. Derbyniwyd/disgwyliwyd y byddai'n well gan ffermwyr Cymru gasglu a dadansoddi data mewn marchnad fyd-eang, fodd bynnag, roedd diffinio pa ddata sy'n ddefnyddiol yn anodd.

Y farn fwyaf poblogaidd o ran Dangosydd Perfformiad Allweddol defnyddiol oedd y defnydd o driniaethau gwrthficrobaidd. Ar hyn o bryd mae hyn yn cael ei goladu a'i ddarparu i ffermwyr fel rhan o lawer o'r cynlluniau sicrwydd fferm. Derbyniwyd y byddai sgôr defnydd 'carbon', er ei fod yn amhoblogaidd gyda ffermwyr, yn bwynt gwerthu da ar y farchnad fyd-eang, ac o ganlyniad, byddai'n Ddangosydd Perfformiad Allweddol defnyddiol. Trafodwyd Dangosyddion Perfformiad Allweddol eraill megis cyfraddau marwolaeth, cyfraddau beichiogi, cyfraddau twf, cyfraddau cloffni ac ati yn helaeth, ond ystyriwyd y byddai'r rhain yn rhy amrywiol ar gyfer pob fferm i fod o unrhyw ddefnydd gwirioneddol.



CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

Awgrymwyd gan y rhai a oedd wedi bod yn rhan o'r cynllun YPiA (pobl ifanc mewn amaeth), lle'r oedd Dangosyddion Perfformiad Allweddol unigol yn benodol i'r fferm yn cael eu gosod, y byddai modd defnyddio'r un dull gyda'r cynllun SFS.

Awgrymodd un cyfranogwr y gallai 'arolwg defnyddwyr' fod yn ddefnyddiol er mwyn gweld pa ddata yr hoffai'r cyhoedd ei wybod. Cytunodd eraill fod angen mwy o dryloywder gan y diwydiant er mwyn dangos gwelliant a chyfiawnhau'r arian cyhoeddus sy'n cael ei ddefnyddio gan y diwydiant yn ogystal â chynnal/cynyddu cefnogaeth y cyhoedd o ffermio yng Nghymru.

Amlygwyd yr angen am fwy o gofnodi/mewnbynnu data electronig ar ffermydd wrth drin da byw. Ystyriwyd bod y weledigaeth o fewnbynnu data a Dangosyddion Perfformiad Allweddol wrth drin da byw yn cynnig y potensial i leihau'r gwaith papur llafurus sy'n gysylltiedig gydag amaethyddiaeth yng Nghymru ar hyn o bryd. Amlygodd nifer o ffermwyr yr angen am lwyfan ganolog i gofnodi data yn y cyd-destun hwn.

5) Bioddiogelwch

Roedd cytundeb cyffredinol ym mhob un o'r saith grŵp y gellir gwella bioddiogelwch fferm yn enwedig gyda gwartheg a defaid. Yn gyffredinol, derbynnir bod gan y sectorau mwy dwys megis ffermydd moch a dofednod safonau bioddiogelwch llawer uwch sy'n cael eu gyrru gan y dwysedd stocio uchel a'r risg o ledaenu clefydau yn gyflym.

Wrth holi cyfranogwyr ynglŷn â hylendid contractwyr gan gynnwys y rhai sy'n sganio, cneifwyr, technegwyr AI, y rhai sy'n trimio traed ac ati, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cyfaddef nad oedd y safonau'n ddelfrydol.

Byddai ffensys dwbl yn ddefnyddiol iawn i frwydro yn erbyn cyswllt o drwyn i drwy/clefydau cyswllt megis BVD neu'r Clafr, a nodwyd awydd i sicrhau cyllid i wneud hyn yn bosibl. Roedd plannu coed yn y gwrychoedd hefyd yn cael ei ystyried yn elfen gadarnhaol, gan ddarparu cysgod rhag y tywydd i dda byw ynghyd â chyflawni dymuniad Llywodraeth Cymru i blannu mwy o goed, ond heb golli tir amaethyddol sy'n cynhyrchu bwyd.

Roedd y rhwystrau presennol rhag sicrhau bioddiogelwch yn cynnwys y cyfalaf sy'n ofynnol, cymdogion nad ydynt yn cydweithredu, y dirwedd ffisegol a hawliau pori. Cyfeiriwyd hefyd at lwybrau troed, ac yn benodol nad oes modd gosod giatiau 'dwbl' mewn ffensys ar ffiniau fel un rhwystr.

Mewn rhai busnesau ffermio, lle'r oedd anifeiliaid yn cael eu prynu o amrywiol ffynonellau e.e. gwartheg stôr, buchesi llaeth cyfnewid dros dro, diadelloedd defaid masnachol, roedd bioddiogelwch llym yn cael ei ystyried yn dasg anoddach. Awgrymwyd yn ystod y drafodaeth y gallai unedau/ardaloedd/caeau ynysu fod yn ddefnyddiol ar gyfer rheoli afiechyd ar y daliadau hyn.

Roedd cytundeb cyffredinol o fewn y grwpiau ynghylch rôl Llywodraeth Cymru a dileu afiechydon, gyda chynlluniau peilot fel Gwaredu BVD Cymru yn cael eu hystyried yn llwyddiant ac yn fanteisiol i'r diwydiant yng Nghymru. Roedd gofyniad am ddull cydweithredol/cenedlaethol o reoli clafr defaid, yn rhan o'r drafodaeth ym mhob grŵp.

Codwyd pryderon gan bob un o'r saith grŵp ynghylch effaith ddifrifol TB Buchol ar y diwydiant. Mynegwyd safbwyntiau na fydd ffiniau ffens ddwbl yn cael unrhyw effaith o gwbl ar symudiad bywyd gwyllt, y mochyn daear yn benodol. Gallai safbwyntiau ar reoli TB yng Nghymru fod wedi codi rhwystr seicolegol tuag at ddiben canfyddedig gwella a rheoli clefydau eraill trwy fioddiogelwch llym. Mynegwyd ystyriaethau iechyd meddwl hefyd ynglŷn ag effaith y clefyd ar y ffermwr a'r straen ychwanegol a brofwyd.



CYD-DDYLUNIO'R CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY I GYMRU

## 8.5 Yr Iaith Gymraeg


Cwblhawyd pob rhan o'r broses gyd-ddylunio yn ddwyieithog.

- Roedd cyfranogwyr yn gallu cwblhau'r arolwg naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- Cynhaliwyd y trafodaethau un i un yn yr iaith a ddewiswyd gan y cyfranogwyr
- Cynhaliwyd 8 o'r 28 sesiwn grŵp yn Gymraeg gyda'r gweddill yn Saesneg ond roeddent yn cynnwys siaradwyr Cymraeg.
- Roedd pob un o'r hwyluswyr o fewn tîm y prosiect yn ddwyieithog.

Nod y trafodaethau un i un oedd darganfod barn ar effaith y cynllun ar yr iaith Gymraeg neu siaradwyr Cymraeg ac i geisio canfod y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg a fu'n cymryd rhan yn y broses.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr "Ydych chi'n ystyried eich hun yn siaradwr Cymraeg?"

Ffig 54




Er bod mwyafrif yr ymatebwyr wedi ateb ydw neu nac ydw, nododd eraill eu bod yn dysgu'r iaith neu fod ganddynt lefelau amrywiol o ddealltwriaeth.

Gofynnwyd i bawb a gymerodd ran mewn trafodaethau un i un: "A oes gennych chi unrhyw farn ynglŷn â sut allai'r cynllun effeithio ar yr iaith Gymraeg, neu siaradwyr Cymraeg yn benodol?"

Siaradwyr Cymraeg a gyfrannodd fwyaf i'r cwestiwn hwn, ac er bod rhai o'r ymatebwyr nad oedd yn siarad Cymraeg wedi nodi "nad oedd ganddynt unrhyw farn benodol", neu "nad oeddent wedi meddwl llawer am y pwnc", nodwyd pwysigrwydd yr iaith i'r gymuned amaethyddol ac ardaloedd yn gyson, p'un a oedd y cyfranogwr yn siarad Cymraeg ai peidio.

### Effaith bosibl ar yr iaith

Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn y byddai'r cynllun yn effeithio'n negyddol ar yr iaith. Effaith y cynllun ar faint fferm hyfyw oedd y brif ystyriaeth yn y cyd-destun hwn, ac mae sylwadau megis "Ni fydd ffermydd bychain teuluol yn bodoli mwyach - y rhain yw asgwrn cefn y gymuned o siaradwyr Cymraeg. Bydd ffermydd mwy yn tyfu'n fwy fyth, ac ni fydd y rhain yn cefnogi cymunedau sy'n siarad Cymraeg" yn adleisio pryderon blaenorol ynglŷn ag effaith y cynllun ar ffermydd llai. Cyfeiriodd ymatebwyr eraill at y cynllun fel catalydd ar gyfer "ffermio ar ffurf ffatri" gyda sylwadau megis "bydd ffermydd teuluol yn diflannu gyda mwy o symud tuag at ffermwyr "ffatri" nad ydynt yn siarad Cymraeg, a bydd hyn cael effaith ddinistriol ar gymunedau Cymreig (ysgolion yn benodol) a'r economi wledig yn gyffredinol". Mynegodd ymatebwr arall bryder ynghylch "ffermydd teuluol yn diflannu gan na fyddant yn gynaliadwy heb eu taliadau BPS blynyddol. Bydd hyn yn arwain at dir yn cael ei gymryd drosodd gan ffermwyr sy'n ffermio mewn dull ffatri a fydd yn gwerthu ffermdai fel ail gartrefi, ac felly bydd cymunedau gwledig Cymreig yn diflannu".

Roedd sylwadau pellach ar effaith y cynllun ar y genhedlaeth nesaf hefyd yn amlwg: "Bydd llai o gyfleoedd i bobl ifanc i ddechrau ffermio (os nad ydyn nhw'n dod o gefndir ffermio) - bydd tir yn cael ei werthu am bris premiwm gan wneud mentrau newydd yn anfforddiadwy ac yn anghynaladwy. O ganlyniad, bydd ardaloedd gwledig Cymreig yn diflannu wrth i'n cenhedlaeth ifanc symud i ffwrdd i drefi a dinasoedd mawr i geisio cyflogaeth". Nododd un arall fod ffermio ac amaethyddiaeth yn bwysig er mwyn galluogi'r genhedlaeth nesaf i gael cyfle i fyw a gweithio mewn ardaloedd gwledig sydd yn ei dro yn cynnal yr iaith a'r gymuned gysylltiedig.

Roedd eraill yn gweld y cynllun fel dylanwad cadarnhaol er mwyn cadw pobl ifanc mewn cymunedau gwledig. Ymhlith y sylwadau roedd: "Bydd yn gyfle i bobl ifanc aros yn eu cymunedau lleol a chadw'r Gymraeg yn fyw - os bydd ffermydd mawr yn ehangu, bydd angen mewnbwn llafur ychwanegol arnynt ar sail amser llawn neu ran amser." Mynegodd un arall fod gan y cynllun botensial i gadw pobl ifanc mewn cymunedau gwledig: "mae angen cadw'r genhedlaeth iau yng nghefn gwlad, felly gallai hyn helpu i gadw swyddi ac incwm sefydlog ar ffermydd gan olygu y bydd mwy o'r genhedlaeth nesaf yn aros yng nghefn gwlad Cymru ac yn helpu i gadw'r iaith yn fyw".

Effaith y cynllun ar y Gymraeg oedd y brif ystyriaeth, ond nododd nifer o ymatebwyr sut y bydd y cynllun SFS yn effeithio ar y gymuned ehangach a'r economi gylchol mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd un y bydd "Amaethyddiaeth (nid rheoli cefn gwlad) yn cynnal y Gymru wledig" ac roedd eraill yn adleisio'r farn y byddai cynhyrchiant yn helpu i gadw cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig, ac yn ei dro, yn cynnig cyfleoedd i weithio mewn cymunedau lleol, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.

Roedd effaith y cynllun ar dreftadaeth hefyd yn bryder gydag un ymatebydd yn awgrymu: "mae'n hanfodol cadw'r Gymraeg fel iaith fyw bob dydd, ac felly dylai'r SFS dalu bonws o £1000 i bob partner busnes rhugl Cymraeg sy'n rhan o fusnes ffermio - maen nhw'n chwarae rôl hanfodol er mwyn sicrhau bod enwau lleoedd a geirfa Cymraeg o ddydd i ddydd yn cael eu cadw'n fyw mewn ardaloedd lle mae pobl yn siarad yr iaith".





Roedd eraill o'r farn y gallai mynychder yr iaith Gymraeg fod yn fesur o lwyddiant y cynllun "Os mae'r cynllun yn un da, bydd yn cadw'r genhedlaeth nesaf yn y cymunedau gwledig. Bydd yn creu gwaith yn yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn gryf". Adleisiodd un arall y farn hon: "o'i wneud yn wael gallai niweidio'r Gymraeg. Bron fel petai'r Gymraeg yn ddangosydd o iechyd cyffredinol yr economi wledig a chymunedau gwledig". Roedd rhai o'r farn y dylai'r cynllun SFS "ystyried ffermio fel prif bwnc, ac y dylid canfod cyllid arall ar gyfer helpu'r iaith wledig ayb". Cyfeiriwyd hefyd at ddylanwadau ychwanegol ar eiddo gwledig sy'n cael ei brynu fel ail gartref neu gartref gwyliau.

### Darpariaeth Ddwyieithog

Cyfeiriodd nifer at bwysigrwydd darpariaeth ddwyieithog y cynllun, er bod nifer fechan yn cwestiynu'r gost sy'n gysylltiedig â hynny.

O'r ymatebion, mae disgwyl y byddai'r cynllun ei hun yn cael ei gyflwyno'n ddwyieithog gyda chyfranogwyr yn gallu cymryd rhan mewn iaith o'u dewis. Dywedodd un: "cyhyd â bod y dewis i ryngweithio â'r cynllun ar bob lefel, o fynegiant o ddiddordeb i gyngor arbenigol, ar gael trwy gyfrwng Cymraeg a Saesneg, yna ni allaf weld y byddai unrhyw effaith wirioneddol. Mae gallu gweithio gyda phobl sy'n siarad Cymraeg yn annog pobl (gan gynnwys mi fy hun) i siarad Cymraeg". Dywedodd un ymatebwr nad yw'n siarad Cymraeg "nad oedd yn gweld y byddai'r cynllun yn effeithio'n uniongyrchol ar siaradwyr Cymraeg, ond ei fod yn credu y dylai'r Cynllun ddefnyddio terminoleg Cymraeg a fyddai'n annog y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddefnyddio geiriau mwy cyfarwydd".

Cafwyd sylwadau dro ar ôl tro ynglŷn â phwysigrwydd sicrhau bod cynghorwyr a swyddogion a gyflogir i ddarparu'r cynllun yn ddwyieithog ac yn gallu cynorthwyo'r ffermwr drwy gyfrwng yr iaith a ddewiswyd ganddo ef/hi. Dywedodd un o'r ymatebwyr: "mae'n bwysig bod Cynghorwyr ar y fferm yn siarad Cymraeg a'u bod yn meddu ar yr arbenigedd gofynnol i allu cynorthwyo'r ffermwr, meithrin ymddiriedaeth a sefydlu perthynas waith effeithiol".

